

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 21 Gorffennaf 2014

Rhif Union: 01824706141

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 29 GORFFENNAF 2014** am **10.00 am** yn **CONFERENCE ROOM 1A, COUNTY HALL, RUTHIN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 24 Mehefin 2014 (copi'n amgaeedig).

#### **5 RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG** (Tudalennau 13 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) yn darparu diweddariad o Raglen Moderneiddio Addysg ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y prosiectau yn y Rhaglen.

**6 STRATEGAETH LEOL RHEOLI RISG LLIFOGYDD A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM REOLI RISG LLIFOGYDD YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 69 - 190)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn cyflwyno Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd i'w chymeradwyo a darparu diweddariad ynglŷn â Llifogydd Tachwedd 2012 a digwyddiad llifogydd arfordirol Rhagfyr 2013.

**7 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 191 - 202)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd ar strategaeth y gyllideb a gytunwyd arni.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 203 - 208)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd wedi'i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth drafod y materion canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

**9 YSGOL NEWYDD Y RHYL - DYFARNU CONTRACTAU** (Tudalennau 209 - 234)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi'n amgaeedig) yn ceisio cymeradwyaeth y cabinet i ddyfarnu contractau'n ymwneud ag adeiladu Ysgol Newydd y Rhyl.

**10 CAM 3 AMDDIFFYN YR ARFORDIR GORLLEWIN Y RHYL - DYFARNU CONTRACT** (Tudalennau 235 - 242)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i benodi'r contractwr a ffafriwyd ar gyfer gwaith adeiladu Cynllun Amddiffyn yr Arfordir yng Ngorllewin y Rhyl (Cam 3).

**11 CYMERADWYO TENDR AR GYFER ADEILADU MAN GWYRDD GORLLEWIN Y RHYL (Tudalennau 243 - 282)**

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd (copï'n amgaaedig) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract er mwyn adeiladu Datblygiad Man Gwyrdd Gorllewin y Rhyl.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans  
Julian Thompson-Hill  
Eryl Williams  
Bobby Feeley

Hugh Irving  
Huw Jones  
Barbara Smith  
David Smith

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Mehefin 2014 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad; David Smith, Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg

**Arsylwyr:** Y Cyngorwyr Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Meirick Davies, Gwyneth Kensler, Arwel Roberts a David Simmons

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Cyllid ac Asedau (PMc), Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR); Swyddog Gwella Corfforaethol (NK), Rheolwr Adran: Rheoli Rhwydwaith (TT) a Swyddog Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

### 1 YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau ar ran y Cynghorydd Eryl Williams a fyddai'n cyrraedd yn hwyr ar gyfer y cyfarfod.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYD

Ni chafwyd unrhyw fater brys.

### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mai 2014 .

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai 2014 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.

### 5 TREFNIADAU RHANBARTHOL A LLEOL I DDIOGELU PLANT AC OEDOLION

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feeley adroddiad yn hysbysu aelodau am ddatblygiadau rhanbarthol mewn perthynas â diogelu plant a chyflwynodd y strwythur ar gyfer y Bwrdd Diogelu Plant rhanbarthol ar gyfer cymeradwyaeth.

Soniwyd wrth yr Aelodau am y camau a gymerwyd gan y tri Bwrdd Lleol Diogelu Plant yng ngogledd Cymru i symud tuag at strwythur rhanbarthol yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles. Cynigir bod y Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) yn gyfrifol am y swyddogaethau statudol, a bod grwpiau isranbarthol yn sicrhau bod arferion lleol yn bodloni anghenion lleol.

Roedd ar y Cabinet eisiau sicrwydd bod y tensiynau a welwyd mewn ymateb i'r strwythur dwy haen wedi eu datrys ac na fyddai Sir Ddinbych yn cael ei effeithio'n andwyol gan y cynigion. Gofynnwyd am sicrwydd hefyd ynghylch a oes adnoddau digonol yn eu lle i symud ymlaen. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd bod tensiynau yn bodoli ymhob cynllun trawsnewid ac y byddai'r newid strwythurol yn darparu mwy o hyblygrwydd a manteision. Ymhelaethodd ar y gwahaniaethau rhwng y strwythur presennol a'r strwythur arfaethedig er mwyn egluro'r ddwy haen, gan sicrhau bod lleoliaeth yn cael ei gynnal wrth gyflawni amcanion ar lefel ranbarthol. Cadarnhaodd hefyd bod asiantaethau partner wedi ymrwymo adnoddau i ddatblygu'r cynigion ac fe gredir bod yr adnoddau hyn yn ddigonol ar gyfer y cam yma o'r broses. Mewn ymateb i gwestiynau pellach adroddodd Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar yr amserlen i symud ymlaen gyda'r trefniadau a chadarnhaodd nad oedd unrhyw amharodrwydd penodol i ymgymryd â rôl awdurdod cynnal. Mae copïau o adroddiad Prifysgol Sheffield ar eu gwerthusiad o'r modelau ar gael ar gais i'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd neu'r Rheolwr Prosiect Diogelu.

**PENDERFYNWYD** y dylai'r Cabinet gytuno ar strwythur y BDP rhanbarthol, (i'w adnabod fel Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru), fel y dangosir yn Niagram 2 yn Atodiad 1 yr adroddiad; i fod yn weithredol cyn gynted â phosibl.

## **6 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL (CHWARTER 4 2013/14)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith yr adroddiad i ddiweddarau'r Cabinet ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 4 2013/14. Mae ail flwyddyn y cynllun pum mlynedd newydd ei gwblhau ac mae'r cynnydd ar y cyfan yn dderbyniol.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y crynodeb perfformiad allweddol a nodwyd yn yr adroddiad a'r 13 o faterion allweddol a graffwyd arnynt gan y Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Amlygodd y Cynghorydd Smith rai o'r materion hynny a rhoddodd eglurhad a diweddariad ar y cynnydd yn erbyn y dangosyddion penodol hynny. Fel pwynt o gywirdeb tynnodd yr Arweinydd sylw at dudalen 44, canlyniad 5 – prosiectau y Rhyl yn Symud Ymlaen, gan gynghori nad yw'r dangosydd hwn wedi ei dynnu'n ôl.

Mewn ymateb i gwestiynau a ofynnwyd gan aelodau yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, cafwyd yr ymatebion canlynol -

- mae anghysondeb yn y ffordd y mae'r ffigurau ar gyfer tipio anghyfreithlon yn cael eu casglu a'u hadrodd i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cael ei archwilio ymhellach
- ni ddarparodd y dangosydd ar gyfer cyflwyno cyrbau isel adlewyrchiad cywir o'r cynnydd ac felly mae hyn bellach yn cael ei fesur yn erbyn terfyn amser diwygiedig
- mae'r cynnydd sylweddol o ran gosod a defnyddio offer TGCh mewn ysgolion cynradd wedi ei briodoli i ddefnydd uchel o drydan, ond efallai bod problem gydag offer yn cael eu gadael ar 'standby' dros nos. Mae hyn yn cael ei ymchwilio.
- mae trydaneiddio'r gwasanaethau rheilffordd yn cael ei ddatblygu trwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac mae achos twf economaidd i gefnogi buddsoddiad yn cael ei ddatblygu
- mae'r gweithgaredd i "fanteisio ar botensial OpTIC a hyrwyddo Parc Busnes Llanelwy" wedi ei drafod gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd a Chymunedol ac mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
- mae dangosyddion sy'n ymwneud â nifer o ystafelloedd dosbarth symudol a lefelau salwch yn gwella
- mae ffigurau yn ymwneud ag addysg wedi eu dwyn ymlaen o chwarter 2 ac ni fyddant yn newid nes bydd data mis Gorffennaf wedi ei gyhoeddi ym mis Medi, a fydd yn rhoi darlun cliriach o'r cynnydd
- cydnabuwyd bod dau fesur perfformiad wedi eu nodi fel "anhysbys" ar gyfer (1)% o'r ffyrdd a'r palmentydd a oedd wedi eu difrodi sydd bellach wedi eu gwneud yn ddiogel o fewn yr amser targed, a (2)% o'r ffyrdd a oedd mewn cyflwr diffygiol sydd wedi eu hatgyweirio o fewn yr amserlen - mae'r gwasanaeth yn gweithio i wella gwybodaeth a dderbynnir drwy eu system feddalwedd a byddai gofyn iddynt hwyluso'r broses honno - cytunodd y Cynghorydd David Smith i edrych i mewn i'r mater
- mae prosiect ar y cyd yn cael ei ddatblygu gan Eiddo a Datblygu Economaidd i nodi safleoedd datblygu / cyflogaeth strategol ar gyfer mewnfuddsoddi.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r swyddogion ystyried y cwestiynau a ofynnwyd gan yr aelodau wrth gynhyrchu'r adroddiad cynnydd nesaf.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

## 7 ADRODDIAD CANLYNIAD ARIANNOL 2013/14

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad yn manylu ar sefyllfa'r canlyniad refeniw terfynol 2013/14 ac yn nodi sut y bwriedir ymdrin â'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau. Mae'r ffigurau Alldro Refeniw terfynol (Atodiad 1); Manylion Alldro Gwasanaethau (Atodiad 2); Balansau Ysgolion (Atodiad 3), a Trosglwyddiadau o / i Gronfeydd a Glustnodwyd (Atodiad 4) ynghlwm wrth yr adroddiad.

Cyflwynodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr adroddiad a'r atodiadau. Yn fyr, mae'r sefyllfa alldro ar y cyfan yn dangos tanwariant yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd sydd, ynghyd â'r cynnydd yn arenillion treth y cyngor, yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad, bu'n bosibl gwneud argymhellion ar gyfer trosglwyddo arian i

gronfeydd wrth gefn penodol a fyddai'n cynorthwyo'r Cyngor i fynd i'r afael â'r pwysau ariannol difrifol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac yn darparu'r arian parod sydd ei angen i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Y sefyllfa derfynol yw £1.1 miliwn o arian parod. Cynigiwyd bod £885 mil yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at elfen arian parod wrth gefn y Cynllun Corfforaethol a bod £250 mil yn cael ei neilltuo ar gyfer gwariant cyfalaf i arbed gorfod defnyddio cronfeydd wrth gefn i edrych ar y posibilrwydd o fuddsoddi mewn llety gofal maeth.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, tynnwyd sylw at y meysydd canlynol -

- Roedd gwariant ysgolion yn £1.023 miliwn yn is na'r gyllideb ddirprwyedig a thrafododd yr aelodau y rhesymau posibl am y tanwariant. Mae ysgolion yn gyfrifol am eu cyllidebau dirprwyedig eu hunain a rhoddwyd eglurhad ar rôl y Fforwm Cyllidebau Ysgolion a rôl y swyddogion wrth reoli'r arian. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal gydag ysgolion sydd â balansau iach ac mae cymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion sydd â diffyg ariannol. Cydnabuwyd y cynnydd da a wnaed gan ddwy Ysgol Uwchradd y Rhyl i leihau balansau negyddol a nodwyd bod cynllun adfer ariannol ar gael ar gyfer Ysgol Pendref a bod y pennaeth newydd yn dechrau ei swydd cyn bo hir.
- Mae ar y Cynllun Corfforaethol angen oddeutu £25 miliwn o arian parod a benthyciad gwerth £52 miliwn er mwyn cyflawni uchelgais y Cyngor. Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i gronfa wrth gefn y Cynllun Corfforaethol o fewn y flwyddyn oedd £4.3 miliwn, gyda £855 mil arall yn cael ei gynnig fel rhan o'r sefyllfa derfynol. Gyda gwariant o £797 mil yn erbyn y gronfa wrth gefn yn ystod y flwyddyn, y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn oedd £14.7 miliwn. Felly, mae'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Corfforaethol ar y trywydd cywir.
- Roedd y Cynghorydd David Smith yn falch bod cyllideb Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd wedi llwyddo i dalu'r costau. Fodd bynnag, roedd yn pryderu bod y balans wedi ei gyflawni drwy ddefnyddio cyllid gan adrannau eraill i gwrdd â diffygion mewn meysydd nad oes gan y gwasanaeth unrhyw reolaeth drostynt, fel cludiant ysgol - cyfeiriodd at gyfarfod Rhyddid a Hyblygrwydd sy'n cael ei gynnal cyn bo hir i ymdrin â'r mater penodol hwn.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Bobby Feeley at y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn trawsnewid gyda phobl yn cael eu hannog i fod yn fwy cyfrifol am eu hiechyd, eu lles a'u hannibyniaeth. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwasanaethau anstatudol fel hamdden, llyfrgelloedd a gwasanaethau cefn gwlad yn hynny o beth.
- Roedd yr Arweinydd yn pryderu ynghylch y posibilrwydd o gael setliad ariannol gwaeth na'r hyn sydd wedi ei nodi eisoes ar gyfer 2015/16. O ystyried yr effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol, gofynnodd i'r Cynghorwyr sy'n gysylltiedig â phlaid wleidyddol i ddechrau llobio ar ran y trigolion i ddylanwadu ar y ddadl honno ar lefel genedlaethol. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y Cyngor strategaeth gynllunio ariannol gadarn ar waith ond mynegodd bryderon difrifol ynghylch cynllunio a chyflwyno'r toriadau sylweddol a awgrymwyd yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol. Ychwanegodd y Cynghorydd Thompson-Hill bod angen datganiad clir gan Lywodraeth Cymru o ran pa ostyngiadau yn y gyllideb y byddai eu hangen.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn cytuno i argymhell y canlynol i'r Cyngor llawn -



(a) *Y sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2013/14, a*

(b) *Ymdrin â'r cronfeydd wrth gefn a'r balansau fel y manylir yn yr adroddiad.*

Ar yr amser hwn (11.30 a.m.) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

## **8 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni. Darparodd grynodedb o sefyllfa ariannol y Cyngor a soniodd yn benodol am y canlynol-

- cyllideb refeniw net y cyngor - £188m ar gyfer 2014/15 (£192m yn 2013/14).
- cyllidebau ac arbedion gwasanaeth unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer 2014/15.
- nid oes unrhyw amrywiad yn y cyfnod cynnar hwn, fodd bynnag mae camau gweithredu i fynd i'r afael â'r risgiau a adroddwyd amdanynt yn flaenorol o fewn Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd yn cael eu cymryd i geisio cadw'r pwysau o fewn cyllideb y gwasanaeth.
- diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Corfforaethol; y Cyfrif Refeniw Tai; Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan yr Aelodau -

- Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl - Gofynnodd y Cynghorydd Eryl Williams a oedd modd defnyddio'r enw Gymraeg yn unig, 'Gerddi Heulwen', ar gyfer y datblygiad newydd. Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol ar ddeall mai dyna yw bwriad y Bwrdd Prosiect ond cytunodd i gael cadarnhad o hynny.
- Cofrestru Etholwyr (Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd) - Holodd y Cynghorydd Huw Jones beth yw'r gyllideb sydd ar gael i ddelio gyda dyfodiad y broses gofrestru etholiadol unigol. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod arian grant wedi ei ddarparu ar gyfer y feddalwedd angenrheidiol a bod y broses dan sylw yn cynnwys paru data yn hytrach na chyflogi canfaswyr.
- Teimlodd y Cynghorydd Gwyneth Kensler, lle mae colofn incwm wedi ei gynhyrchu o fewn yr atodiadau, y byddai dadansoddiad pellach o'r grantiau a/neu'r ffioedd a'r taliadau yn ddefnyddiol.
- Adroddodd y Cynghorydd Bobby Feeley ar nifer y staff cyfwerth ag amser llawn sydd wedi eu cyflogi gan yr awdurdod yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Mae gostyngiad bychan i'w weld, o 3,958.99 yn 2009/10 i 3949.89 ym mis Mawrth 2014. Trafodwyd y rhesymau bosibl am y ffigurau a chytunwyd y dylid llunio adroddiad i ddarparu esboniad pendant o'r swyddi a gollwyd a'r swyddi a grëwyd o'r newydd.
- Amlygodd y Cynghorydd Eryl Williams lwyddiant y Cyngor o ran datblygu prosiectau rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a chanmolodd safle Ysgol Maes Hyfryd, sef yr ysgol gyntaf i gael ei hadeiladu fel rhan o'r rhaglen.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2014/15 a'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb a gytunwyd.

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynodd y Cyngorydd Hugh Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau y ddau ychwanegiad canlynol -

- Cam 3 Gwaith Amddiffyn Arfordir Gorllewin y Rhyl 3-29 Gorffennaf
- Adroddiad Rheoli Trysorlys 30

**PENDERFYNWYD** bod Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet yn cael ei nodi.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 ac 15 Rhan 4 Atodlen 12A Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 10 GWASANAETH EIRIOLAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

Cyflwynodd y Cyngorydd Bobby Feeley, adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i gomisiynu'r gwasanaeth eiriolaeth yn rhanbarthol mewn partneriaeth â chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru.

Ystyriodd y Cabinet yr achos busnes ar gyfer y prosiect eiriolaeth rhanbarthol a gofynnwyd am eglurhad ynghylch manylion y cytundeb ar y cyd ac ymrwymiad yr holl bartneriaid. Byddai'r cytundeb yn rhwymo pob un o'r chwe awdurdod dros gyfnod y contract. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau, y Cyngorydd Jeanette Chamberlain-Jones, bod yr achos busnes wedi ei drafod yn y pwyllgor a bod eu hargymhellion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** bod y Cabinet -

- (a) Yn cymeradwyo comisiynu gwasanaeth eirioli yn rhanbarthol mewn partneriaeth gyda chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru, a
- (b) Nodi y byddai datblygiad y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn golygu y byddai angen proses dendro i ddechrau ym mis Gorffennaf 2014 i baratoi ar gyfer comisiynu'r gwasanaeth o fis Ebrill 2015 a bod yr opsiwn hwn hefyd yn darparu cyfle i wneud arbedion a mynd i'r afael â materion a nodwyd ym manylion y gwasanaeth.

## 11 PENODI CONTRACTWR AR GYFER YR A548 PONT Y FORYD (Y BONT LAS) - CYNLLUN CRYFHAU CYNHALIAD Y DWYRAIN 2014

Cyflwynodd y Cyngorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r broses i benodi'r contractwr a ffafrir.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet am y gwaith sydd angen ei wneud i Bont y Foryd er mwyn cryfhau'r strwythur concriid dwyreiniol ac am amserlen y prosiect. Mae manylion y broses dendro wedi eu darparu ac yn cynnwys canlyniad yr adolygiad tendr a'r argymhelliad i ddyfarnu'r contract.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau ynghylch cymhlethdod y contract a chadarnhawyd fod yr elfen gynaliadwyedd lleol wedi ei chynnwys fel rhan o'r broses werthuso. Darparwyd sicrwydd hefyd y byddai digon o rybudd yn cael ei roi ar gyfer trefniadau rheoli traffig, gan gynnwys cau'r ffordd. Gofynnwyd i swyddogion ystyried y posibilrwydd o gymudwyr yn gadael eu cerbydau yn y cyffiniau dros nos ar adeg cau'r ffordd ac i gynllunio yn unol â hynny.

***PENDERFYNWYD*** bod y Cabinet yn cymeradwyo penodi'r contractwr a enwyd fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 p.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

|                                   |  |
|-----------------------------------|--|
| <b>Adroddiad i'r:</b>             | <b>Cabinet</b>   |
| <b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>        | <b>29 Gorffennaf 2014</b>                                      |
| <b>Aelod Arweiniol / Swyddog:</b> | <b>Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg</b> |
| <b>Awdur yr Adroddiad:</b>        | <b>Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg</b>                |
| <b>Teitl:</b>                     | <b>Rhaglen Moderneiddio Addysg</b>                             |

---

## 1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yw diweddarau Aelodau'r Cabinet am y cynnydd ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg, ac yn benodol yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau o fewn y Rhaglen. Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r prosiectau posibl i gael eu hariannu fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol.

## 2. **Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Mae'r Cyngor yn symud ymlaen â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau i adolygu'r cynnydd cyfredol a deall y cyfalaf sydd ei angen ar gyfer yr holl brosiectau. Mae hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam gwaith nesaf ar gyfer rhai prosiectau.

## 3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Gofynnir i'r Cabinet:

- (i) **Awdurdodi cychwyn astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â'r prosiectau a nodir yn Atodiad 2, a bydd eu cwblhau yn destun penderfyniadau cyllideb yn y dyfodol.**
- (ii) **Nodi bydd yr awdurdod yn parhau i gynnal y ddarpariaeth yn Ysgol Borthyn.**
- (iii) **Nodi'r gofyniad i ymgynghori ar ddyfodol Ysgol Rhewl yn dilyn astudiaeth dichonoldeb ar safle Glasdir.**
- (iv) **Cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori ffurfiol ar gyfer y newid arfaethedig i ysgol sydd â dynodiad crefyddol ar gyfer Ysgol Esgob Morgan trwy ei gau fel ysgol gymunedol a'i ail-agor fel ysgol wirfoddol dan reolaeth yr Eglwys yng Nghymru o 1 Medi, 2015.**

#### 4. Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

4.1 Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau i wneud cynnydd gyda'r mecanweithiau cymeradwyo achosion busnes yn awr wedi'u cwblhau ar gyfer 3 o'r 5 prosiect fel y dangosir isod. Mae'r ymrwymïadau ariannol presennol ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ynghlwm yn Atodiad 1.

| Prosiect                     | Achos Amlinellol Strategol (SOC) | Achos Busnes Amlinellol (OBC)                 | Achos Busnes Llawn (FBC)  | Achos Cyfiawnhau Busnes (BJC) | Amserlenni                                   |
|------------------------------|----------------------------------|---|---------------------------|-------------------------------|--|
| Ysgol Newydd Y Rhyl          | Cymeradwywyd Medi 2013           | Cymeradwywyd Achos Busnes Cyfunol Mawrth 2014 |                           |                               | Dyddiad cwblhau a ragwelir - Ionawr 2016     |
| Ysgol Glan Clwyd             | Cymeradwywyd Mai 2013            | Cymeradwywyd Hydref 2013                      | I'w gyflwyno Gwanwyn 2015 |                               | Dyddiad cwblhau a ragwelir - Gorffennaf 2017 |
| Uwchradd Ffyrdd wedi'i Rannu | Cyflwynwyd Mai 2014              | I'w gadarnhau.                                | I'w gadarnhau             |                               | Dyddiad cwblhau a ragwelir - Awst 2018       |
| Ysgol Bro Dyfrdwy            |                                  |   |                           | Cymeradwywyd Ebrill 2013      | Cwblhawyd - Mawrth 2014.                     |
| Ysgol Gymunedol Bodnant      |                                  |   |                           | Cymeradwywyd Ebrill 2013      | Dyddiad cwblhau a ragwelir - Gorffennaf 2016 |

#### 4.2 Prosiect Ysgol Newydd y Rhyl

4.3 Ym mis Chwefror 2014 rhoddodd y Cyngor gymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect Ysgol Newydd Y Rhyl i gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a wnaeth wedyn gadarnhau eu cymeradwyaeth ym mis Ebrill 2014. Mae adroddiad Rhan II ar wahân ar y rhaglen hon ynghlŷn â'r camau nesaf ar gyfer y prosiect hwn.

#### 4.4 Ysgol Gymunedol Bodnant

4.5 Mae'r prosiect ymestyn Ysgol Gymunedol Bodnant yn parhau i symud ymlaen. Cymeradwyodd yr aelodau gam Dylunio Manwl y prosiect hwn ym mis Chwefror 2013. Cymeradwywyd yr Achos Cyfiawnhau Busnes gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2013, ac mae hyn wedi caniatáu i'r Cyngor

ymrwymo i gcontract gyda Llywodraeth Cymru am y swm o £1.67m fel eu helpen o arian cyfatebol ar gyfer y prosiect. Ceisir cymeradwyaeth drwy adroddiadau Cyfalaf rheolaidd y Cyngor ar gyfer gweddill cyfraniad y Cyngor o tua £1.411m tuag at y prosiect hwn.

4.6 Cyflwynwyd y cais cynllunio ym mis Mehefin 2014, ac mae wedi ei raglennu i gael penderfyniad ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r amserlen prosiect presennol yn awgrymu dyfarnu'r contract erbyn mis Tachwedd 2014. Dylai hyn alluogi dechrau'r gwaith erbyn dechrau 2015 ac amcangyfrifir bydd y dyddiad cwblhau yng Ngorffennaf 2016.

#### 4.7 Ysgolion Ffydd

4.8 Mae'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect Ysgolion Uwchradd Ffydd wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd hyn yn cael ei ystyried ym mis Gorffennaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bydd *"y trefniadau ariannu ar gyfer ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr yn Ysgolion yr 21ain Ganrif yn gyfradd ymyrraeth o hyd at 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan y sector VA. Bydd angen i'r 85% gael ei gaffael ar lefel rhaglen o 50% Llywodraeth Cymru o'ch costau rhaglen gyfredol ac mae hyn yn golygu bod y 35% y byddech wedi ei glustnodi i ddechrau fel eich cyfraniad yn cael ei defnyddio ar brosiectau eraill yn eich rhaglen band A. Gallaf gadarnhau y bydd y gyfran ganran hon yn cael ei adlewyrchu yn y mater o'n llythyrau dyfarnu grant ar gyfer achosion busnes a gymeradwywyd eisoes neu sydd i'w gymeradwyo i sicrhau bod cyfran o 50% Llywodraeth Cymru o'r rhaglen yn parhau i fod fel y cymeradwywyd gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau."* Yn wyneb y datganiad hwn mae deialog pellach yn digwydd gyda Llywodraeth Cymru.

4.9 Y cynnig a gymeradwywyd gan Esgob Wrecsam ac Esgob Llanelwy yw cau Santes Ffraid a'r Bendigaid Edward Jones o Awst 2018 ac i ysgol uwchradd newydd ffydd a rennir gael ei hadeiladu ar gyfer 750 o ddisgyblion, o ystod oedran 11 - 16 yn ardal Rhuddlan / Bodelwyddan ac i agor ar 1 Medi 2018. Mynegodd pob un o'r hyrwyddwyr eu dewisiadau o'r rhestr hir o opsiynau a oedd yn cynnwys safleoedd ysgolion presennol. Mynegodd Sir Ddinbych ffafriaeth ar gyfer lleoliad yn y Rhyl a mynegodd yr Awdurdodau Esgobaethol ffafriaeth ar gyfer ardal Rhuddlan / Bodelwyddan. Yn seiliedig ar y safbwyntiau hyn daeth y consensws ar gyfer ardal Rhuddlan / Bodelwyddan i'r amlwg. Opsiwn arall i'w archwilio gydag ymddiriedolaeth y Santes Ffraid ac Esgobaeth Gatholig Wrecsam fyddai cadw darpariaeth gynradd St Ffraid ar y safle presennol. Mae gwaith yn cael ei wneud i asesu safleoedd posibl ar gyfer yr ysgol newydd. Ar ôl cwblhau'r astudiaeth ddichonoldeb hon gofynnir am ganiatâd gan y Cabinet i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol yn gynnar yn 2015.

#### 5. **Ariannu'r Cynllun Corfforaethol**

5.1 Fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor gwnaeth yr Aelodau ymrwymiad i fuddsoddi £23miliwn pellach i weithredu'r adolygiadau ardal, gwaith adnewyddu a gwelliannau eraill i'n hysgolion. Mae Atodiad 2 i'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r prosiectau posibl y gellid eu datblygu dros yr ychydig

flynyddoedd nesaf. Bydd amseriad y prosiectau hyn yn dibynnu ar yr adnoddau cyffredinol sydd ar gael. I alluogi prosiectau i ddechrau, gofynnir am gymeradwyaeth yn y lle cyntaf ar gyfer arian dichonoldeb i ddatblygu'r prif opsiynau ar gyfer buddsoddiad cyfalaf sy'n deillio o adolygiad Cynradd Rhuthun.

## 5.2 Adolygiad Rhuthun

5.3 Yn ystod 2013 rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i ystod o gynigion ar gyfer adolygu darpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun. Mae Atodiad 3 yn rhoi trosolwg o gynnydd ar gyfer pob un o'r chwe chynnig. Bydd tri o'r chwe ardal yn dibynnu ar ddyrannu adnoddau cyfalaf a manylir ar y rhain isod.

## 5.4 Ysgolion Tref Rhuthun – safle Glasdir

5.5 Rhoddodd y Cabinet eu cymeradwyaeth i ystyried dyfodol Ysgol Stryd y Rhos, Ysgol Borthyn, Ysgol Pen Barras ac Ysgol Rhewl mewn cysylltiad gydag opsiynau ar gyfer datblygu safle Glasdir. Mae canfyddiadau adolygiad Rhuthun a'r cynnig dilynol ar gyfer cau Ysgol Llanbedr yn dangos ymrwymiad cryf i'r angen i gadw Ysgol Borthyn fel ysgol ffydd cyfrwng Saesneg i wasanaethu tref Rhuthun a'r gymuned ehangach. Mae niferoedd presennol disgyblion a darpar niferoedd yn parhau'n gryf, ac felly, at ddiben cynigion yn y dyfodol, bydd y ffocws ar Ysgol Stryd y Rhos, Ysgol Penbarras ac Ysgol Rhewl. Mae cynnydd datblygu opsiynau wedi canolbwyntio yn y lle cyntaf ar faterion risg llifogydd ac argaeledd tir.

5.6 Mae'r llinell llifogydd yn parhau i fod ddigon pell i ffwrdd oddi wrth y tir y bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer adeiladu ysgol. Yn ystod y cyfarfod Asesu Llifogydd Strategol a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2014, ni ragwelwyd unrhyw broblemau arwyddocaol ynghylch y safle. Mae risg posibl wedi cael ei nodi o amgylch y llwybr 'gorlif' o'r ffrwd trwy'r safle (mewn achos o lifogydd). Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynegi hyder y gellid goresgyn hyn yn hawdd ac maent wedi gofyn i Sir Ddinbych weithio gyda nhw yn ystod camau cynharaf unrhyw gynigion i adeiladu i negyddu'r risg hon.

5.7 Ceisir cytundeb ar hyn o bryd i ariannu gwaith dichonoldeb pellach ar yr opsiynau. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn rhoi mwy o eglurder dros ystod o faterion megis goblygiadau traffig, cadarnhad o argaeledd tir ac eglurhad o'r costau tebygol ar gyfer yr opsiwn hwn. Bydd hyn yn galluogi i Achos Busnes llawn gael ei ystyried o fewn y 6 mis nesaf. Byddai'r cytuno ar yr Achos Busnes a chynnydd y prosiect hwn yn caniatáu i'r Cabinet roi ystyriaeth lawn i statws Ysgol Rhewl yn y dyfodol. Byddai angen i'r Achos Busnes hwn ystyried a fyddai'r buddsoddiad hwn mewn cyfleusterau ysgol ar safle Glasdir yn caniatáu'r opsiwn o gau Ysgol Rhewl gael ei gynnig yn y cam hwn. Mae'r amserlenni dangosol yn awgrymu y byddai'r ymgynghoriad hwn yn dechrau yn gynnar yn 2015.

## 5.8 Ysgol Carreg Emlyn - Ysgol ardal newydd ar gyfer Clocaenog a Cyffylliog



- 5.9 Cymeradwydd y Cabinet weithredu'r rhybudd statudol i uno Ysgol Clocaenog ac Ysgol Cyffylliog o 1 Medi 2014 ac i'r ysgol newydd, gael ei galw'n Ysgol Carreg Emlyn, i weithredu ar eu safleoedd presennol. Y dyhead tymor hir yw adeiladu ysgol newydd ar un safle.
- 5.10 Fel rhan o'r trafodaethau am Ysgol ardal ar gyfer Clocaenog a Cyffylliog, dechreuwyd ar waith dichonoldeb cychwynnol i edrych ar safleoedd posibl. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod yna ychydig o safleoedd addas ym mhentref Clocaenog a allai greu lle i ysgol gyda maint posibl o 105 o ddisgyblion llawn amser.
- 5.11 Y cam nesaf fydd i'r opsiynau a nodwyd gael eu hystyried ac i achos busnes gael ei ddatblygu ar yr opsiwn a ffafrir. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn yr hydref.
- 5.12 Ysgol ardal newydd ar gyfer Llanfair a Phentrecelyn
- 5.13 Yn ystod mis Mai 2014 daeth i'r amlwg na fyddai'r opsiwn a ffafrir ar gyfer ffedereiddio Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn yn cael ei ganiatáu o dan reoliadau newydd Llywodraeth Cymru. Mae opsiynau amgen yn cael eu harchwilio gan y ddau gorff llywodraethol, gan gynnwys yr opsiwn o symud yn syth at y gwaith o ddatblygu ysgol ardal newydd ar gyfer Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn.
- 5.14 Gofynnir am gymeradwyaeth i ddyrannu swm o £10k ar gyfer gwaith dichonoldeb i ganfod a fyddai'r safleoedd posibl yn ardal Llanfair yn gallu cartrefu ysgol newydd gyda lle i 140 o ddisgyblion. Byddai unrhyw fuddsoddiad pellach yn ddibynnol ar sicrhau cymeradwyaeth ar gyfer uno'r ddwy ysgol bresennol.
- 5.15 Rheoli Traffig Safle Ysgol
- 5.16 Fel rhan o gynlluniau buddsoddi mae angen ystyried mynd i'r afael â materion traffig ar safleoedd ysgolion. Yn flaenorol roedd dyraniad bloc yn cael ei wneud yn flynyddol i fynd i'r afael â'r safleoedd risg uchel. Mae pob safle ysgol wedi cael eu hasesu gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch corfforaethol ac mae nifer fechan o safleoedd risg uchel o hyd. Cymeradwydd y Grŵp Buddsoddi Strategol £400k mewn egwyddor yn amodol ar achosion busnes manwl yn cael eu cymeradwyo ar gyfer gwaith ar y safleoedd blaenoriaeth uchel yn Ysgol Dewi Sant, Y Rhyl ac Ysgol Llewelyn, Y Rhyl i'w cwblhau erbyn hydref 2015.
- 5.17 Ysgol Pendref
- 5.18 Cyfunodd y Cyngor Ysgol Gwaenynog ac Ysgol Heulfre yn Ninbych yn 2012 i greu Ysgol Pendref. Mae'r ysgol yn parhau i fod mewn dau adeilad ar safle cyfagos. Mae'r dyhead tymor hir yn parhau i un adeilad gael ei ymestyn i ganiatáu rhyddhau'r cyfan neu ran o'r safle arall.
- 5.19 Darpariaeth Gynradd Y Rhyl

5.20 Mae angen yn dod i'r amlwg i ystyried yr opsiynau i gwrdd â'r galw cynyddol am leoedd i ddisgyblion yn y sector cynradd yn y Rhyl. Mae rhagamcaniadau disgyblion presennol yn awgrymu bydd cyfanswm y disgyblion yn cynyddu o 2672 fel a saif yn 2015 i 2785 erbyn 2019. Bydd hyn yn creu sefyllfa lle bydd lefel y lleoedd gwag yn y dref yn gostwng o 5.7% yn 2015 1.7% (48 o leoedd) allan o gyfanswm lleoedd i ddisgyblion o 2833.

#### 5.21 Safle Strategol Allweddol Bodolwyddan

5.22 Mae trafodaethau yn cael eu datblygu gyda Barwood, y datblygwr ar gyfer y safle strategol allweddol ym Modelwyddan, ynghylch opsiynau ar gyfer darparu ysgol gynradd yn y dyfodol. Mae'r ysgol gynradd bresennol yn llawn, a bydd unrhyw dwf mewn tai yn yr ardal yn rhoi pwysau ar ysgolion lleol. Roedd y trafodaethau yn canolbwyntio ar geisio cyfraniadau ariannol er mwyn sicrhau bod yr angen am leoedd ychwanegol yn cael ei fodloni gan y datblygwr.

### 6. **Adolygiadau Ardal yn y dyfodol – Darpariaeth Gynradd**

6.1 Dros y pedair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiadau ardal cynradd ar gyfer Dwyrain Dyffryn Dyfrdwy, Edeyrnion ac ardaloedd Prestatyn ac mae yn y broses o gwblhau adolygiad ardal Rhuthun yn seiliedig ar y cynigion a gymeradwywyd gan y Cabinet fis Mehefin a mis Hydref diwethaf.

6.2 Mae hyn yn gadael tair ardal i'w hadolygu yn y dyfodol; Dinbych, Llanelwy a'r Rhyl. Hyd yma ffocws yr adolygiadau cynradd fu'r angen i leihau lleoedd gwag. Ar hyn o bryd ar sail ardal mae'r lleoedd gwag yn 9.17% yn Ninbych, 2.56% yn Llanelwy a 7.94% yn y Rhyl a rhagwelir oherwydd pwysau demograffig bydd y lleoedd gwag yn gostwng ymhellach yn yr ardaloedd hyn.

6.3 Yn amlwg ni fydd y mater o leoedd gwag yn sbardun ar gyfer yr adolygiadau hyn ac mae'r galw am unrhyw adolygiad yn debygol o godi materion gwahanol. Yn bennaf yn y tair ardal hon y materion sydd angen sylw yw bodloni'r twf tebygol o'r Safle Strategol Allweddol ym Modelwyddan, mynd i'r afael â chyfuno'r babanod ac iau a'r angen am fuddsoddiad i wella'r ystâd ysgol.

6.4 Awgrymir bod adolygiadau yn cael eu cynnal mewn dwy ardal ddaearyddol wahanol: I'r gogledd o'r A55 a'r De o'r A55. Byddai hyn yn rhoi cyfle i ystyried twf mewn ardaloedd megis Bodolwyddan a'r Rhyl gyda'i gilydd tra'n caniatáu am ateb ehangach i ddod i'r amlwg ar gyfer ardal Llanelwy a Dinbych gyda'i gilydd.

### 7. **Dynodiad Crefyddol Ysgol Esgob Morgan**

7.1 Ar hyn o bryd mae dwy ysgol gynradd yn Llanelwy, sef Ysgol Wirfoddol Dan Reolaeth Babanod Llanelwy ac Ysgol Iau Esgob Morgan. Yn dilyn sylwadau gan Gorff Llywodraethol Ysgol Esgob Morgan a'r Eglwys yng Nghymru,

gofynnir i'r Cabinet i roi caniatâd i gychwyn ymgynghoriad ar gynigion i newid dynodiad Ysgol Esgob Morgan o ysgol Gymunedol i Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth dan nawdd yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r papur ymgynghori drafft wedi'i gynnwys fel Atodiad 4. Ymgynghorwyd ag Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru fel cyd-hyrwyddwr ar y cynnig yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Maent yn cyfarfod ar 8 Gorffennaf ac wedi cadarnhau eu cefnogaeth unfrydol i'r cynnig.

7.2 Byddai'r cynnig yn ei gwneud yn ofynnol i Sir Ddinbych gau Ysgol Esgob Morgan fel Ysgol Gymuned o 31 Awst 2015 ac ar yr un pryd byddai'r Eglwys yng Nghymru mewn partneriaeth â Chorff Llywodraethol Ysgol Esgob Morgan yn cyhoeddi cynigion i agor Ysgol Esgob Morgan fel Ysgol Wirfoddol dan Reolaeth o 1 Medi 2015. Rhagwelir y byddai'r ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig hwn yn dechrau ar 8 Medi tan 22 Hydref 2014. Yn dilyn hyn, byddai angen i'r Cabinet ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad a chytuno a ddylid bwrw ymlaen i'r cam nesaf sef cyhoeddi hysbysiadau statudol.

## **8. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

8.1 Bydd y cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

## **9. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

9.1 Mae cost gyffredinol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn £73.4m ac mae dyraniadau dros dro wedi cael eu gwneud gan Sir Ddinbych ar gyfer ei gyfraniad cyffredinol o 50%. Bydd y 50% sy'n weddill yn dod trwy Lywodraeth Cymru a chafwyd cymeradwyaeth ar gyfer 3 o'r 5 prosiect hyd yma. Bydd dyraniad cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr ysgol ffydd yn cael effaith sylweddol ar y rhaglen. Roedd y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys nod i fuddsoddi £23m pellach ar weithredu canlyniadau'r adolygiadau ardal, gwaith adnewyddu a gwelliannau eraill i ysgolion.

## **10. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb fel atodiad i'r adroddiad.**

Y prif benderfyniad o fewn yr adroddiad yw symud ymlaen tuag at ymgynghori ynglŷn â statws Ysgol Esgob Morgan o newid o ysgol gymunedol i ysgol wirfoddol dan reolaeth. Awgrymodd canfyddiadau'r asesiad effaith y byddai'r cais yn cael effaith gadarnhaol ar grefydd. (gweler Atodiad 5)

## **11. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

11.1 Mae'r opsiynau ar gyfer buddsoddi ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei gymeradwyo yn flaenorol gan y Cabinet a'i drafod gyda'r Pwyllgor Archwilio. Cafodd yr opsiynau ar gyfer buddsoddi yn y Cynllun Corfforaethol eu trafod gyda'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau ar 24 Mehefin a chefnogodd y Pwyllgor

y weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer moderneiddio cyfleusterau addysg ar draws y Sir.

## **12. Datganiad gan y Prif Swyddog Cyllid**

- 12.1 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y dyhead i fuddsoddi mewn rhaglen gwella ysgolion sylweddol. Mae angen adolygu'r ffigurau a ddyfynnwyd i ystyried y tybiaethau diweddaraf mewn perthynas â chyllid mewnol ac allanol, costau a llif arian. Bydd yn rhaid asesu cyfraniadau mewnol yn y dyfodol fel rhan o rownd y gyllideb flynyddol.

## **13. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

- 13.1 Mae nifer o risgiau yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ar lefel rhaglen gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg. Bydd pob prosiect unigol yn cynnwys gweithdrefnau rheoli risg.

## **14. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg.

.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu'r gofyniad deddfwriaethol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion ac i symud ymlaen cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion.

**Appendix 1**

|   | 21st Century Schools time period 2014/2019 |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
|---|--|-------------------|-------------------|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|-------------------|-----------|--------------------|--------------------|
|   | 2012/13                                    | 2013/14           | 2014/15           | 2015/16            | 2016/17            | 2017/18            | 2018/19            | 2019/20           | 2020/2021 | Total              |                    |
| <b>21st Century Schools Band A Projects As at July 2014</b> |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| Community Schools 50/50 split                               |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| DCC   |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| Rhyl High School / Ysgol Tir Morfa                          | £24,945                                    | £1,053,080        | £2,713,282        | £8,272,073         | £229,670           |                    |                    |                   |           | £12,293,050        |                    |
| Ysgol Glan Clwyd  |  | £5,057            |                   | £3,094,104         | £4,560,481         | £534,565           | £243,826           |                   |           | £8,438,033         |                    |
| Bodnant Community School                                    |  | £69,310           | £154,695          | £863,877           | £562,193           | £60,973            |                    |                   |           | £1,711,048         |                    |
| Ysgol Bro Dyfrdwy   | £4,770                                     | £81,022           | £38,697           | £88,397            |                    |                    |                    |                   |           | £212,886           |                    |
| <b>Total</b>  | <b>£4,770</b>                              | <b>£105,967</b>   | <b>£1,166,144</b> | <b>£2,956,374</b>  | <b>£12,230,054</b> | <b>£5,352,344</b>  | <b>£595,538</b>    | <b>£243,826</b>   | <b>£0</b> | <b>£0</b>          | <b>£22,655,017</b> |
| WG  |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| Rhyl High School / Ysgol Tir Morfa                          |  |                   | £4,232,326        | £7,758,397         | £302,327           |                    |                    |                   |           | £12,293,050        |                    |
| Ysgol Glan Clwyd  |  |                   | £465,443          | £1,911,729         | £4,560,480         | £524,315           |                    |                   |           | £7,461,967         |                    |
| Bodnant Community School                                    |  |                   | £464,880          | £1,235,120         |                    |                    |                    |                   |           | £1,700,000         |                    |
| Ysgol Bro Dyfrdwy   |  | £1,170,000        | £30,000           |                    |                    |                    |                    |                   |           | £1,200,000         |                    |
| <b>Total</b>  | <b>£0</b>                                  | <b>£1,170,000</b> | <b>£5,192,649</b> | <b>£10,905,246</b> | <b>£4,862,807</b>  | <b>£524,315</b>    | <b>£0</b>          | <b>£0</b>         | <b>£0</b> | <b>£22,655,017</b> |                    |
| Faith Schools 85/15 - £28m                                  |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| DCC   |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| WG  |  | £12,624           | £97,376           | £42,000            | £2,887,503         | £266,274           | £266,274           |                   |           | £3,572,051         |                    |
| Total   | £0   | £12,624           | £97,376           | £42,000            | £5,104,309         | £11,653,231        | £6,904,131         | £0                | £0        | £20,241,620        |                    |
| Total   | £0   | £12,624           | £97,376           | £42,000            | £5,104,309         | £11,653,231        | £6,904,131         | £0                | £0        | £23,813,671        |                    |
| Overall Requirements  |  |                   |                   |                    |                    |                    |                    |                   |           |                    |                    |
| Rhyl High School / Ysgol Tir Morfa                          | £24,945                                    | £1,053,080        | £6,945,608        | £16,030,470        | £531,997           | £0                 | £0                 | £0                |           | £24,586,100        |                    |
| Ysgol Glan Clwyd  | £0   | £5,057            | £465,443          | £5,005,833         | £9,120,961         | £1,058,880         | £243,826           | £0                |           | £15,900,000        |                    |
| Bodnant Community School                                    | £0   | £69,310           | £619,575          | £2,098,997         | £562,193           | £60,973            | £0                 | £0                |           | £3,411,048         |                    |
| Ysgol Bro Dyfrdwy   | £4,770                                     | £81,022           | £1,208,697        | £118,397           | £0                 | £0                 | £0                 | £0                |           | £1,412,886         |                    |
| Faith Based School  |  | £12,624           | £97,376           | £42,000            | £5,104,309         | £11,653,231        | £6,904,131         | £0                |           | £23,813,671        |                    |
| <b>Total</b>  | <b>£4,770</b>                              | <b>£105,967</b>   | <b>£2,348,768</b> | <b>£8,246,399</b>  | <b>£23,177,300</b> | <b>£15,319,460</b> | <b>£12,773,084</b> | <b>£7,147,957</b> | <b>£0</b> | <b>£69,123,705</b> |                    |

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

**Appendix 2 - Corporate Plan Potential Projects - Indicative Costs - Start dates subject to capital funding availability**

|  | Year 1            | Year 2            | Year 3            | Year 4            | Year 5          | Total              |
|--|-------------------|-------------------|-------------------|-------------------|-----------------|--------------------|
| Costs relate to likely maximum spend within year |                   |                   |                   |                   |                 |                    |
| Workplace Transport                              | £130,000          | £270,000          |                   |                   |                 | £400,000           |
| Ruthin Town School                               | £141,601          | £529,203          | £3,752,689        | £4,427,892        |                 | £8,851,385         |
| Clocaenog / Cyffylliog Area School               | £614,911          | £172,503          | £1,443,815        | £580,157          |                 | £2,811,386         |
| <b>10</b> | <b>Adolygu'r Strategaeth</b> | <b>85</b> |
|-----------|------------------------------|-----------|

|  |                  |           |
|--|------------------|-----------|
|  | <b>Atodiad A</b> | <b>86</b> |
|--|------------------|-----------|

|  |   |           |
|--|---|-----------|
|  | <b>Awdurdodau Rheoli Perygl yn Sir Ddinbych</b> | <b>86</b> |
|--|---|-----------|

## Geirfa a Byrfodau geiriau ac ymadroddion sy'n cael eu ddefnyddio'n fynych ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

| Term                             | Ystyr / Diffiniad  |
|----------------------------------|--|
| AAS                              | Asesiad Amgylcheddol Strategol. AAC yw trefn sy'n ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol mewn polisiau, cynlluniau, rhaglenni a strategaethau.   |
| AHNE                             | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.  |
| Amddiffynfeydd                   | Adeiledd sy'n cael ei ddefnyddio i leihau tebygolrwydd bod llifddwr neu erydu arfordirol yn effeithio ar ardal arbennig.   |
| CNC                              | Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n tynnu gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.   |
| Ardoll Seilwaith Cymunedol       | Peirianwaith ar gyfer codi cyllid ychwanegol yn lleol.   |
| Asesu Perygl                     | Proses strwythuredig ac archwiliadwy o nodi digwyddiadau arwyddocaol all ddigwydd, asesu eu tebygolrwydd ac effeithiau ac yna cyfuno'r rhain i roi asesiad o beryglon at ei gilydd er mwyn ysbrydoli penderfyniadau a chamau gweithredu pellach.   |
| Awdurdodau Rheoli Peryglon Cymru | Awdurdodau Rheoli Peryglon ar sail y diffiniad yn Adran 27 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010.   |
| Cadw                             | Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.  |
| Carthffos                        | Sianel wneud, fel arfer dan ddaear, ar gyfer cludo carthion (carthffos aflan), dŵr glaw (carthffos storm neu ddŵr arwyneb) neu'r ddau (carthffos gyfunol).   |
| CCGC                             | Cyngor Cefn Gwlad Cymru – yw cyngorwr statudol y Llywodraeth ar gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau'r awyr agored yng Nghymru a dyfroedd ei glannau. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n tynnu gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. |
| CCS                              | Corff Cymeradwyo SDC.  |
| CDLI                             | Cynllun Datblygu Lleol.  |
| CFfD                             | Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.   |
| CLILC                            | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Mae'n cynrychioli buddiannau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, gyda'r tri awdurdod tân ac achub, y pedwar awdurdod heddlu ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cysylltiol.  |
| Cofrestr Asedau                  | Cofrestr adeileddau neu nodweddion sy'n cael eu hystyried i fod yn cael effaith ar berygl llifogydd.   |
| CRC                              | Cofrestr Risgiau Cymunedol.  |
| CRhDA                            | Cynllun Rheoli Dŵr Arwyneb.  |
| CRhT                             | Cynlluniau Rheoli Traethlin – Asesiad ar raddfa fawr o'r peryglon cysylltiedig â phrosesau arfordirol ac sy'n helpu lleihau'r peryglon hyn i bobl a'r amgylcheddau datblygedig, hanesyddol a naturiol.   |

| Term                            | Ystyr / Diffiniad   |
|---------------------------------|---|
| <b>Cronfa Ddŵr</b>              | Llyn gwneud lle caiff dŵr ei gasglu a'i gadw nes bydd ei angen. Mae modd defnyddio cronfeydd dŵr ar gyfer dyfrhau, adloniant, darparu dŵr at anghenion trefol, cynhyrchu trydan dŵr neu reoli llif dŵr.   |
| <b>CSDd</b>                     | Cyngor Sir Ddinbych.  |
| <b>Cwrs Dŵr Cyffredin</b>       | Holl gyrsiau dŵr na ddynodwyd yn Brif Afonydd, ac sy'n gyfrifoldeb tiffeddianwyr y glannau.   |
| <b>Cydsynio</b>                 | Proses o gael caniatâd i ychwanegu / newid adeileddau mewn / ger cwrs dŵr neu adeiledd amddiffyn rhag llifogydd.  |
| <b>Cylfat</b>                   | Adeiledd â gorchudd arno dan ffordd, arglawdd ac ati, i gyfeirio llif dŵr.  |
| <b>Cynlluniau Rheoli Perygl</b> | Amrywiaeth o gamau gweithredu i leihau amlder llifogydd a/neu ganlyniadau llifogydd i lefelau derbyniol neu gytûn.  |
| <b>Dalgyrch</b>                 | Ardal sy'n cludo dŵr glaw i afon; hynny yw, mae pob darn o dir lle mae'r glaw'n draenio i un cwrs dŵr yn yr un dalgyrch.  |
| <b>DCWW</b>                     | Dŵr Cymru – sy'n cyflenwi gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth ac elifiant masnachol yng Nghymru.   |
| <b>DEFRA</b>                    | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.   |
| <b>Dŵr Codi</b>                 | Dŵr sy'n cael ei ddal dan ddaear yn y pridd neu mewn mandyllau a holltau mewn craig.  |
| <b>Dyfrhaen</b>                 | Haen o swbstrad hydraidd sy'n cynnwys ac yn trosglwyddo dŵr codi.   |
| <b>EA</b>                       | Asiantaeth yr Amgylchedd – Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.  |
| <b>EAW</b>                      | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru – Corff cyhoeddus nodedig blaenorol Llywodraeth Cymru atebol i Weinidogion Cymru. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n tynnu gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. |
| <b>ERDF</b>                     | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.  |
| <b>Erydu Arfordirol</b>         | Gwisgo'r morlin, fel arfer trwy effaith y gwynt a/neu'r tonnau.   |
| <b>ESF</b>                      | Cronfa Gymdeithasol Ewrop.  |
| <b>EU</b>                       | Yr Undeb Ewropeaidd.  |
| <b>FCERM</b>                    | Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.  |
| <b>FCW</b>                      | Comisiwn Coedwigaeth Cymru – Un o Gyrrff y Llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli coedwigoedd cyhoeddus Prydain. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n tynnu gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghyd, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru.     |
| <b>FIR</b>                      | Adroddiad Archwilio Llifogydd.  |
| <b>FWMA</b>                     | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 – Deddf Seneddol sy'n diweddarau a diwygio deddfwriaeth er mwyn rhoi sylw i fygythiad llifogydd a phrinder dŵr, gyda disgwyl i'r ddau ohonynt gynyddu gyda  |

| Term                                   | Ystyr / Diffiniad  |
|--|--|
|  | newid yn yr hinsawdd.  |
| <b>Goferiad Dŵr Arwyneb</b>            | Mae hyn yn digwydd pan fydd glaw'n disgyn yn gyflymach nag y gall y dŵr dreiddio i'r tir neu bridd gan lifo dros y tir.  |
| <b>Gorlifo Afonydd</b>                 | Mae'n digwydd pan fydd lefelau dŵr mewn sianel yn trechu gallu'r sianel i gludo'r dŵr.   |
| <b>Grŵp Llifogydd Cymru</b>            | Is-grŵp o un o Fforymau Cymru Gydnerth.  |
| <b>Gwaddodiad</b>                      | Proses gosod gwaddod ar wely'r môr, traethlin, gwely afon neu orlifdir.  |
| <b>Gwasgfa Arfordirol</b>              | Pan fo adeileddau peirianyddol yn gwarchod yr arfordir, mae'r cynnydd yn lefel y môr yn peri bod y proffil rhynglanwol yn mynd yn serthach, sy'n cael ei alw'n wasgfa arfordirol.  |
| <b>Gwydnwch</b>                        | Gallu cymuned, gwasanaethau, ardal neu isadeiledd i osgoi llifogydd, colled i erydiad neu wrthsefyll canlyniadau llifogydd neu erydiad os byddant yn digwydd.  |
| <b>LDC</b>                             | Caniatâd Draenio Tir.  |
| <b>LF RMS</b>                          | Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd – Yn ofynnol mewn cysylltiad â Chymru dan Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae disgwyl i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol baratoi Strategaethau Perygl Llifogydd Lleol sy'n gorfod nodi sut fyddant yn rheoli peryglon llifogydd lleol yn eu hardaloedd. |
| <b>LLFA</b>                            | Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol – y Cyngor Sir neu Cyngor y Fwrdeistref Sirol ar gyfer y cylch (Awdurdod Lleol).  |
| <b>LRF</b>                             | Fforwm Lleol Cymru Gydnerth – Grŵp gofynnol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 sy'n gyfrifol am gydgyssylltu cynllunio at argyfwng mewn cylchoedd lleol.  |
| <b>LIC</b>                             | Llywodraeth Cymru.   |
| <b>Llif</b>                            | Unrhyw achos pan fydd tir nad yw fel arfer dan ddŵr yn cael ei orchuddio gan ddŵr.   |
| <b>Llifogydd Afonol</b>                | Llifogydd o afonydd gan gynnwys cyrsiau dŵr cyffredin a phrif afonydd.   |
| <b>Llifogydd Arfordirol</b>            | Mae'n digwydd pan fydd amddiffynfeydd arfordirol yn methu cynnwys y penllanw disgwylidiedig arferol sy'n gallu achosi llifogydd, efallai pan fo penllanw'n cyfuno ag ymchwydd storm (sy'n cael ei greu gan wynt cryf neu wasgedd atmosfferig isel iawn).   |
| <b>Llifogydd Dŵr Arwyneb</b>           | Yn y cyd-destun trefol, mae fel arfer yn golygu bod cyfraddau goferiad dŵr arwyneb yn fwy na gallu cyfundrefnau draenio i'w symud. Yn y cyd-destun gwledig, mae'n golygu pan fo goferiad dŵr arwyneb yn gorlifo rhywbeth neu rywun.  |
| <b>Llifogydd Dŵr Codi</b>              | Byddant yn digwydd pan fydd lefel y dŵr yn y tir yn codi uwchlaw'r arwyneb naturiol. Mae ardaloedd isel dros haenau hydraidd yn arbennig agored.   |
| <b>Mesurau Rheoli Perygl Llifogydd</b> | Sut mae peryglon llifogydd i gael eu rheoli.   |
| <b>Newid yn yr Hinsawdd</b>            | Y newid yn amgylchiadau'r awyrgylch ger wyneb y Ddaear dros gyfnod maith ar gyfartaledd.   |

| Term                             | Ystyr / Diffiniad   |
|----------------------------------|---|
| NMWTRA                           | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru – sy'n gyfrifol am gynnal y cefnffyrdd yn Sir Ddinbych.   |
| NWRF                             | Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd – ffurfiwyd o reolwyr strategol pob un o'r ymatebwyr Categori 1 (yr Awdurdod Lleol, y Gwasanaethau Brys a Byrddau Iechyd Lleol) i sicrhau bod parodrwydd priodol sy'n galluogi ymateb amlasiantaethol effeithiol i argyfwng.  |
| Perygl Erydu Arfordirol          | Mesurau o arwyddocâd posibilrwydd erydu arfordirol o ran tebygolrwydd ac effaith.   |
| Perygl Gweddilliol               | Y perygl sy'n aros ar ôl cymryd camau rheoli peryglon.  |
| Perygl Llifogydd                 | Cynnrych tebygolrwydd y bydd llifogydd yn digwydd a'r canlyniadau pan fydd llifogydd yn digwydd.  |
| Perygl Llifogydd Lleol           | Yn ôl diffiniad Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 mae'n cynnwys dŵr ffo, dŵr codi a chyrtsiau dŵr cyffredin.  |
| PFRA                             | Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol.   |
| Prif Afon                        | Cwrs dŵr sy'n cael ei ddangos fel y cyfryw ar y Map Prif Afonydd, ac sy'n dod dan gyfrifoldebau a phwerau Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru.   |
| RMA                              | Awdurdod Rheoli Perygl – Diffiniwyd awdurdod rheoli perygl yng Nghymru yn Adran 6 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fel Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn), Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, cyngor dosbarth mewn ardal heb unrhyw awdurdod unedol ar ei chyfer, IDB ar gyfer dosbarth draenio mewnol sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru a chwmni dŵr sy'n arfer swyddogaethau mewn cysylltiad ag ardal yng Nghymru. |
| Rheoli Perygl                    | Unrhyw beth sy'n cael ei wneud at ddiben dadansoddi, asesu a lleihau perygl.  |
| Rheoli Perygl Erydu Arfordirol   | Unrhyw beth sy'n cael ei wneud at ddiben dadansoddi, asesu a lleihau perygl gwisgo morlin.  |
| Rheoli Perygl Llifogydd          | Gweithgaredd deall tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd, a cheisio newid y ffactorau hyn i leihau perygl llifogydd i bobl, eiddo a'r amgylchedd. Dylai hyn ystyried gofynion, cyfleoedd a chyfyngiadau eraill o ran yr amgylchedd a rheoli lefel dŵr.  |
| Rheoli Perygl Llifogydd Cymru    | Pwyllgor Rhanbarthol Llifogydd ac Arfordirol (RFCC) Cymru.  |
| Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 | Rheoliadau sy'n trosi Cyfarwydddeb Llifogydd y Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwydddeb 2007/60/EC ar asesu a rheoli peryglon llifogydd) yn gyfraith gartref a gweithredu ei darpariaethau.  |
| SDC                              | Systemau Draenio Cynaliadwy – Dull o reoli dŵr arwyneb sy'n helpu delio ag eithafion dŵr trwy ddynewared prosesau a phatrymau draenio naturiol.   |
| SFRA                             | Asesiad Strategol o Berygl Llifogydd.   |



## Rhagair

Mae'n dda gennyf gyflwyno Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Tynnodd y llifogydd a welwyd yn Sir Ddinbych ym mis Tachwedd 2012 sylw at yr angen i baratoi ar gyfer a rheoli perygl llifogydd. Mae'r rhagolygon o lifogydd amlach a dwysach o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn tanlinellu eto'r angen i nodi a thynhau cyfrifoldebau.

Dyma'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd gyntaf yn y Sir ers i ni, Cyngor Sir Ddinbych, gael dyletswyddau a phwerau newydd dros reoli perygl llifogydd dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Bydd y strategaeth yn pennu sut fyddwn ni, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gweithio gyda'n cymunedau mewn perygl ac ochr yn ochr ag awdurdodau rheoli peryglon eraill i leihau perygl llifogydd.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu amcanion y Cyngor ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol ac mae'n disgrifio'r mesurau sydd angen i ni eu cymryd yn ystod y blynyddoedd a ddaw i greu agwedd well a mwy cynaliadwy sy'n gweithio gyda natur. Edrychwn ymlaen at ddefnyddio'r strategaeth i helpu i ni dargedu ein hymdrechion, gwneud defnydd llawn o'n hadnoddau'n fwy effeithlon a lleihau perygl llifogydd i drigolion Sir Ddinbych.



Y Cynghorydd David Smith



# Crynodeb Gweithredol

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA), mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) baratoi Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Diben y Strategaeth Leol yw rhoi sylw i berygl llifogydd all ddeillio o ffynonellau lleol o fewn terfynau tiriogaeth yr Awdurdod. Rhan bwysig o'r Strategaeth Leol fydd sicrhau bod ein cymunedau'n ymwybodol o ba beryglon sy'n bodoli, yn ymwybodol o beth yw cyfrifoldebau'r Cyngor ac Awdurdodau Rheoli Peryglon eraill o ran perygl llifogydd a'r hyn y gall cymunedau wneud i fod yn rhan o'r broses eu hunain.

Bydd y Strategaeth Leol yn ategu a chefnogi'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n amlinellu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd gan anelu at gydbwysu anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd. *Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (Cymru)* yn pennu'r amcanion canlynol:

1. **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
2. **Tynnu sylw** pobl at berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cael i gyfranogi yn yr ymateb iddo;
3. **Ymateb yn effeithiol a chyson** i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol; a
4. **Blaenoriaethu buddsoddiad** mewn cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

Nod y Strategaeth Leol yw tynnu ynghyd polisïau a chymau gweithredu presennol yr Awdurdod sydd â goblygiadau o ran rheoli perygl llifogydd. Mae hefyd yn disgrifio unrhyw gamau gweithredu neu bolisïau newydd a gyflwynwyd o ganlyniad i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 a hefyd unrhyw gamau gweithredu neu bolisïau arfaethedig i'w cyflwyno er mwyn rheoli mwy ar berygl llifogydd.

Rhaid i'r LLFA bennu amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac awgrymu mesurau fydd yn cyflawni'r amcanion hynny. Rhaid i'r Strategaeth Leol ddangos sut a phryd mae unrhyw fesurau i gael eu cyflwyno a sut fyddant yn cael eu hariannu. Efallai nad yw gweithredu a chyllido rhai o'r camau arfaethedig yn eglur ar yr adeg hon, oherwydd eu bod yn berthnasol i adrannau o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 na weithredwyd eto.

Mae cyfrifoldeb ar y LLFA i ystyried y swyddogaethau rheoli perygl llifogydd y gall eu harfer i leihau effaith a pherygl llifogydd. I ategu nod lleihau perygl llifogydd yn gyffredinol ar hyd a lled yr ardal, bydd y LLFA yn blaenoriaethu ymchwiliadau a gwaith sy'n cael eu nodi yn y strategaeth hon hyd eithaf ei alluoedd, ar sail perygl a welwyd ac a dystiwyd, gydag adnoddau cyfyngedig.

O ystyried y pwysau presennol ar arian cyhoeddus, mae'r arian ar gael i roi sylw i berygl llifogydd yn annhebygol o fod yn ddigonol ac ni fydd pwysau ond yn cynyddu gyda mwy a mwy o berygl yn y dyfodol yn sgil datblygiad pellach a hinsawdd sy'n newid. Fel y cyfryw, bydd angen i reoli perygl llifogydd gael ei ategu gan weld pawb yn cydweithio, a'r rhai sydd mewn perygl llifogydd yn cymryd cyfrifoldeb i amddiffyn a helpu eu hunain.

# 1. Cyflwyniad

Mae rhyw 220,000 eiddo yng Nghymru, neu tuag un o bob chwe adeilad, mewn perygl llifogydd, gyda 64,000 ohonynt mewn perygl sylweddol. Mae 97,000 o'r rhain hefyd yn agored i lifogydd dŵr arwyneb gyda 137,000 eiddo arall yn agored i lifogydd dŵr arwyneb yn unig.

*Llifogydd yng Nghymru – Asesiad Cenedlaethol o Berygl Llifogydd  
Cyfoeth Naturiol Cymru*

## 1.1 Cyflwyniad

Oherwydd y cynnydd yn amllder a difrifoldeb llifogydd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys haf 2007, ysgogwyd y llywodraeth i gomisiynu ymchwiliad i'r llifogydd, yn dwyn yr enw Adolygiad Pitt<sup>1</sup>. Ynddo roedd crynodeb o fethiannau rheoli llifogydd hanesyddol, gan greu casgliad helaeth o argymhellion a droswyd i ffurfio Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<sup>2</sup> (FWMA). Creodd FWMA gyfrifoldeb bod Cyngorau Sir ac Unedol yn gweithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) oedd yn golygu bod gofyn iddynt roi arweiniad ar gydgyssylltu a rheoli perygl llifogydd lleol.

Dynodwyd Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn LLFA yng Nghymru ac mae gofyn iddo, dan Adran 10 o FWMA, ddatblygu, cynnal, cymhwysu ac arolygu Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd (LFRMS) yn ei diriogaeth. Diben y LFRMS yw rhoi sylw i berygl llifogydd all ddeillio o ffynonellau lleol o fewn ffiniau tiriogaeth yr Awdurdod Lleol. Diffiniad perygl llifogydd lleol yw unrhyw berygl llifogydd sy'n deillio o ddŵr ffo, dŵr codi a chysiau dŵr cyffredin. Diffiniad cwrs dŵr cyffredin (yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991) yw unrhyw gwrs dŵr, gan gynnwys llynoedd a phyllau, na ddosbarthwyd fel prif afon.

## 1.2 Gwersi a ddysgwyd o Lifogydd Tachwedd 2012

Roedd y llifogydd sylweddol a helaeth ar hyd a lled Sir Ddinbych ar ddiwedd Tachwedd 2012 yn gryn broc i'r cof o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor wrth reoli perygl llifogydd drwy'r Sir gyfan. Yn arbennig, dysgodd i ni na allwn, fel cymdeithas, fforddio dod yn hunanfodlon yn ein hagwedd at berygl llifogydd, yn enwedig yng ngoleuni'r cynnydd disgwylidig yn amllder a maint llifogydd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Yn arbennig, mae llifogydd 2012 wedi dysgu i ni bwysigrwydd bod â chynlluniau sy'n paratoi ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt, yn ogystal â phwysigrwydd cydweithio ag awdurdodau rheoli perygl llifogydd eraill.

## 1.3 Strwythur y Strategaeth Leol

Mae'r strategaeth hon ar reoli perygl llifogydd yn dechrau pennod newydd o Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yn Sir Ddinbych. Mae'n tynnu sylw at y camau sydd i'w cymryd tuag at wella gwybodaeth am berygl llifogydd yn y sir, gweithio'n well gyda sefydliadau a'r cyhoedd tuag at leihau'r peryglon hynny ar yr un pryd â cheisio cydbwysu anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

Mae dogfen y strategaeth yn dechrau gyda gwybodaeth am y ddeddfwriaeth sy'n sail i weithgareddau FCERM, natur peryglon llifogydd yn Sir Ddinbych a pha wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i gynorthwyo creu gwell darlun o beryglon llifogydd lleol. Yna mae'n enwi'r awdurdodau a sefydliadau dan sylw a pha ran fydd gan bob un ohonynt wrth gynorthwyo lleihau perygl llifogydd yn Sir Ddinbych. Bydd yr

<sup>1</sup> Adolygiad Pitt; Dysgu Gwersi o Lifogydd 2007 – Adroddiad Llawn

<sup>2</sup> Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr: Llywodraeth Ei Mawrhydi (EM) (2010)

adran nesaf yn disgrifio'r amcanion strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd a'r mesurau y gellid eu gweithredu i'w cyflawni. Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yn ategu hyn er mwyn edrych yn fanylach ar yr hyn mae CSDd eisiau ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno a sut gaiff hynny ei wneud.

### **1.4 Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n deillio o'r strategaeth hon yn cael eu nodi, eu hasesu, eu lliniaru, eu cyfleu i wneuthurwyr penderfyniadau a'u harolygu a bod y cyhoedd wedi cael cyfle i gyfranogi.

Offeryn cyffredinol yw AAS a gyflwynwyd gan Gyfarwyddeb 2001/42/EC yr Undeb Ewropeaidd. Amcan y Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol yw "darparu ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd i safon uchel a chyfrannu at gynnwys ystyriaethau amgylcheddol wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg ar hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Erthygl 1)".

Mae hyn yn gofyn asesiad amgylcheddol strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gynlluniau a strategaethau arbennig sy'n cael eu hyrwyddo ganddynt, fel y strategaeth hon. Bydd effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r strategaeth yn cael eu harolygu er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol – Erthygl 10.1, i sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol annisgwyl y strategaeth leol yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw.

Gwnaed yr AAS ar gyfer y strategaeth hon wrth i'r ddogfen ddatblygu a hynny yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth. Ymgynghorwyd ag Ymgynghoreion Statudol (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru [Cyfoeth Naturiol Cymru erbyn hyn] a Cadw) a chafodd y cyhoedd gyfle i roi sylwadau. Ymgorfforwyd y sylwadau hyn yn yr Adroddiad Amgylcheddol terfynol.

### **1.5 Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd**

Dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol ac Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt (hefyd yn cael ei galw'n 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd'), a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012 a ddilynodd, mae angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) lle gall cynllun beri effeithiau sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd, sy'n cael eu galw'n safleoedd Natura 2000.

Safleoedd Natura 2000 yw Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a safleoedd Ramsar ac maent hefyd yn cynnwys AGA all fod (AGAp) ac ACA ymgeisiol (ACAy). O fewn ac o gwmpas y sir mae sawl AGA ac ACA ac, felly, cynhaliwyd 'Prawf Arwyddocâd Tebygol' (Sgrinio) Cyfnod 1 ARhC i benderfynu a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar safleoedd Natura 2000 yn deillio o'r LFRMS. Cynhyrchwyd Adroddiad Sgrinio a bydd ymgynghoriad arno gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Daeth y sgrinio i gasgliad na fydd angen 'Asesiad Priodol' Cyfnod 2.

## 2. Y Cyd-destun Deddfwriaethol

### 2.1 Hanes Rheoli Perygl Llifogydd

Mae'r cyfrifoldeb dros reoli perygl llifogydd wedi newid yn sylweddol yn ystod y 30 mlynedd diwethaf. Cyn 1989, deg Awdurdod Dŵr Rhanbarthol (RWA) oedd yn rheoleiddio materion amgylcheddol cenedlaethol (gan gynnwys rheoli perygl llifogydd, draenio ac ansawdd dŵr). Roedd Awdurdod Cenedlaethol Datblygu Dŵr Cymru (a ddaeth i fodolaeth yn rhinwedd Deddf Dŵr 1973) yn cwmpasu'r ardal sy'n ffurfio tiriogeth CSDd erbyn hyn. Yn 1989 sefydlwyd yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol, corff cenedlaethol a gymrodd swyddogaethau a chyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd, draenio ac ansawdd dŵr yng Nghymru a Lloegr. Preifateiddiwyd swyddogaethau Cyflenwi Dŵr a Charthffosiaeth yr Awdurdodau Dŵr gan Ddeddf Dŵr 1989 gyda Dŵr Cymru (DCWW) yn dod yn CCC (ers 2001 perchennog Dŵr Cymru yw Glas Cymru, cwmni cyfyngedig 'dielw' trwy warant).

Ym mis Rhagfyr 1991, deddfwyd amryw ddarnau o ddeddfwriaeth gyda'r amcan o gydgrynhoi deddfwriaeth ddŵr ar y pryd. Yn fwyaf perthnasol o ran rheoli perygl llifogydd oedd Deddf Draenio Tir, oedd yn amlinellu'r dyletswyddau a phwerau nifer o gyrrff ar gyfer rheoli draenio tir, gan gynnwys byrddau draenio mewnol ac Awdurdodau Lleol; a Deddf Adnoddau Dŵr, oedd yn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol. Deddfwyd Deddf Cwmnïau Dŵr Statudol a Deddf Crynhoi Dŵr (Darpariaethau Canlyniadol) ar yr un pryd hefyd.

Sefydlwyd Asiantaeth yr Amgylchedd<sup>3</sup> (EA) gan Ddeddf yr Amgylchedd yn 1995. Daeth EA i fodolaeth ar 1<sup>af</sup> Ebrill 1996 a chymrodd swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol a hefyd y cyfrifoldeb dros gyhoeddi rhybuddion rhag llifogydd, swyddogaeth yr heddlu cyn hynny. Rhannwyd rheoli a gweithredu Asiantaeth yr Amgylchedd yn nifer o ranbarthau ar hyd a lled y wlad; mae Sir Ddinbych yn dod o fewn rhanbarth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Yng Nghymru a Lloegr, cyflymwyd newidiadau polisi rheoli perygl llifogydd yn ddiweddar gan lifogydd sylweddol yn 1998 a 2000, a arweiniodd at ryddhau Canllawiau Polisi Cynllunio 25 (PPG25): Datblygu a Pherygl Llifogydd yn Lloegr yn ystod 2001. Cyhoeddwyd Nodyn Cyngor Technegol 15 (TAN15), sef PPG25 yng Nghymru, yn 2004 gyda'r nod o gyfeirio datblygiad draw o ardaloedd lle mae cryn berygl llifogydd gan ofyn cyfiawnhad ac asesiad o'r canlyniadau os nad oes modd cyflawni hyn. Mae TAN15 hefyd yn hybu gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn unrhyw ddatblygiad lle byddant yn effeithiol.

Yn Lloegr, disodlwyd PPG25 yn 2006 gan Ddatganiad Polisi Cynllunio 25 (PPS25) sy'n cyfnerthu'r gofyniad i reoli dŵr arwyneb yn gynaliadwy mewn datblygiadau newydd. Bellach disodlwyd hyn gan y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) sy'n ceisio rhesymoli deddfwriaeth gynllunio a dod â'r cyfan ynghyd mewn un ddogfen gydlynol. Mae Swyddfa Cymru<sup>4</sup> wedi croesawu'r newidiadau i'r canllawiau cynllunio yn Lloegr ac mae'n annog Llywodraeth Cymru i geisio mabwysiadu'r mesurau hyn.

Yn fwy diweddar, ar 1<sup>af</sup> Ebrill 2013, sefydlwyd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i greu un corff amgylcheddol dros Gymru gan gymryd swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW), Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Mae'r corff newydd hwn wedi mabwysiadu holl gyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd mewn cysylltiad â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

<sup>3</sup> Corff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol sy'n atebol i Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac, yng Nghymru, un o Gyrrff Noddedig Llywodraeth Cymru sy'n atebol i'r Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

<sup>4</sup> Mae Swyddfa Cymru'n cynorthwyo Ysgrifennydd Gwladol Cymru

### 2.2 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Yn dilyn y cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2010 daeth Mesur Llifogydd a Rheoli Dŵr yn Ddeddf Seneddol. Mae'r Ddeddf yn atgyfnerthu'r angen i reoli llifogydd mewn ffordd gyfannol a chynaliadwy ac mae'n gosod nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd ar gynghorau fel Sir Ddinbych, a ddynodwyd yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol dan FWMA. Mae hyn yn ymestyn cyfrifoldebau blaenorol y Cyngor dros reoli perygl llifogydd a pharatoi'r LFRMS hwn yw dim ond un o'r dyletswyddau hynny a bennwyd dan y darn hwn o ddeddfwriaeth.

Mae dau yrrwr allweddol wrth wraidd y ddeddfwriaeth newydd; un yw'r adolygiad o lifogydd haf 2007 gan Syr Michael Pitt, sy'n cael ei grybwyll amlaf fel Adolygiad Pitt. Y gyrrwr allweddol arall wrth wraidd y Ddeddf yw Cyfarwydddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd a droswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009. Caiff y ddau ohonynt eu crynhoi yn yr adrannau canlynol:

### 2.3 Adolygiad Pitt

Cynhaliodd Syr Michael Pitt adolygiad annibynnol o arferion FCERM cenedlaethol ar ôl y llifogydd helaeth a thrychinebus yn ystod haf 2007, pryd yr effeithiwyd ar fwy na 55,000 o aelwydydd ac y talwyd dros £4 biliwn<sup>5</sup> o iawndal. Cyhoeddwyd Adolygiad Pitt ym mis Mehefin 2008 gan alw am newidiadau taer a sylfaenol i sut oedd perygl llifogydd yn cael ei reoli. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 92 o argymhellion i'r Llywodraeth, Awdurdodau Lleol, Fforymau Cydnerth Lleol a rhanddeiliaid eraill a seiliwyd ar y cysyniad bod Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan bwysig wrth reoli perygl llifogydd lleol, trwy gydgyssylltu'r holl awdurdodau perthnasol. Deddfwyd llawer o argymhellion Adolygiad Pitt trwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

### 2.4 Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009

Daeth Rheoliadau Perygl Llifogydd (PFRA) i rym ym mis Rhagfyr 2009 ac mae'n trosi Cyfarwydddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd i gyfraith Cymru a Lloegr. Mae Rheoliadau Perygl Llifogydd yn gofyn gwneud tri phrif ddarn o waith:

**Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA)** – Mae hyn yn golygu casglu gwybodaeth am lifogydd y gorffennol a'r dyfodol oherwydd dŵr arwyneb, dŵr codi a chyrsiau dŵr cyffredin, casglu'r wybodaeth mewn adroddiad PFRA a nodi Ardaloedd Arwyddol lle mae Perygl Llifogydd<sup>6</sup>. Ni nodwyd 'Ardal Arwyddol lle mae Perygl Llifogydd' yn Sir Ddinbych. Cwblhawyd y PFRA ar gyfer Sir Ddinbych ac mae i'w gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a gwefan Cyngor Sir Ddinbych.

**Mapiau Perygl Oherwydd Llifogydd a Perygl Llifogydd** – Mae gofyn i unrhyw awdurdodau sy'n nodi Ardal Arwyddol lle mae Perygl Llifogydd gynhyrchu mapiau perygl oherwydd llifogydd a lle mae perygl llifogydd ar gyfer yr ardaloedd hyn erbyn 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 2013.

**Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd** – Y cyfnod terfynol yw bod awdurdodau gydag Ardal Arwyddol lle mae Perygl Llifogydd yn cynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer yr ardaloedd hynny erbyn 22<sup>ain</sup> Rhagfyr 2015.

<sup>5</sup> Costau llifogydd haf 2007 yn Lloegr – Asiantaeth yr Amgylchedd (Prosiect: SC070039/R1) Cyhoeddwyd Ionawr 2010

<sup>6</sup> Diffiniwyd Ardal lle mae Perygl Llifogydd yn yr adroddiad fel poblogaeth dan sylw o fwy na 5,000 mewn perygl, ar sail y diffiniad yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru / DEFRA 'Dewis ac Adolygu Ardaloedd lle mae Perygl Llifogydd ar gyfer ffynonellau llifogydd lleol – Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol'.



## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Ni nododd y PFRA unrhyw 'Ardal Arwyddol lle mae Perygl Llifogydd' yn Sir Ddinbych. Diffiniwyd Ardaloedd lle mae Perygl Llifogydd a nodwyd yn y PFRA yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru fel poblogaeth dan sylw o fwy na 5,000 mewn perygl. Fel y cyfryw nid yw'n ofynnol i CSDd dan FRR lunio'r mapiau perygl oherwydd llifogydd a mapiau perygl llifogydd a chynlluniau rheoli perygl llifogydd.

Mae'r darnau hyn o waith i gael eu hadolygu ar gyloch chwe blynedd a bydd CSDd yn adolygu'r PFRA erbyn 2017. Os bydd yr adolygiad hwn yn nodi Ardal lle mae Perygl Llifogydd, bydd angen cwblhau mapiau perygl oherwydd llifogydd a pherygl llifogydd a chynlluniau rheoli perygl llifogydd yn ystod y cylch hwn. Y bwriad yw y dylai adolygiad o'r Strategaeth Leol ddigwydd yn 2017, yn dilyn adolygu'r Strategaeth Genedlaethol yn 2016 ac i gyd-ddigwydd ag adolygu'r PFRA.

### 2.5 Y Strategaeth Genedlaethol ar Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn bod Llywodraeth Cymru'n datblygu, cynnal, cymhwyso ac arolygu Strategaeth Genedlaethol ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae i'w gweld yn y man canlynol:

<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/111114floodingstrategyen.pdf>

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn pennu pedwar amcan trosfwaol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, sef:

- Lleihau canlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- Tynnu sylw at berygl llifogydd ac erydu arfordirol a chael pobl i ymwneud â'r ymateb iddynt;
- Ymateb yn effeithiol a chyson i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol; a
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

Cyfrifoldeb pawb sy'n teimlo effaith neu'n ymwneud â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol fydd gweithredu'r amcanion hyn, o Lywodraeth Cymru i Awdurdodau Rheoli Peryglon Cymru a phobl Cymru eu hunain.

Mae FWMA yn datgan bod Strategaethau Lleol yn gorfod cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cymru. Mae cyd-fynd yn sicrhau bod nodau ac amcanion strategol y Strategaeth Genedlaethol yn cael eu trosi'n amcanion ystyrion yn eu hardal benodol eu hunain.

Mae gan Lywodraeth Cymru amrywiaeth eang o fesurau gyda'r bwriad o gyflawni eu hamcanion. Neilltuyd y mesurau canlynol i LLFA i arwain cyflawni'r canlynol:

- Datblygu Strategaethau Lleol Rheoli Perygl Llifogydd;
- Gweithredu cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai sy'n cael eu pennu yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009;
- Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio cynaliadwy gan Gorff Cymeradwyo a Mabwysiadu SDC;
- Datblygu cofrestr adeileddau neu nodweddion naturiol a gwneud sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd;

- Sefydlu rhaglen o gynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (o ran asedau ym meddiant y LLFA);
- Dynodi adeileddau neu nodweddion naturiol a gwneud sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd neu erydiad arfordirol yn ystod oes y Strategaeth;
- Rhaglen o weithgareddau ymwybyddiaeth a chyfranogiad cymunedol, gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Cynnwys Cymunedau mewn Rheoli Perygl Llifogydd (ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru);
- Nodi grwpiau sydd mewn perygl o fewn cymunedau, gan gynnwys unigolion agored i niwed;
- Datblygu trefnau effeithiol ar gyfer clirio malurion (yn dilyn llifogydd);
- Datblygu amserlenni trwsio gan gynnwys darparu ar gyfer gosod mesurau cydnerth; ac
- Ymchwiliadau i achosion llifogydd i'w cynnal cyn pen mis lle bo angen.

Mae mesurau ychwanegol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gweithredu fel awdurdodau cynllunio lleol ac fel ymatebwr Categori 1 dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

### **2.6 Deddfwriaeth Arall**

Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth arall yn effeithio ar Rheoli Perygl Llifogydd, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008;
- Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004;
- Cyfarwyddeb Asesu Amgylcheddol Strategol (AAS) 2001;
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012;
- Deddf Draenio Tir 1991;
- Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2007;
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981;
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;
- Deddf Amddiffyn y Glannau 1949;
- Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006;
- Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936; a
- Deddf Priffyrdd 1980.



## 3. Perygl Llifogydd yn Sir Ddinbych

### 1.1 Cyflwyniad

Mae Cyfarwydddeb Llifogydd yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn diffinio llif fel gorchudd o ddŵr dros dir nad yw dan ddŵr fel arfer. Gall ddeillio o nifer o ffynonellau, gan gynnwys afonydd, y môr, cyrsiau dŵr bach lleol, systemau draenio dan ddaear a goferiad dŵr arwyneb uniongyrchol. Mae deall ffynonellau a rhesymau dros lifogydd yn sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn gallu gweithredu i reoli a lleihau perygl llifogydd. Perygl llifogydd yw cynnyrch tebygolrwydd neu gyfle y bydd llifogydd yn digwydd a'r canlyniadau neu effeithiau pan fydd llifogydd yn digwydd.

Mae modd mynegi'r tebygolrwydd (neu gyfle) y bydd llifogydd yn digwydd yn unrhyw flwyddyn fel tebygolrwydd neu gyfle blyneddol. Er enghraifft:

- 1% o debygolrwydd blyneddol o lifogydd; neu
- Cyfle o 1 mewn 100 o lifogydd mewn man arbennig yn unrhyw flwyddyn.

Fe all canlyniadau llifogydd gael effeithiau difrifol nid yn unig ar bobl ac eiddo, ond hefyd ar wasanaethau hanfodol, isadeiledd a'r amgylchedd.

### 1.2 Perygl Llifogydd Lleol

Mae Sir Ddinbych wedi dioddef llifogydd helaeth yn y gorffennol. Ymhlith digwyddiadau nodedig diweddar oedd llifogydd helaeth ar hyd a lled y sir yn Hydref a Thachwedd 2000 ac yn hwyr yn Nhachwedd 2012.

At ddiben y strategaeth hon, diffiniad digwyddiad arwyddocaol yn lleol yw un lle mae 5 eiddo preswyl neu fwy dan ddŵr. Isod mae tabl yn dangos enghreifftiau o lifogydd sylweddol sydd wedi digwydd yn Sir Ddinbych yn ystod y blyneddau diwethaf. Dylid nodi nad yw'r rhestr (Tabl 3.1) yn un gynhwysfawr o'r holl lifogydd sydd wedi digwydd yn Sir Ddinbych.

Mae Sir Ddinbych yn agored i berygl cyfunol llifogydd afonol, llanwol ac arfordirol. Cyfrannodd problemau draenio trefol a dŵr arwyneb hefyd at hanes maith o lifogydd yn y sir.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cwmpasu ardal ddemograffig amrywiol, o drefi glan môr y Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd trwy ardaloedd gwledig sylweddol i drefi llai Dinbych, Rhuthun, Corwen a Llangollen.

Arwynebedd rhanbarth gweinyddol Cyngor Sir Ddinbych yw tuag 844 cilomedr sgwâr. Mae'r sir mewn dau ddosbarth basn afonydd, Dosbarth Basn Afon y Dyfrdwy a Dosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru gyda dau gwmni dŵr yn ei gwasanaethu, sef Dŵr Cymru a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

Yn ffinio â Sir Ddinbych mae Môr Iwerddon i'r gogledd, Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r dwyrain, Cyngor Sir Powys i'r de a Chyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r gorllewin.

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

| Blwyddyn y Llif | Yr Ardal a Effeithiwyd      | Math o Lif         | Canlyniad  |
|-----------------|-----------------------------|--------------------|--|
| 2012            | Llanelwy, Rhuddlan, Rhuthun | Prif Afon          | 550 eiddo preswyl dan ddŵr mewn mannau amrywiol ar hyd a lled y sir  |
| 2007            | Prestatyn                   | Dŵr arwyneb        | 13 eiddo preswyl dan ddŵr arwyneb mewn mannau amrywiol ym Mhrestatyn |
| 2000            | Y Ddiserth                  | Cwrs Dŵr Cyffredin | 5 eiddo preswyl dan ddŵr o Afon Ffyddion                             |
| 2000            | Llanelwy                    | Cwrs Dŵr Cyffredin | 7 eiddo preswyl dan ddŵr o Nant Glascoed                             |
| 2000            | Llanbedr Dyffryn Clwyd      | Cwrs Dŵr Cyffredin | 7 eiddo preswyl dan ddŵr o gwrs dŵr dienw                            |
| 2000            | Corwen                      | Cwrs Dŵr Cyffredin | 23 eiddo preswyl dan ddŵr o Afon Nant y Cawrddu                      |
| 2000            | Rhuthun                     | Prif Afon          | 20 eiddo preswyl, 6 eiddo busnes                                     |
| 1990            | Prestatyn                   | Arfordirol         | 108 eiddo preswyl  |

Tabl 3.1: Llifogydd sylweddol yn Sir Ddinbych yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Mae CSDd yn gyfrifol am 11.2 cilomedr o forlin a ffurfiwyd o: Harbwr y Foryd ac aber Afon Clwyd tua'r gorllewin; rhan ganol a ddatblygwyd yn llawn ac yn rhannol yn cynnwys cyrchfannau'r Rhyl a Phrestatyn gyda dim ond Cwrs Golf y Rhyl rhyngdynt; twyni tywod helaeth, cwrs golf a thir agored i'r dwyrain; tir amaethyddol isel a gwaith amddiffyn yr arfordir yn ymestyn o'r Foryd i Draeth Barkby.

Cyfanswm poblogaeth breswyl Sir Ddinbych yw tua 94,000 gydag amcangyfrif o boblogaeth dros 150,000 yn yr haf. Mae'r trefi mwyaf ar yr arfordir yn y Rhyl (tua 25,000) a Phrestatyn (tua 18,000). Draw o'r llain arfordirol, gwledig yn bennaf yw'r ardal, a threfi'r canoldir yn llawer llai, Dinbych gyda phoblogaeth o 8,500, Rhuthun 5,000, a Llangollen 3,300.

Mae mwyafrif y data llifogydd hanesyddol a gasglwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn berthnasol i lifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. Ymhlith y cymunedau yr effeithiwyd arnynt yn y gorfennol mae Rhuthun, Dinbych, Llangollen, Corwen, Gwyddelwern, Llanelwy, Y Ddiserth, Llanbedr Dyffryn Clwyd a Phwll Glas. Digwyddodd y llifogydd diweddar ym mis Tachwedd 2012 oherwydd cyfuniad o gyfnod maith o law trwm ar dir oedd eisoes yn ddirlawn yn nalgylchoedd afonydd Clwyd ac Elwy a arweiniodd at orlifo'r prif afonydd hyn yn ogystal â rhywfaint o lifogydd dŵr arwyneb a llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin.



Ffigur 3.2: Map o Sir Ddinbych yn dangos y Siroedd o'i chwmpas

## 1.3 Mathau o Llifogydd

Fe all llifogydd ddod o amrywiaeth eang o ffynonellau a rhyngweithiadau rhwng y ffynonellau hynny. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yn diffinio 'perygl llifogydd lleol' fel perygl llifogydd yn deillio o'r canlynol:

- Goferiad dŵr arwyneb;
- Dŵr codi;
- Cyrsiau dŵr cyffredin.

Caiff y ffynonellau hyn eu diffinio isod. Dylid nodi bod y ffynonellau hyn yn gallu bod yn gydberthynol mewn llawer achos ac y gall cyfuniad o ffynonellau achosi llifogydd, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu hystyried yn ffynonellau lleol, fel prif afonydd neu'r môr.

Er bod y strategaeth hon yn cyfeirio at reoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol, mae'r ddogfen hon yn ystyried nodau ac amcanion y *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol* yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2011. Fel y cyfryw, ac er cyflawnder, disgrifiwyd pob math o lifogydd all ddigwydd yn y sir ac sy'n dod dan y ddwy strategaeth (lleol a chenedlaethol) yn yr adrannau canlynol.

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

| Math o Llifogydd             | Disgrifiad   | Awdurdod Cyfrifol   |
|------------------------------|--|---|
| <b>Arfordirol</b>            | Mae llifogydd llanwol yn cynrychioli problem sylweddol yn Sir Ddinbych lle mae'r canlyniadau'n debygol o fod yn ddifrifol iawn, er yn anaml  | Cyfoeth Naturiol Cymru  |
| <b>Cronfeydd Dŵr</b>         | Fe all powndiau dŵr mawr gydag argloddiau beri perygl llifogydd  | Cyfoeth Naturiol Cymru  |
| <b>Prif Afonydd</b>          | Cyrsiau dŵr pennaf a chyrsiau dŵr strategol llai (hefyd yn dwyn yr enw llifogydd afonol)   | Cyfoeth Naturiol Cymru  |
| <b>Cyrsiau Dŵr Cyffredin</b> | Yn gyffredinol cyrsiau dŵr lleol, llai   | Cyngor Sir Ddinbych (LLFA)  |
| <b>Llifogydd Dŵr Codi</b>    | Fe all amgylchiadau daearegol beri bod dŵr arwyneb sydd wedi ymdreiddio i'r tir ddod allan mewn mannau arbennig, gan arwain at lifogydd  | Cyngor Sir Ddinbych (LLFA)  |
| <b>Llifogydd Dŵr Arwyneb</b> | Mae glaw trwm yn achosi i ddŵr arwyneb lifo dros y tir ac fe all hwnnw Gronni mewn ardaloedd isel gan beri llifogydd (hefyd yn dwyn yr enw llifogydd glawol)   | Cyngor Sir Ddinbych (LLFA)  |
| <b>Gorlifo Carthffosydd</b>  | Dim ond hyn a hyn o le sydd mewn systemau carthffosydd cyhoeddus ac, yn ystod glaw trwm, mae dŵr arwyneb sy'n mynd i garthffosydd dŵr arwyneb dynodedig, carthffosydd cyfunol (rhai sy'n derbyn dŵr budr ac arwyneb) a charthffosydd aflan dynodedig sy'n agored i dreiddiad dŵr arwyneb trwy gamgysylltiadau ac ati yn gallu achosi iddynt ddod yn orlawn a pheri llifogydd arwyneb | Welsh Water Dwr Cymru   |
| <b>Llifogydd Priffyrdd</b>   | Er bod systemau draenio ar briffyrdd, pan fydd glaw trwm fe all gorlenwi hydrolog neu rwystr arwain at Gronni neu drawsgludo dŵr sydd, yn ei dro, yn gallu effeithio ar eiddo, yn ogystal â gwneud ffyrdd yn anniogel  | Cyngor Sir Ddinbych (fel Asiantaeth Briffyrdd) Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NWMTRA) |

Tabl 3.2: Mathau o Llifogydd ac Awdurdodau Cyfrifol

### 1.3.1 Llifogydd Dŵr Arwyneb (glawol)

Caiff llifogydd dŵr arwyneb neu ddŵr ffo eu hachosi gan ddŵr sy'n llifo dros y tir yn dilyn cyfnodau hir o law neu law trwm, gan arwain at lifeiriant neu gronni dŵr. Fe all llifogydd dŵr arwyneb ddigwydd yn unrhyw fan gydag ychydig iawn o rybudd a gallant ddiffannu'r un mor gyflym. Mae ardaloedd sydd wedi dioddef y mathau hyn o lifogydd yn hanesyddol yn fwy tebygol o weld ailadrodd llifogydd yn y dyfodol yn ôl rhagamcaniadau newid yn yr hinsawdd.

Mae llifogydd dŵr arwyneb o natur gymhleth a gall nifer o ffactorau eu gwaethygu. Ymhlith y rhain mae: cyfraddau treiddio gwael pan fydd dŵr yn methu gollwng i'r tir (neu'n araf yn gwneud hynny) gan gynnwys ardaloedd o ddeunyddiau naturiol anhydraidd (er enghraifft priddoedd clai, creigiau difandwll) neu ddeunyddiau gwneud (lloriau caled, toeau); adeileddau a gynhaliwyd yn wael (cafnau a phibelli wedi'u rhwystro neu siltio) neu ddraeniau lleol heb ddigon o le ynddynt i ganiatáu arafu goferiad dŵr arwyneb yn ddigonol ar ôl cyfnodau o law trwm; a rhwystrau mewn cyrsiau dŵr yn arwain at eu trechu a gorlifo dros dir.

Gwnaed gwaith sylweddol gan CSDd i nodi perygl a thebygolrwydd llifogydd dŵr arwyneb. Fel rhan o'i gyfrifoldebau, cynhyrchodd y LLFA PFRA yn 2011 i nodi'r ardaloedd yn y sir sydd mewn perygl llifogydd.

Mae gwybodaeth am lifogydd dŵr arwyneb yn tueddu i fod yn llai dibynadwy nag ar gyfer achosion eraill, yn bennaf oherwydd y gall fod yn anodd penderfynu beth yw ffynhonnell y llifogydd. Yn arbennig, mae rhai darnau o'r Rhyl a Phrestatyn wedi dioddef llifogydd dŵr arwyneb.

Mae modelu perygl llifogydd yn Sir Ddinbych yn y dyfodol, gan ddefnyddio setiau data mapio cenedlaethol Cyfoeth Naturiol Cymru, yn amcangyfrif bod 5,140 eiddo mewn perygl llifogydd dŵr arwyneb i ddyfnder o 0.1m a 1,579 eiddo mewn perygl llifogydd i ddyfnder o 0.3m, gydag 89% ohonynt yn eiddo preswyl.

### 1.3.2 Llifogydd Dŵr Codi


Dŵr codi yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio dŵr sy'n cael ei gadw dan ddaear mewn creigiau hydraid. Caiff y rhain eu galw'n ddyfrhaenau a chânt eu porthi trwy fod gwlybanaeth oddi fry'n trylifo drwy'r tir ac mae hynny'n cynnwys yr holl ddŵr nad yw'n cael ei golli i oferiad dŵr arwyneb ac anwedd-drydarthu. Dŵr codi sy'n ffurfio sylfaen llifau gwaelodol afonydd a nentydd gyda dŵr ffo yn eu llenwi. Bydd llifogydd dŵr codi'n digwydd pan fo'r dŵr sy'n cael ei ddal dan ddaear yn codi uwchlaw'r lefelau hyn. Mae'n bwysig nodi nad yw'r term dŵr codi'n cynnwys unrhyw ddŵr sy'n cael ei gludo mewn pibelli claddedig neu sy'n cael ei ddal dan ddaear mewn cynwysyddion.

Yn aml mae'n gymhleth rhagweld llifogydd dŵr codi oherwydd bod lefelau dŵr daear yn dibynnu'n fawr ar y ddaear sylfaenol a ffurf tir y dalgylchoedd. Gall llifogydd dŵr codi ddigwydd ar ôl cyfnodau hir o law trwm (naill ai'n lleol neu yn nalgylch y ddyfrhaen) a gallant ddigwydd oriau lawer neu hyd yn oed ddyddiau ar ôl i'r bwrw orffen ac aros yno am gyfnodau hir. Ffactorau eraill sy'n gallu dylanwadu ar lefelau dŵr codi yw tynnu llai o ddŵr o'r ddaear neu newidiadau mewn llifau tanddaearol.

Yn Sir Ddinbych, mae'n anodd dros ben dosbarthu llifogydd sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i ddŵr codi oherwydd bod llifogydd dŵr codi fel arfer yn digwydd ar y cyd â llifogydd glawol ac afonol. Oherwydd bod llifogydd dŵr codi'n digwydd mewn ardaloedd isel, isloriau tai preswyl sy'n cael eu heffeithio gan y mathau hyn o lifogydd fel arfer.

Efallai nad yw trigolion hyd yn oed yn ymwybodol bod eu heiddo wedi bod dan ddŵr neu gallant fod yn ymwybodol bod llifogydd wedi digwydd o'r blaen (a pheidio â chadw nwyddau gwerthfawr dan eu tai) ac nid ydynt yn hysbysu digwyddiadau i'r Cyngor oherwydd na fu llawer o ddifrodi i eiddo personol. Fel y cyfryw, nid oes hanes cofnodedig o lifogydd dŵr codi sylweddol yn Sir Ddinbych.





Figur 3.3: Map Prif Afonydd Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru – Prif afonydd a pherygl llifogydd o afonydd a'r môr

### 1.3.3 Llifogydd Afonol

Bydd llifogydd afonol yn digwydd pan fydd afon neu gwrs dŵr cyffredin yn methu cludo mwy o ddŵr ac yn gorlifo dros y glannau. Gall nifer mawr o ffactorau ddylanwadu ar y mathau hyn o lifogydd ond, fel arfer, bydd yn digwydd ar ôl glaw hir a thrwm yn nalgyrch yr afon.

Dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, caiff prif afonydd eu diffinio ar y map prif afonydd (gwelwch Ffigur 6.1 ar dudalen 30) ac mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyfoeth Naturiol Cymru bwerau perthnasol iddynt. Mae llifogydd afonol o brif afonydd oddi allan i gwmpas y strategaeth hon, oherwydd nad yw ond yn delio â llifogydd o gyrsiau dŵr cyffredin. Fodd bynnag, gan fod y prif afonydd yn effeithio ar gyrsiau dŵr cyffredin, mae'r strategaeth yn ystyried materion llifogydd prif afonydd pan fo hynny'n briodol.

Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol neu, lle maent yn bodoli, Byrddau Draenio Mewnol yw goruchwylio rheoli perygl llifogydd lleol o gyrsiau dŵr cyffredin na ddynodwyd yn brif afonydd. O ran cyrsiau dŵr cyffredin mae'r LLFA yn rheoli perygl llifogydd lleol dan ei gyfrifoldebau fel y pennwyd yn Neddf Draenio Tir 1991<sup>7</sup> a FWMA. Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau'r partneriaid, sefydliadau a thirfeddianwyr sy'n rheoli'r gwahanol beryglon llifogydd yn cael eu manylu ymhellach yn yr adroddiad hwn.

<sup>7</sup> Deddf Draenio Tir 1991, atodlen 2 paragraff 29

Yn Sir Ddinbych mae perygl llifogydd afonol ar hyd prif gyrsiau dŵr Afon Clwyd, yn arbennig yn Rhuthun, Afon Elwy yn Llanelwy ac, yn ne'r sir, Afon Dyfrdwy sy'n effeithio ar Gorwen. Yn ogystal, mae perygl llifogydd cysylltiedig ag amryw gyrsiau dŵr llai ar hyd a lled y sir. Ymhlith cymunedau yr effeithiwyd arnynt yn y gorffennol mae Rhuthun, Dinbych, Llangollen, Corwen, Gwyddelwern, Llanelwy, Y Ddiserth, Llanbedr Dyffryn Clwyd a Phwll Glas.

### **1.3.4 Llifogydd Carthffosydd neu Briffyrdd**

Bydd llifogydd carthffosydd neu briffyrdd yn cael eu hachosi pan fydd mwy o ddŵr arwyneb nag y gall yr isadeiledd draenio ei gludo neu pan fo rhwystr. Yn gyffredinol mae'r mathau hyn o lifogydd yn digwydd ar ôl cyfnodau o law trwm gan arwain at drechu'r systemau draenio. Yn yr hydref fe all dail neu falurion eraill gau cafnau draenio a gwaethygu'r mathau hyn o lifogydd.

Dŵr Cymru (DCWW) a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy yw'r cwmnïau trin dŵr a charthion rhanbarthol yn Sir Ddinbych gyda'r cyfrifoldeb o reoli a chynnal systemau draenio (carthffosydd dŵr arwyneb a chyfunol) a pherygl llifogydd o bibelli wedi hollti. Mae Dŵr Cymru'n gyfrifol hefyd am lifogydd carthion. Mae gofyn i'r ddau gwmni gofnodi a hysbysu llifogydd eiddo yn eu hardaloedd rheoli, fel rhan o'u dangosyddion gwasanaeth yn dwyn yr enw Cofrestrir Cyfarwyddwr Cyffredinol (DG). Enw'r gofrestr sy'n cofnodi'r llifogydd yn y sir yw DG5, a chaiff ei rhoi i Awdurdod Rheoleiddio'r Gwasanaethau Dŵr, neu Ofwat.

Dengys cofnodion llifogydd sy'n cael eu darparu gan Ddŵr Cymru y bu cyfanswm o 282 o ddigwyddiadau carthffosydd yn gorlifo ar hyd a lled Sir Ddinbych ers 1999. Ar hyn o bryd mae llai na 10 eiddo yn Sir Ddinbych ar gofrestr DG5 Dŵr Cymru.

### **1.3.5 Llifogydd Cronfeydd Dŵr**

Bydd llifogydd sydd i'w priodoli i gronfeydd dŵr yn digwydd pan ddaw dŵr dros arglawdd cronfa ddŵr neu pan fo arglawdd yn methu oherwydd difrod neu gwmp yr adeiledd. Argymhellodd Adolygiad Pitt, a wnaed o ganlyniad i lifogydd 2007, y dylai'r Llywodraeth ddarparu mapiau llifogydd i nodi ardaloedd a allai deimlo effaith methiant neu drechu er mwyn caniatáu paratoi cynlluniau ar gyfer ymateb brys. Yn 2008 cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfarwyddyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) i asesu effaith llifogydd bylchu argaeau holl gyforgronfeydd dŵr mawr yng Nghymru a Lloegr a gofrestrwyd dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Mae Deddf Cronfeydd Dŵr yn dosbarthu cronfa ddŵr gofrestredig fel un sy'n gallu dal o leiaf 25,000 metr ciwbig o ddŵr uwchlaw lefel naturiol isaf y tir oddi amgylch. Yn fwy diweddar mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dosbarthu cyforadeiledd neu arwynebedd "mawr" os yw'n gallu dal 10,000 metr ciwbig o ddŵr uwchlaw lefel naturiol unrhyw ran o'r tir oddi amgylch.

Yn Sir Ddinbych, mae 6 o gronfeydd dŵr sy'n dod dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr ac fe fodelwyd maint mwyaf y llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru i ddangos yr ardaloedd a fyddai'n cael eu heffeithio gan fylchu neu fetu'r argloddiau. Nid oes unrhyw hanes o fethiant cronfa ddŵr yn Sir Ddinbych.

### **1.3.6 Llifogydd Arfordirol**

Bydd llifogydd o'r môr yn digwydd pan fydd lefel y dŵr neu'r tonnau'n torri dros gopa'r amddiffynfeydd arfordirol, neu pan fydd amddiffynfeydd yn cael eu bylchu neu'n cwmpo. Mae tebygolrwydd bylchu'n dibynnu ar bedwar prif ffactor: cyflwr y tywydd (yn cynhyrchu tonnau mawr); cyfeiriad y gwynt (tua'r lan); llanw uchel (yn enwedig yn ystod llanw mawr) a chyflwr yr amddiffynfeydd arfordirol. Pan fydd yr amgylchiadau hyn yn cyfuno gall perygl llifogydd fod yn llawer mwy oherwydd bod lefel y llanw disgwylidig yn gallu bod amryw fetrau'n uwch nag arfer.

Mae perygl llifogydd llanwol yn effeithio ar lawer o arfordir Sir Ddinbych gan gynnwys y Rhyl a Phrestatyn ac yn ymestyn hefyd i fyny aber Clwyd heibio Rhuddlan. Amddiffynnwyd yr arfordir rhag llanwau uchel ond mae perygl gweddilliol o drechu neu fylchu amddiffynfeydd yn aros. Mae hyn yn cynyddu'r angen i ddeall y llifogydd all ddod o'r môr yn Sir Ddinbych. Ar adeg ysgrifennu, mae'r Cyngor yn gwneud gwaith ar amddiffynfeydd yr arfordir yng Ngorllewin y Rhyl i ddarparu safon amddiffyniad unwaith mewn 200 mlynedd rhag llifogydd llanwol.

### 1.4 Llifogydd Camlesi

Anaml y bydd y cyrsiau dŵr gwneud hyn yn gorlifo oherwydd eu bod yn cynnwys lociau rheoli dŵr. Ar y rhan fwyaf o gamlesi mae llifddorau gorlifo'n gwagio i afonydd a nentydd bach. Dyluniwyd camlesi'n gyffredinol iddynt allu ymdopi â llifogydd; fodd bynnag fe all glaw trwm achosi llifogydd camlesi pan nad yw camlesi draenio'n gallu symud yr holl law sy'n disgyn.

Mae cangen Camlas Llangollen yn croesi ffin Sir Ddinbych yn y de-ddwyrain ger Trefor (gwelwch Ffigur 4.2 isod) ac mae'n ymestyn tua'r gorllewin am 6 milltir / 10 cilometr i'r man tynnu dŵr yn Rhaeadr y Bedol ger Llandysilio-yn-lâl. Rhed y gamlas ar hyd ochr ogleddol Dyffryn Llangollen.

Bu hanes o fylchu Camlas Llangollen rhwng 1945 a 1985. Yn ystod bylchu 1945 golchwyd darn o reilffordd ymaith gan arwain at farwolaeth gyrrwr trên.

Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael am berygl llifogydd o gamlesi yn y dyfodol. Fodd bynnag mae'r Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (Glandŵr Cymru), sy'n gyfrifol am gynnal camlesi yng Nghymru a Lloegr, yn gweithio ar hyn o bryd ar astudiaeth i ddeall yn well beth fydd perygl llifogydd o gamlesi yn y dyfodol, fydd ar gael erbyn ail gylch proses y PFRA.

### 1.5 Digwyddiad Cyfunol

Nid yw manylu ar ffynonellau perygl unigol yn awgrymu na all llifogydd ond digwydd am un rheswm. Fe all unrhyw un a phob un o'r ffynonellau a grybwyllwyd uchod ddod ynghyd i greu'r hyn sy'n cael ei alw'n ddigwyddiadau cyfunol.

Enghraifft o lif cyfunol yw un sy'n digwydd yn ystod cyfnod hir o law neu law trwm. Byddai'r glaw'n cynyddu lefel y dŵr mewn cyrsiau dŵr, yn trwytho'r tir, yn cynyddu'r llif drwy'r system ddraenio ac efallai'n mynd i mewn i'r carthffosydd cyhoeddus, gan gynyddu'r pwysau arnynt. Wrth i bob un o'r ffactorau hyn gyfuno, gallai cyrsiau dŵr, draeniau a charthffosydd i gyd fynd yn orlawn a, heb unman arall i fynd, gallai'r dŵr orlifo ohonynt i gyd, gan beri cyfuniad o lifogydd afonol, carthffosydd a dŵr arwyneb.

Ar yr arfordir, gallai digwyddiad cyfunol gynnwys llifogydd o'r môr pan fo storm yn dod â glaw trwm ar y tir ac ymchwydd storm a môr terfysglyd, ar yr un pryd â phenllanw. Canlyniad hyn yw cynnydd yn lefel y llanw a'r tonnau'n cyd-fynd â chynnydd yn y llif o afonydd i'r môr. Os yw'r ddau'n cyfarfod, gallai cymunedau arfordirol ddiodef cymysgedd o lifogydd o'r môr a'r afonydd.

Gan ddibynnu ar angerdd y glaw a'r tonnau, gallai digwyddiad o'r fath hefyd achosi cynnydd mewn erydu arfordirol, gan beri difrod hirdymor i'r arfordir, a allai waethygu peryglon llifogydd yn y dyfodol.

Pan fo rhyngweithiadau cymhleth o wahanol ffynonellau, bydd y LLFA yn arwain i sicrhau bod ymchwiliad, asesiad a mesurau lliniaru priodol yn cael eu gwneud<sup>8</sup>.


<sup>8</sup> Penodau 4.4 a 4.5; Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru



### 1.6 Gwasgfa Arfordirol

Diffiniwyd gwasgfa arfordirol yn nodyn esboniadol DEFRA (2003) ar adlinio rheoledig fel; y broses sy'n peri colli neu foddï cynefinoedd arfordirol a nodweddion naturiol yn raddol, wrth gael eu dal rhwng amddiffynfeydd arfordirol a lefel cynyddol y môr<sup>9</sup>.

Wrth i lefel y môr gynyddu a chynnydd yn uchder ac arddwysedd tonnau, bydd dŵr y môr yn symud ymhellach i'r tir gan beri colli cynefinoedd isel a difrodi nodweddion y cynefin a rhywogaethau cysylltiedig ynddo o ganlyniad. Enw'r golled hon o gynefin rhynglanwol yw gwasgfa arfordirol a, thra caiff yr enw ei ddefnyddio'n gyffredinol mewn perthynas â chynefin, gall hefyd gael effaith ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol.



Ffigur 3.4: Gwasgfa Arfordirol (Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol)

Gall lleihau maint blaendraeth o flaen amddiffynfa, er enghraifft, greu dŵr dyfnach gyda chynnydd ym maint tonnau o ganlyniad. Gall hyn danseilio amddiffynfeydd neu ei gwneud yn fwy tebygol bod amddiffynfeydd yn cael eu trechu.

Mae'n bwysig nodi swyddogaeth nodweddion arfordirol fel traethau a thwyni tywod wrth amddiffyn yr arfordir ehangach. Gallant fod yn glustogau naturiol arwyddocaol i lifogydd o'r môr o'u hystyried fel rhan o strategaeth reoli gyfun sy'n defnyddio prosesau naturiol a, thrwy hynny, efallai leihau costau cynnal neu ymestyn oes adeileddau sy'n cael eu gwarchod ganddynt.

Maent hefyd yn darparu buddiannau ecolegol pwysig fel meithrinfeydd pysgod, yn ogystal â chreu cyfleoedd adloniant a thwristiaeth i gymunedau lleol. Gall y cynefinoedd hyn ddod â buddiannau lluosog i gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd<sup>10</sup>.

Dan Adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC), rhaid i Awdurdodau Lleol ystyried gwarchod bioamrywiaeth sy'n cynnwys, mewn cysylltiad â chreaduriaid byw neu fathau o gynefin, adfer neu wella poblogaethau neu gynefinoedd.

<sup>9</sup> DEFRA (2003) Nodyn Esboniadol ar Adlinio Rheoledig: Prynu Tir, Digolledu a Thalu am Ddefnydd Tir Buddiol Arall. DEFRA, Llundain.

<sup>10</sup> Pennod 4.5; Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

### 1.7 Ffactorau sy'n Cynyddu Perygl Llifogydd

Cyfuniad o debygolrwydd a chanlyniad yw perygl llifogydd. Oherwydd bod nifer o ffactorau fydd yn arwain at debygolrwydd uwch o lifogydd yn y dyfodol ac y gall fod canlyniadau mwy difrifol, bydd hyn yn peri cynnydd mewn perygl llifogydd yn Sir Ddinbych. Mae llawer o ffactorau sy'n gallu cynyddu perygl llifogydd, gyda rhai ohonynt yn cael eu cynnwys yn Nhabl 4.2 isod:

| Ffactorau all gynyddu perygl llifogydd yn Sir Ddinbych   |  |   |
|--|--|---|
| Y Tywydd   | Hydrolegol   | Dynol   |
| <p>Glaw;<br/>Stormydd helaeth;<br/>Stormydd ar raddfa fechan;<br/>Tymheredd; a hefyd Cwmp eira a dŵr toddi eira.</p> | <p>Lleithder y pridd;<br/>Lefel dŵr codi cyn y storm;<br/>Cyfradd ymdreiddio arwyneb naturiol;<br/>Presenoldeb arwynebau anhydraidd;<br/>Siâp trawstoriadol a garwedd y sianel;<br/>Presenoldeb neu absenoldeb gorlifo'r glannau; a hefyd Cydamseriad dyfroedd ffo o amrywiol rannau o'r dalgylch.</p> | <p>Datblygiad newydd a newidiadau yn nefnydd tir (e.e. arwynebau caled oherwydd trefoli) yn cynyddu dŵr ffo;<br/>Adeilad o fewn y gorlifdir;<br/>Rhwystrau i lifau o fewn ardaloedd gorlifdir;<br/>Diffyg cynnal a chadw cyrsiau dŵr agored a chylfatiau bach;<br/>Dirywiad yng nghyflwr a pherfformiad isadeiledd draenio presennol;<br/>Newid yn yr hinsawdd – tywydd eithafol amlach a mwy difrifol;<br/>Dargyfeirio cyrsiau dŵr; a hefyd Cysylltiadau anghyfreithlon â charthffosydd.</p> |

Tabl 3.3: Ffactorau all gynyddu perygl llifogydd yn Sir Ddinbych

### 1.8 Methodoleg ar gyfer Nodi Ardaloedd sydd mewn Perygl

Fel rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor fel y LLFA dan FRR 2009, cynhyrnodd CSDd Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA) yn 2011. Diben yr adroddiad hwn oedd nodi ardaloedd yn y sir oedd mewn perygl llifogydd gyda chanlyniadau arwyddocaol a alwyd yn 'Ardaloedd lle mae Perygl Llifogydd'.

Diffiniwyd canlyniadau arwyddocaol gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn y canllawiau '*Dewis ac Adolygu Ardaloedd lle mae Perygl Llifogydd ar gyfer Ffynonellau Llifogydd Lleol – Canllawiau i Awdurdodau Arweiniol Llifogydd Lleol*' fel:

*'Clystyrau o ardaloedd uwchlaw trothwy perygl llifogydd gyda phoblogaeth dan sylw o fwy na 5,000 o bobl mewn perygl'*

Ni nodwyd unrhyw glystyrau uwchlaw'r trothwy hwn gan CNC yn Sir Ddinbych; fel y cyfryw, dan y cyfarwyddyd hwn, y farn yw nad oes unrhyw Ardaloedd lle mae Perygl Llifogydd yn Sir Ddinbych.

Oherwydd bod trwch y boblogaeth yn annhebygol o ennyn y rheoliadau ym mwyafrif Gogledd Cymru, deilliodd y LLFA ar gyfer pob sir drothwyon lleol newydd i nodi ardaloedd lle mae perygl llifogydd o fewn eu ffiniau. Diffiniwyd digwyddiad arwyddocaol yn lleol fel:

- Pan fo 5 eiddo preswyl neu fwy wedi bod dan ddŵr.

Ar y sail hon gwnaeth y LLFA yr astudiaeth ragarweiniol i roi asesiad o'r peryglon llifogydd gan ddefnyddio cofnodion hanesyddol sydd gan y sir gyda thros-haen o ddata modelu llifogydd a ddarparwyd gan CNC, i nodi'r Ardaloedd Perygl Llifogydd lleol yn y Sir.

Penderfynodd yr adroddiad bod cyfanswm o **5 lleoliad** wedi cael eu nodi o fewn ffiniau'r sir uwchlaw'r trothwyon ac wedi dioddef llifogydd hanesyddol. I gael rhagor o fanylion am y cylchoedd hyn gwelwch Dabl 4.1 neu'r PFRA.

### 1.9 Cyfyngiadau data

Hyd yma aseswyd perygl llifogydd yn Sir Ddinbych trwy ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau cynhenid i'r wybodaeth hon ac mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu nodi (Gwelwch Dabl 4.3 isod). Y prif gyfyngiadau data oedd cysondeb a dibynadwyedd casglu gwybodaeth am llifogydd yn y gorffennol. Ar hyn o bryd nid oes gan CSDd unrhyw wybodaeth cysylltiedig â pherygl llifogydd sydd i'w disgwyl yn y dyfodol heblaw'r hyn a ddarparwyd gan CNC.

| Set ddata                                  | Prif gyfyngiadau   | Gwella yn y dyfodol  |
|--|--|--|
| Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Arwyneb         | Ar gyfer y modelu defnyddiwyd methodoleg genedlaethol gyda chasgliad safonol o dybiaethau (fel hyd stormydd, ac ati) nad yw efallai'n addas ar gyfer Sir Ddinbych gyfan.               | Bydd modelu dŵr arwyneb manwl mewn ardaloedd pwysig yn lleol lle mae perygl llifogydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o berygl, mecanweithiau a chanlyniadau llifogydd.                                  |
| Ardaloedd Agored i Llifogydd Dŵr Codi      | Mae hon yn set ddata lefel uchel iawn sy'n disgrifio cyfran pob sgwâr grid all fod yn agored i llifogydd dŵr codi. Nid yw'n dangos tebygolrwydd y bydd llifogydd dŵr codi'n digwydd.   | Cael set ddata gyflawn Arolwg Daearegol Prydain (BGS) ar gyfer ardaloedd allweddol, sy'n dangos yn fanylach yr ardaloedd lle mae amgylchiadau daearegol yn awgrymu y gallai dŵr codi ddod i'r wyneb. |
| Hanes Llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych | Mae hanes llifogydd a gasglwyd trwy'r PFRA yn gyffredinol wael ac anghyson. Mae'n anodd gwneud asesiad teg a chywir o berygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych ar sail hyn yn unig. | Mae'n hanfodol cofnodi llifogydd yn fwy cynhwysfawr ac archwilio llifogydd yn y dyfodol (mae hyn ar y gweill, fel un o ofynion FWMA, a bydd yn darparu gwell hanes llifogydd yn y dyfodol).          |

Tabl 3.4: Cyfyngiadau'r prif setiau data sy'n cael eu defnyddio i flaenoriaethu ardaloedd pwysig yn lleol lle mae perygl llifogydd

## 4. Newid yn yr Hinsawdd

'Byddai cymunedau sy'n byw y tu ôl i amddiffynfeydd arfordirol da yn eu gwarchod ar hyn o bryd rhag llif sy'n debygol o ddigwydd unwaith bob 100 mlynedd yn gweld gostyngiad yn safon yr amddiffynfeydd erbyn diwedd y ganrif i mor isel ag unwaith bob 5 mlynedd pe byddem yn dilyn polisi rheoli llifogydd busnes fel arfer.'

*Llifogydd y dyfodol yng Nghymru: Amddiffyn rhag llifogydd. Senarios buddsoddi hirdymor posibl Cyfoeth Naturiol Cymru*

### 4.1 Newid yn yr Hinsawdd

Newid yn yr hinsawdd yw un o'r bygythion mwyaf difrifol sy'n wynebu economi a chymdeithas y byd. Dengys y llifogydd, sychderau a stormydd dinistriol a welwyd gennym yn y DU ac ar draws y byd yn y blynyddoedd diwethaf yn rhy eglur pa mor agored ydym i eithafion hinsawdd a pha mor ddinistriol y gall y canlyniadau fod.

Nid oes unrhyw atebion hawdd ac, er mwyn cael ymateb hirdymor i newid yn yr hinsawdd, mae angen symudiad sylfaenol yn ein dulliau byw, a sut fyddwn yn cynhyrchu a defnyddio ynni yn ystod y ganrif a ddaw. Yn y DU, mae'r llywodraeth yn ymroddi i weithredu rhaglen sy'n lleihau ein hallyriadau trwy ddeddfwriaeth, addysg, buddsoddiad sylweddol mewn technolegau glân a chynhyrchu trydan gwyrdd.

Gwnaed ymchwil wyddonol sylweddol ar newid yn yr hinsawdd gan Ragamcaniadau Hinsawdd y Deyrnas Unedig (UKCP09), sy'n cael ei gyllido gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) ar ran Llywodraeth y DU a'r Awdurdodau Datganolog. Seiliwyd yr ymchwil ar wyddoniaeth gadarn a rhagamcaniadau sy'n cael eu darparu gan y Swyddfa Feteorolegol, gan ganolbwyntio ar y DU. Nod yr ymchwil a'r rhagamcaniadau yw cynorthwyo'r rhai sy'n gorfod cynllunio sut fydd angen iddynt addasu i hinsawdd sy'n newid.

I asesu'r effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd ar law eithafol, llifau gorlifo afonydd, cynnydd yn lefel y môr ac ymchwyddiadau storm, mae UKCP09 wedi darparu pecyn cymorth mawr o wybodaeth a data gan gynnwys 'ffactorau newid' a ddatblygwyd i gynorthwyo Awdurdodau Rheoli Peryglon ddefnyddio gwybodaeth UKCP09 mewn ffordd amserol a chost-effeithiol a chreu agwedd gyson. Mae'r ffactorau newid yn meintio'r newid all fod o'r man cychwyn (fel cynnydd naill mewn milimedrau neu ganran, yn dibynnu ar y newidyn).

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar Newid yn yr Hinsawdd; *Addasu i Newid yn yr Hinsawdd: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, Rhagfyr 2011*. Yr argymhelliad yma yw datblygu dewisiadau, gan gynllunio ar gyfer y ffactor newid sy'n cwmpasu'r oes benderfynu gyfan. Caiff ffactorau newid ar gyfer llifau gorlifo afonydd, glaw eithafol, cynnydd cymharol yn lefel y môr ac ymchwyddiadau storm ar gyfartaledd eu darparu yn y canllawiau er mwyn cynorthwyo gyda phenderfyniadau cynllunio buddsoddiad.

Dylid gosod penderfyniadau a chamau gweithredu byrdymor ar reoli perygl llifogydd mewn fframwaith cynllunio strategol tymor hwy. Yng Nghymru mae cynlluniau'n bodoli ar gyfer rhoi sylw i'r perygl llifogydd cynyddol ac i ywio addasu i newid yn yr hinsawdd. Y cynlluniau strategol yw:

- Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch<sup>11</sup> – a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

<sup>11</sup> Cynlluniau anstatudol lefel uchel yw CRhLID ar gyfer perygl llifogydd mewndirol a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru

- Cynlluniau Rheoli Traethlin<sup>12</sup> – a gynhyrchwyd gan Grwpiau Arfordirol, yn cynnwys awdurdodau lleol arfordol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill.

Mae Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch yn ystyried perygl llifogydd mewndirol heddiw ac yn y dyfodol, ymhen hyd at 100 mlynedd, ac yn asesu effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd a newid defnydd tir ar berygl llifogydd yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn asesu bygythiad erydu a llifogydd i'r arfordir. Mae'r cynlluniau hyn yn edrych ar y senarios heddiw ac yn y dyfodol dros gyfnod o 100 mlynedd. Bydd Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch a Chynlluniau Rheoli Traethlin yn destun adolygiad cyfnodol fel y daw gwybodaeth newydd ar gael. Fe all y polisïau a'r camau gweithredu yn y cynlluniau newid gyda threigl amser i adlewyrchu addasu i beryglon cynyddol a newid yn yr hinsawdd<sup>13</sup>.

### 4.2 Newid yn Hinsawdd Cymru

Cynhyrchwyd asesiad o risgiau newid hinsawdd Cymru gan DEFRA ym mis Ionawr 2012 fel rhan o Asesiad Risgiau Newid Hinsawdd y DU (CCRA), dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Adolygodd yr asesiad yr holl ddata perthnasol sydd ar gael gan dynnu ar adroddiadau sector a deunydd darllen ymchwil ddiweddar, i roi rhagamcaniadau o newid yn yr hinsawdd ar gyfer y 2020au, y 2050au a'r 2080au o'i gymharu â data tywydd cofnodedig o 1961 i 1990. Adolygodd y ddogfen senarios Allyriadau Isel, Cymedrol ac Uchel ar gyfer pob un o'r cyfnodau gan gynhyrchu rhagfynegiadau o newidiadau ac effeithiau canfyddedig ar amrywiadau yn y tymheredd a chyflwr y tywydd.

Dywed yr adroddiad y bydd cynnydd mewn llifogydd ar yr arfordir ac ar y tir, gan effeithio ar bobl, eiddo ac isadeiledd. Y rhagolwg yw y bydd llifogydd yn cynyddu o gyfuniad o wahanol ffynonellau fydd yn achosi cynnydd mewn amhariad ar gymunedau, yr economi a chyflogaeth. Byddai llifogydd hefyd yn effeithio ar gyflenwadau dŵr, gwared carthion, cyflenwadau ynni a gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd nad oedd y llifogydd yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Y canfyddiadau allweddol ar gyfer Cymru o senario Allyriadau Cymedrol y 2050au yw:

- Cynnydd o 2.0°C yn nymheredd y gaeaf ar gyfartaledd (yn annhebygol iawn o fod yn llai nag 1.1°C ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 3.1°C);
- Cynnydd o 2.5°C yn nymheredd yr haf ar gyfartaledd (yn annhebygol iawn o fod yn llai nag 1.2°C ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 4.1°C);
- Cynnydd o 14% yng ngwlybaniaeth y gaeaf ar gyfartaledd (yn annhebygol iawn o fod yn llai na 2% ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 30%);
- Gostyngiad o 17% yng ngwlybaniaeth yr haf ar gyfartaledd (yn annhebygol iawn o fod yn llai na gostyngiad o 36% ac yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 6% o gynnydd); a hefyd
- Mae disgwyl i lefel y môr gynyddu rhwng 0.10m a 0.32m erbyn y 2050au.

### 4.3 Rhagamcaniadau Allweddol ar gyfer Dosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru

- Cynnydd o ryw 15% yng ngwlybaniaeth y gaeaf (yn debygol iawn o fod rhwng 3% a 33%);
- Gwlybaniaeth ar ddiwrnod gwlypaf y gaeaf oddeutu 12% yn fwy (yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 27%);

<sup>12</sup> Cynlluniau anstatudol lefel uchel yw CRhT ar gyfer erydu arfordirol a llifogydd a gynhyrchwyd gan Grwpiau Arfordirol

<sup>13</sup> Llifogydd y dyfodol yng Nghymru: amddiffynfeydd rhag llifogydd. Senarios buddsoddi hirdymor posibl

- Lefel cymharol y môr yn Abertawe yn debygol iawn o fod rhwng 10cm a 40cm yn uwch na lefel 1990 (heb gynnwys cynnydd ychwanegol all ddod oherwydd colli llenni rhew pegynol);
- Anterth llifau afonydd mewn dalgylch nodweddiadol yn debygol o gynydd rhwng 12% ac 20%; a hefyd
- Y rhagamcan yw y bydd cynnydd mewn glaw yn fwy ger yr arfordir nag ar y tir.

#### **4.4 Rhagamcaniadau Allweddol ar gyfer Dosbarth Basn Afon y Dyfrdwy**

Os bydd allyriadau'n dilyn senario cymedrol yn y dyfodol, newidiadau estynedig UKCP09 erbyn y 2050au o'i gymharu â'r gorffennol diweddar yw:

- Cynnydd o ryw 10% yng ngwlybaniaeth y gaeaf (yn debygol iawn o fod rhwng 2% a 21%);
- Cynnydd mewn gwlybaniaeth ar ddiwrnod gwlypaf y gaeaf oddeutu 8% yn uwch (yn annhebygol iawn o fod yn fwy na 21%);
- Lefel cymharol y môr yn Hoylake yn debygol iawn o fod rhwng 7cm a 38cm yn uwch na lefel 1990 (heb gynnwys cynnydd ychwanegol all ddod oherwydd colli llenni rhew pegynol); a hefyd
- Anterth llifau afonydd mewn dalgylch nodweddiadol yn debygol o gynyddu rhwng 7% a 12%.

#### **4.5 Goblygiadau i Berygl Llifogydd**

Gall newidiadau yn yr hinsawdd effeithio ar berygl llifogydd lleol mewn amryw ffyrdd. Bydd effeithiau'n dibynnu ar amgylchiadau lleol a gwendid. Gall gaeafau gwlypach a bod mwy o'r glaw hwn yn disgyn mewn cyfnodau gwlyb gynyddu llifogydd afonol ar hyd y Ddyfrdwy a'i hisafonydd ac yn y dalgylchoedd serth, nodweddiadol o Orllewin Cymru, sy'n ymateb yn gyflym. Mae glaw trymach yn achosi mwy o ddŵr ffo, gan gynyddu llifogydd ac erydu lleol. Yn ei dro, gall hyn gynyddu pwysau ar ddraeniau, carthffosydd ac ansawdd dŵr. Gallai gerwinder stormydd yn yr haf gynyddu hyd yn oed mewn hafau sychach, fel bod angen i ni fod yn barod am yr annisgwyl.

Gall cynnydd yn lefel y môr neu afonydd gynyddu perygl llifogydd lleol ar y tir neu ymhell o brif afonydd oherwydd rhyngweithiadau gyda draeniau, carthffosydd a chyrsgiau dŵr llai. Pan fo hynny'n briodol, mae angen astudiaethau lleol arnom i ddeall effeithiau'r hinsawdd yn fanwl, gan gynnwys effeithiau ffactorau eraill fel defnydd tir. Bydd datblygu a draenio cynaliadwy'n helpu inni addasu i newid yn yr hinsawdd a rheoli perygl llifogydd difrodol yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu canllawiau diweddaedig ar yr hyn y dylem gynllunio ar ei gyfer mewn cysylltiad â newid yn yr hinsawdd wrth wneud gwaith rheoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol.

## 5. Cynlluniau Rhanbarthol a Lleol

Mae amrywiaeth o ddogfennau cyhoeddus sy'n nodi perygl llifogydd yn Sir Ddinbych. Ymhlith y rhain mae:

- Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol Cyngor Sir Ddinbych;
- Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Conwy a Chlwyd;
- Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch y Ddyfrdwy;
- Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr CRhT2;
- Cynllun Rheoli Basnau Afonydd – Dosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Dosbarth Basn y Ddyfrdwy;
- Asesiad Strategol Sir Ddinbych o Ganlyniad Llifogydd;
- Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Afon Clwyd Lanwol; a
- Adroddiad Astudiaeth Strategaeth Amddiffyn Arfordir y Rhyl a Phrestatyn.


Yn yr adrannau canlynol mae adolygiad cryno o bob dogfen.

### 5.1 Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA) Cyngor Sir Ddinbych ym mis Mehefin 2011. Diben Adroddiad yr Asesiad Rhagarweiniol yw rhoi asesiad o berygl llifogydd all fod mewn ardaloedd y mae Cyngor Sir Ddinbych, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn gyfrifol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys perygl llifogydd o ddŵr arwyneb, dŵr codi, cysiau dŵr cyffredin a chronfeydd dŵr bach.

Mae'r adroddiad llawn i'w gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych neu yma:

[www.sirddinbych.gov.uk/en-gb/DNAP-8PCC5B](http://www.sirddinbych.gov.uk/en-gb/DNAP-8PCC5B)






## 5.2 Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgyrch Conwy a Chlwyd

Mae CRhLID Conwy a Chlwyd yn cwmpasu arwynebedd llawn o ryw 1,500 km<sup>2</sup> ac mae ynddo rhyw 90,000 eiddo. Mae'n cynnwys dau ddalgyrch sylweddol Afon Conwy yn y gorllewin ac Afon Clwyd yn y Dwyrain gyda mân afonydd eraill yn draenio dalgylchoedd bach ar hyd yr arfordir hefyd. Mae'r cynllun yn cwmpasu mwyafrif rhan ogleddol y sir sy'n cael ei ddraenio gan Afon Clwyd. Yr ardal oedd a nodwyd fel y rhai sydd fwyaf mewn perygl llifogydd yn y cynllun yw Prestatyn ac ardal Bae Cinnel.

Mae'r adroddiad i'w gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar y ddolen ganlynol [www.publications.environment-agency.gov.uk/PDF/GEWA0110BRKU-E-E.pdf](http://www.publications.environment-agency.gov.uk/PDF/GEWA0110BRKU-E-E.pdf)




## 5.3 Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgyrch y Ddyfrdwy

Perygl llifogydd afonol yw testun Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgyrch y Ddyfrdwy. Mae'r cynllun yn cwmpasu mwyafrif rhan ddeheuol y sir lle mae Dyfrdwy uchaf yn llifo tua'r dwyrain o Landrillo a thrwy Langollen. Nid yw'r cynllun yn nodi unrhyw ardal oedd lle mae perygl llifogydd sylweddol yn Sir Ddinbych. Caiff rheoli perygl llifogydd presennol ei ystyried yn briodol ar gyfer Rhanbarth Dyfrdwy Uchaf sy'n berthnasol i'r sir.

Mae'r adroddiad i'w gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

<http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/64223.aspx>



## 5.4 Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr CRhT2

Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr CRhT2 yn cwmpasu'r morlin o'r Gogarth yn Llandudno, i Ffin yr Alban ar Ferin Rheged. Mae'n cynnwys y prif aber yn Sir Ddinbych, sef aber Afon Clwyd.

Mae Isgell 11a – Pen y Gogarth i Southport – yn cynnwys Traethlin Sir Ddinbych i gyd sy'n rhan o'r CRhT hwn. Mae'r CRhT yn rhoi polisïau lefel uchel ar gyfer rheoli'r arfordir mewn cysylltiad â pherygl llifogydd, erydu arfordirol, yr amgylchedd naturiol, yr amgylchedd hanesyddol a'r economi. Mae'n edrych hefyd ar sut ddylai rheolaeth newid yn gynaliadwy am flynyddoedd i ddod.

Caiff polisi 'Cadw'r Llinell' ei ddefnyddio ar hyd arfordir Sir Ddinbych.

Mae'r CRhT llawn a'i atodiadau i'w cael yma: <http://www.mycoastline.org>





### 5.5 Cynllun Rheoli Basnau Afonydd – Dosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Dosbarth Basn Afon y Ddyfrdwy

Bwriad y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd ar gyfer Dosbarth Basn Afonydd Gorllewin Cymru a Dosbarth Basn Afon y Dyfrdwy yw ateb gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr i wella ansawdd cyrff dŵr arwyneb.


Tra nad yw'r cynlluniau hyn yn nodi perygl llifogydd nac yn ystyried rheoli perygl llifogydd, rhaid eu hystyried wrth wneud unrhyw waith rheoli perygl llifogydd. Rhaid i'r gwaith beidio â pheri dirywio ansawdd dŵr yn unrhyw gorff dŵr arwyneb nac atal rhag cyrraedd targedau gwella. Mae'r cynllun hefyd yn hybu defnyddio systemau draenio cynaliadwy (SDC) mewn datblygiadau newydd i dynnu halogyddion o ddŵr arwyneb yn ogystal â lleihau perygl llifogydd.

Mae adroddiad Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru i'w gael yn:

[www.environment-agency.gov.uk/research/planning/125095.aspx](http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/125095.aspx)

Mae adroddiad Cynllun Rheoli Basn y Ddyfrdwy i'w gael yn:

[www.environment-agency.gov.uk/research/planning/124748.aspx](http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/124748.aspx)



### 5.6 Asesiad Strategol Sir Ddinbych o Ganlyniad Llifogydd

Cynhyrchwyd Asesiad Strategol Sir Ddinbych o Ganlyniad Llifogydd (SFCA) fel papur cefndirol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Adneuol yn 2007 yn unol â TAN15<sup>14</sup>. Nod y SFRA yw defnyddio'r prawf dilyniannol ar safleoedd datblygu ymgeisiol er mwyn troi datblygiadau'r dyfodol oddi wrth ardaloedd lle mae cryn berygl llifogydd. Mae'r SFCA yn ystyried materion llifogydd afonol ac arfordirol yn y sir. Gwrthodwyd safleoedd lle mae cryn berygl llifogydd ac ystyriwyd y rhai gydag ardaloedd gyda pherygl rhannol o fewn yr ardal sy'n rhydd o lifogydd.

Mae'r adroddiad llawn i'w gael hyd i ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.



<sup>14</sup> Llywodraeth Cymru (2004) Nodyn Cyngor Technegol 15 Datblygu a Pherylg o Lifogydd

## 5.7 Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Afon Clwyd Lanwol

Mae strategaeth Clwyd lanwol yn cwmpasu morlin Gogledd Cymru a'r ardal lanwol fewndirol rhwng Abergele a'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Sir y Fflint ger Prestatyn. Mae'n cynnwys y prif ganolfannau poblogaeth o gwmpas y Rhyl, Bae Cinmel a Phrestatyn. Yn ogystal â thrigolion parhaol ardal y strategaeth, bydd llawer o filoedd o bobl yn ymweld â'r ardal bob blwyddyn, gan gynnwys pobl ar wyliau mewn meysydd carafanau lleol. Mae'r strategaeth yn awgrymu atebion ar gyfer mynd i'r afael â materion llifogydd llanwol o'r afon a llifogydd arfordirol o'r môr. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n rheolaidd yn ystod ei hoes er mwyn ystyried unrhyw newidiadau all ddigwydd gyda threigl amser.



Mae'r adroddiad i'w gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru neu yn:

[www.environment-agency.gov.uk/static/images/Leisure/20111205\\_Clwyd\\_factsheet\\_\(online\\_version\).pdf](http://www.environment-agency.gov.uk/static/images/Leisure/20111205_Clwyd_factsheet_(online_version).pdf).

## 5.8 Adroddiad Astudiaeth Strategaeth Amddiffyn yr Arfordir y Rhyl a Phrestatyn

Mae'r adroddiad yn manylu perygl llifogydd arfordirol yn nhrefi'r Rhyl a Phrestatyn, o fewn lsgell 11a. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut i sefydlu, cyfiawnhau a blaenoriaethu nodau ac amcanion cyflawn polisi amddiffyn rhag llifogydd a gwarchod yr arfordir ar gyfer y cylchoedd dan sylw. Cafodd ei gynhyrchu er mwyn sicrhau bod rheoli perygl llifogydd ac erydu'r dyfodol yn cyd-fynd â datblygu morlin Sir Ddinbych yn gynaliadwy o fewn y Cynllun Rheoli Traethlin strategol a, phan fo hynny'n briodol, yn cyfrannu ato.

Nid yw'r adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd.

## 6. Rheoli Tebygolrwydd Llifogydd

Yn dilyn argymhellion Adolygiad Pitt amlinellodd ac eglurodd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 gyfrifoldebau rheoli perygl llifogydd ar draws holl sefydliadau rheoli llifogydd. Wedyn diffiniodd FWMA sefydliadau penodol fel 'Awdurdodau Rheoli Peryglon' yng Nghymru sydd â swyddogaethau a chyfrifoldebau cysylltiedig â llifogydd. Yr Awdurdodau Rheoli Peryglon yn Sir Ddinbych yw:



**Cyfoeth Naturiol Cymru** sy'n gyfrifol am reoli perygl llifogydd o **brif afonydd** a'r **môr**, ac mae ganddo swyddogaeth trosolwg strategol hefyd dros holl reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a thros reoleiddio diogelwch cronfeydd dŵr. Hefyd mae gan CNC swyddogaeth allweddol wrth roi rhybuddion rhag llifogydd i'r cyhoedd.



**Cyngor Sir Ddinbych** fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol ac Awdurdod Prifffyrdd sy'n gyfrifol am roi arweiniad ar reoli perygl llifogydd o holl ffynonellau lleol, gan gynnwys **dŵr arwyneb**, **dŵr codi** a **chyrsgiau dŵr cyffredin** a rheoli perygl llifogydd ar ffyrdd a **phriffyrdd** yn yr ardal.



**Dŵr Cymru** (DCWW) a **Dŵr Dyffryn Dyfrdwy** yw'r cwmnïau dŵr a thrin carthion rhanbarthol sy'n gwasanaethu ardal Sir Ddinbych. Mae'r ddau'n gyfrifol am berygl llifogydd o **bibelli wedi hollti** ac mae Dŵr Cymru'n gyfrifol hefyd am lifogydd **carthion**.



**Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** (NMWTRA) sy'n gyfrifol am gynnal a gwella **cefnffyrdd** ar hyd a lled Sir Ddinbych ar ran Llywodraeth Cymru fel Awdurdod Prifffyrdd. Rhaid i ACGC sicrhau:

- Nad yw prosiectau ffyrdd yn cynyddu perygl llifogydd;
- Nad yw gollyngiadau ffyrdd yn llygru cyrff dŵr derbyn.

Mae manylion cysylltu pob un o'r Awdurdodau Rheoli Peryglon hyn i'w cael yn Atodiad A.

Mae gan bob un o'r awdurdodau rheoli peryglon a nodwyd uchod y cyfrifoldebau newydd canlynol dan y Ddeddf:

- **Dyletswydd** i gydweithredu gydag awdurdodau rheoli peryglon eraill o fewn eu swyddogaeth rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, sy'n cynnwys rhannu data a gwybodaeth am lifogydd; a hefyd
- **Awdurdod i gymryd** swyddogaethau llifogydd ac erydu arfordirol awdurdod rheoli peryglon arall pan fydd y ddwy ochr yn gytûn.

Mae cydweithredu ag awdurdodau rheoli peryglon eraill yn cynnwys y canlynol:

- Trafod gydag awdurdodau rheoli peryglon eraill cyn dynodi adeileddau;

- Hysbysu digwyddiadau llifogydd lleol i Swyddog Archwilio Llifogydd CSDd bob mis;
- Hysbysu asedau llifogydd, yn ôl diffiniad meini prawf a gytunwyd, fel a phryd y gwyddys amdanynt;
- Cynorthwyo gydag Adroddiadau Archwilio Llifogydd pan fo angen;
- Rhoi gwybodaeth leol ar SDC o ran ceisiadau yn eu hardal;
- Sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu harwain at yr awdurdod neu sefydliad priodol; a
- Rhannu medrusrwydd, data, hysbysrwydd a gwybodaeth leol a gweithio ar y cyd i ddeall a lleihau perygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych.

Dan FWMA mae gan bob awdurdod rheoli peryglon gyfrifoldebau penodol hefyd sy'n cael eu disgrifio yn yr adran nesaf.

Fodd bynnag, nid yw rheoli perygl llifogydd yn rhywbeth sydd i'w adael yn nwylo sefydliadau penodol yn unig a'i anghofio gan bawb arall. Mae gan **aelwyydd, busnesau a thirfeddianwyr** eu rhan i chwarae hefyd. Hyd yn oed pe na bai'r strategaeth hon yn cael ei dyfeisio ar adeg o gwtogi sylweddol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, ni fyddai'r sefydliadau'n dal i allu atal holl llifogydd na datrys holl bryderon. Dyna pam fod pwerau a chyfrifoldebau dinasyddion Sir Ddinbych yn cael eu cofnodi yn yr adran hon.

### 6.1 Cyfrifoldebau Cyfoeth Naturiol Cymru



Mae Cyfoeth Naturiol Cymru erioed wedi arwain rheoli perygl llifogydd o brif afonydd a'r môr. Fodd bynnag, i gydnabod y cysylltiadau rhwng llifogydd arfordirol ac erydu arfordirol, yn enwedig o ran canlyniadau, ac o ganlyniad i FWMA, mae gan CNC gyfrifoldebau gweithredol newydd mewn cysylltiad ag erydu arfordirol yn ogystal â chyfrifoldebau gweithredol dros lifogydd o afonydd a'r môr. Mae gan CNC hefyd swyddogaeth oruchwylio ehangach dros reoli holl berygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Fel rhan o'i swyddogaeth oruchwylio bydd CNC yn arwain wrth roi cyngor a chymorth technegol i'r Awdurdodau Rheoli Peryglon eraill. Bydd hefyd ar flaen arweiniadau cenedlaethol fel Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, y rhaglen genedlaethol i gynyddu ymwybyddiaeth, a'r un man cyswllt ar gyfer ymholiadau a gwybodaeth am berygl llifogydd, ar hyn o bryd yn cael ei ragbrofi trwy'r Gwasanaeth Rhybuddion Llifogydd.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar Gyfoeth Naturiol Cymru gan gynnwys:

- Cyflwyno adroddiadau i'r Gweinidog ar berygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru gan gynnwys cymhwyso'r Strategaeth Genedlaethol; a
- Sefydlu Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol.

Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yr unig Awdurdod Rheoli Perygl gyda gofal am arolygu a chyflwyno adroddiadau ar weithrediad y Strategaeth Genedlaethol. Wrth ymgymryd â'r swyddogaeth hon bydd yn gwneud y canlynol:

- Casglu data cynnydd gan Awdurdodau Rheoli Peryglon trwy ddulliau presennol ble bynnag y bo modd;

- Rhoi gwybodaeth ffeithiol i Lywodraeth Cymru; ac
- Yn ôl y gofyn, rhoi cyngor deongliadol i Lywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu a ddylid gweithredu neu beidio os yw adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru'n awgrymu nad yw'r Strategaeth Genedlaethol yn cael ei gweithredu neu fod camau sy'n cael eu cymryd yn cynyddu perygl llifogydd.

Yn ogystal â'i ddyletswyddau statudol, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru nifer o'r hyn sy'n cael eu galw'n bwerau caniatol. Pwerau yw'r rhain sy'n caniatáu iddo gymryd camau, ond heb orfodi iddo, gan gynnwys:

- Pwerau i ofyn am wybodaeth;
- Y gallu i godi ardollau am waith rheoli perygl llifogydd lleol, trwy'r Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordirol Rhanbarthol;
- Pwerau i ddynodi adeileddau neu nodweddion penodol sy'n effeithio ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol;
- Ehangu pwerau i wneud gwaith sy'n cynnwys camau rheoli peryglon ehangach; a hefyd
- Y gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol dan rai amgylchiadau.

Mae'r neilltuad newydd hwn o gyfrifoldebau hefyd yn cyd-fynd â swyddogaeth CNC mewn cysylltiad â Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009, sy'n neilltuo cyfrifoldeb penodol am wneud asesiadau perthnasol i fapio a chynllunio peryglon llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr i CNC yn ogystal â rhoi arweiniad i Awdurdodau Lleol ar y materion hyn o ran llifogydd o ffynonellau eraill.

Dan y rheoliadau mae CNC hefyd yn derbyn swyddogaeth asesu a chydgyssylltu cenedlaethol, gan sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei hanfon i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae Swyddogaeth Weithredol Leol CNC yn cynnwys bod yn awdurdod rheoli perygl erydu arfordirol, cynllunio at argyfwng, cynghori ar y broses gynllunio a rheoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr.

### **6.1.1 Yr Awdurdod Rheoli Perygl Erydu Arfordirol**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n awdurdod rheoli perygl erydu arfordirol gyda'r grym i warchod tir rhag erydu arfordirol ac i reoli gweithgareddau trydydd-parti ar yr arfordir. Mae hyn yn cynnwys adeiladu amddiffynfeydd preifat neu dynnu deunydd o'r traeth. Mae'n bwysig nodi bod Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, ers mis Hydref 2011, wedi bod angen cymeradwyaeth CNC i wneud gwaith gwarchod yr arfordir.

### **6.1.2 Cynllunio at Argyfwng**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfrannu at ddatblygu cynlluniau llifogydd amlasiantaethol, sy'n cael eu datblygu gan Fforymau Lleol Cymru Gydnerth (LRF) i helpu'r sefydliadau dan sylw weithio'n well gyda'i gilydd wrth ymateb i lifogydd. Mae hefyd yn cyfrannu at y Fframwaith Argyfwng Llifogydd Cenedlaethol ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n cynnwys canllawiau ar ddatblygu ac asesu'r cynlluniau hyn.

Mae'n gyfrifol am roi cyngor i awdurdodau cynllunio ar ddatblygiad a pherygl llifogydd; rhoi rhybuddion llifogydd afonol ac arfordirol; arolygu peryglon llifogydd ac erydu arfordirol a chynorthwyo'r rhai sy'n ymateb i argyfyngau pan fydd llifogydd yn digwydd.

Mae'n gweithio gyda'r Swyddfa Feteorolegol i roi rhagolygon a rhybuddion llifogydd o afonydd a'r môr yng Nghymru a Lloegr.

Mae gan CNC ac awdurdodau gweithredu asedau eraill swyddogaeth hefyd i reoli eu hasedau a systemau'n rhagweithiol er mwyn lleihau perygl pan fydd llifogydd.

### **6.1.3 Prif Afonydd**


Mae Prif Afon yn fath statudol o gwrs dŵr. Diffiniad prif afon yw cwrs dŵr a nodwyd fel y cyfryw ar fap prif afonydd a bennwyd gan DEFRA (dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991), a gall gynnwys unrhyw adeiledd neu declyn ar gyfer rheoli neu reoleiddio llif dŵr, i mewn i brif afon neu allan ohoni. Mae gan CNC bwerau i wneud gwaith amddiffyn rhag llifogydd perthnasol i brif afonydd yn unig. Fodd bynnag, ar berchenogion y glannau mae'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal Prif Afonydd.

### **6.1.4 Llifogydd Arfordirol**

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad arweiniol sy'n gyfrifol am reoli holl berygl llifogydd ac erydu o gwmpas morlin Cymru, gan gynnwys perygl llifogydd llanwol. CNC sy'n arwain datblygu cynllun rheoli'r arfordir sy'n gweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gyda sefydliadau partner, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn gweithredu cynlluniau a gytunwyd.

Mae gan CNC swyddogaeth reoleiddiol hefyd wrth ganiatáu gwaith a wneir gan eraill mewn, neu ar bwys, cyrsiau dŵr ac amddiffynfeydd morol / llanwol i sicrhau eu bod yn ystyried perygl llifogydd ac nad ydynt yn peri difrod neu effeithiau amgylcheddol diangen.





Figur 6.1: Map o brif afonydd o wefan EA Datasare

### 6.1.5 Cronfeydd Dŵr

CNC sy'n gorfodi Deddf Cronfeydd Dŵr 1975, sef deddfwriaeth ddiogelu cronfeydd dŵr yn y Deyrnas Unedig. Fel yr Awdurdod Gorfodi, CNC sy'n gyfrifol am gronfeydd dŵr sy'n dal mwy na 25,000m<sup>3</sup> (uwchlaw lefel naturiol y tir oddi amgylch) ac, unwaith y bydd rhannau perthnasol Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr wedi dechrau, cronfeydd dŵr sy'n dal 10,000m<sup>3</sup>.

Fel yr Awdurdod Gorfodi, mae CNC yn gyfrifol am y canlynol:

- Cynnal cofrestr o gronfeydd dŵr, a gweld bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd;
- Sicrhau bod cronfeydd dŵr yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn ôl y safonau dylunio cywir;
- Yn sicrhau bod y perchennog (ymgymerwr) mae wedi penodi peiriannydd i archwilio'r gronfa ddŵr yn gyfnodol;
- Sicrhau bod y perchennog yn comisiynu archwiliadau rheolaidd o'r gronfa ddŵr gan beiriannydd archwilio;

- Sicrhau bod y perchennog yn gwneud gwaith hanfodol sydd ei angen 'er mwyn diogelwch' mor fuan ag y bo'n ymarferol dan oruchwyliaeth peiriannydd sifil cymwysedig (o banel peirianwyr archwilio);
- Dylanwadu ar, rhybuddio, rhoi rhybuddiadau ac yn y pen draw erlyn perchennogion nad ydynt yn cydymffurfio;
- Comisiynu peirianwyr adeiladu, peirianwyr goruchwyllo, peirianwyr archwilio a gwaith hanfodol sydd ei angen 'er mwyn diogelwch' pan fydd diffyg cydymffurfiad ac adennill unrhyw gostau gan y perchennog;
- Cynhyrchu adroddiad bob dwy flynedd ynghylch ein gweithgareddau gorfodi a gweithredu i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cymru; a
- Gweithredu mewn argyfwng os nad yw'r perchennog yn cymryd camau priodol.

Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu mapiau llifogydd cronfeydd dŵr sy'n dangos effeithiau bylchu argae ar y dalgylch islaw ar gyfer rhyw 2000 o gyforgronfeydd dŵr mawr sy'n cael eu rheoleiddio ganddo dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975. Anfonwyd y rhain at berchenogion cronfeydd dŵr a'r awdurdodau lleol perthnasol.


### 6.2 Pwerau a Chyfrifoldebau Cyngor Sir Ddinbych



Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 dynodwyd Cyngor Sir Ddinbych yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol y dosbarth. Y Cyngor sy'n gyfrifol am arwain rheoli perygl llifogydd o ffynonellau lleol. Mae hyn yn cynnwys dŵr arwyneb, dŵr codi a chyrsgiau dŵr cyffredin a hefyd lle mae cydadwaith rhwng y ffynonellau hyn a phrif afonydd neu'r môr. Mae gan CSDd swyddogaethau cysylltiedig eraill hefyd o ran cynllunio at argyfwng, gwasanaethau rheoleiddiol a draenio ffyrdd, sy'n cael eu manylu yn yr adrannau canlynol.

Yn dilyn gweithredu'r Ddeddf, dewisodd Aelodau Cabinet CSDd yr adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i fod yn arweiniol wrth sicrhau cydymffurfiad y Cyngor â deddfwriaeth a sicrhau bod holl adrannau ac asiantaethau allanol perthnasol yn cynorthwyo cyflawni gofynion y Ddeddf hon. Roedd gan adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ddyletswyddau tebyg eisoes ac roedd wedi ffurfio'r cysylltiadau angenrheidiol gydag adrannau eraill a chyrrf allanol i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Mae'r diagram isod yn dangos llawer o adrannau CSDd sydd â rhan i chwarae wrth leihau perygl llifogydd a gweithredu'r Ddeddf fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol.





Ffigur 6.1: Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

Mae FWMA 2010 yn dynodi CSDd fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol rhanbarth gweinyddol Sir Ddinbych. Rhoddodd hyn nifer o **ddyletswyddau statudol** i'r Cyngor o ran goruchwyllo rheoli perygl llifogydd lleol sy'n deillio o ddŵr arwyneb, dŵr codi a chysiau dŵr cyffredin fel nentydd a ffosydd (gan gynnwys llynnoedd a phyllau). Rhoddodd nifer o **bwerau caniatol** i CSDd hefyd yn caniatáu iddo wneud rhywbeth, ond heb orfodi hynny, yn ôl y diffiniad yn Nhabl 7.1 isod:

| Dyletswyddau statudol   | Pwerau caniataol  |
|---|---|
| <p>Arweiniad strategol<sup>15</sup>;<br/>                     Cydymffurfio â'r Strategaeth Genedlaethol<sup>16</sup>;<br/>                     Cydweithredu ag awdurdodau eraill<sup>17</sup>;<br/>                     Ymchwilio i lifogydd a chyhoeddi'r canlyniadau<sup>18</sup>;<br/>                     Cadw cofrestr o asedau sy'n debygol o effeithio ar berygl llifogydd<sup>19</sup>; a hefyd<br/>                     Cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy<sup>20</sup>.</p> | <p>Pwerau i ddynodi adeileddau a nodweddion sy'n effeithio ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol;<br/>                     Pwerau i ofyn am wybodaeth;<br/>                     Ehangu pwerau i wneud gwaith sy'n cynnwys camau rheoli peryglon ehangach; a'r<br/>                     Gallu i achosi llifogydd neu erydu arfordirol dan rai amgylchiadau.</p> |

Tabl 6.1: Dyletswyddau Statudol a Phwerau Caniataol Cyngor Sir Ddinbych

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, bydd Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn derbyn swyddogaeth Corff Mabwysiadu a Chymeradwyo SDC (CCS) mewn cysylltiad â systemau draenio cynaliadwy. Yn y swyddogaeth hon bydd y Cyngor yn gyfrifol am gymeradwyo cynllun gwreiddiol y SDC a mabwysiadu a chynnal y system gyflawn.

## 6.2.1 Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

Prifffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n arwain cyflawni a gweithredu gofynion y Ddeddf ar ran CSDd. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn yn gofyn cyfraniad adrannau perthnasol eraill y Cyngor a gweithio ar y cyd â nhw. Mae rhai o'r gorchwylion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adrannau canlynol wedi bod yn weithgareddau craidd y Cyngor ers nifer o flynyddoedd ac mae prosesau'n bodoli i gyflawni'r gorchwylion hynny. Mae gorchwylion eraill, fodd bynnag, yn berthnasol i'r cyfrifoldebau newydd a neilltuwyd yn ddiweddar a byddant yn gofyn datblygu a gweithredu prosesau newydd.

### 6.2.1.1 Arweiniad Strategol

CSDd sy'n gyfrifol am gydgyssylltu a goruchwyllo rheoli perygl llifogydd o ddydd i ddydd ar hyd a lled y Sir. Yn ymarferol cymrodd CSDd yr arweiniad ar ddelio â llifogydd dŵr codi, dŵr arwyneb a chysiau dŵr cyffredin cyn y newidiadau oherwydd FWMA; fodd bynnag neilltuwyd y cyfrifoldeb erbyn hyn i CSDd yn ôl y gyfraith. O'r dechrau, mae hyn yn golygu datblygu'r strategaeth hon fydd yn pennu agwedd CSDd at ddelio â llifogydd a nodwyd dan y Ddeddf. Mae hefyd yn golygu sicrhau bod holl awdurdodau perygl llifogydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, cadw golwg ar gynnydd a gweithgaredd yr holl sefydliadau dan sylw a chyfathrebu â'r cyhoedd a rhwng sefydliadau.

<sup>15</sup> Adran 10(1) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

<sup>16</sup> Adran 10(5) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

<sup>17</sup> Adran 13 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

<sup>18</sup> Adran 19 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

<sup>19</sup> Adran 21 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

<sup>20</sup> Adran 27 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

### 6.2.1.2 Cofnodi Llifogydd

Mae crynhoi darlun manwl gywir o berygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych yn gofyn casglu cofnodion cywir a defnyddiol o lifogydd gwirioneddol sy'n digwydd yn y sir. Mae CSDd wedi gosod safon i gofnodi pob llif sy'n digwydd yn y sir. O gyrraedd meini prawf arbennig, sy'n cael eu hegluro'n fanylach yn yr adran nesaf, bydd ymchwiliad manwl yn cael ei gynnal.

Mae gweithio ar y cyd a chydweithredu'n rhan annatod o reoli perygl llifogydd ac mae'n cael ei adlewyrchu yn y ddyletswydd i gydweithredu sydd yn y Ddeddf. Y mesur at y dyfodol yw creu cysylltiadau cryfach gyda grwpiau cymunedol lleol, y cyhoedd, tîrfeddianwyr a sefydliadau preifat y disgwyliwn iddynt ymwneud yn rhagweithiol â rheoli perygl llifogydd a rhoi gwybodaeth i ni am lifogydd.

Nod CSDd yw cael cymaint o wybodaeth am lifogydd sy'n digwydd ar hyd a lled Sir Ddinbych ag y gall ac, er mwyn gwneud hyn, rydym yn annog y cyhoedd i ddefnyddio gwefan y Cyngor i roi gwybodaeth nad ydym efallai'n ymwybodol ohoni.

Os dowch yn ymwybodol o lif yn eich ardal, rhwch y wybodaeth ganlynol i ni trwy [floods.investigations@sirddinbych.gov.uk](mailto:floods.investigations@sirddinbych.gov.uk)


- Eich enw a manylion cysylltu
- Dyddiad y llif;
- Lleoliad y llif (cyfeirnodau map neu union gyfeiriad);
- Faint barodd y llif;
- Dyfnder y llif ar ei waethaf;
- O ble daeth y dŵr? e. e. afon yn gorlifo;
- Beth oedd y tywydd cyn y llif, faint o law os gwyddoch?;
- Aeth dŵr i mewn i eiddo? Pa eiddo?;
- Pa ddifrod wnaeth y llifogydd achosi? e. e. ffordd wedi cau am amryw oriau;
- A wnaed unrhyw beth ar y pryd i leihau'r perygl llifogydd? e. e. llifddorau;
- Unrhyw wybodaeth berthnasol arall; a
- Ffotograffau a fideos o'r llif a difrod cyn y llif.

### 6.2.1.3 Ymchwilio i Llifogydd

Mae'n ddyletswydd ar LLFA i ymchwilio i holl ffynonellau llifogydd sylweddol. Nid oes diffiniad cenedlaethol o *sylweddol*; felly mae'r penderfyniad i ymchwilio neu beidio i lif yn ôl doethineb y LLFA a bydd ehangder yr ymchwiliad yn cael ei addasu i adlewyrchu arwyddocâd y digwyddiad a'r adnoddau sydd ar gael. Os digwydd llifogydd sylweddol sy'n effeithio ar rannau helaeth o Sir Ddinbych, mae ein gallu i ymchwilio i bob digwyddiad yn fanwl yn debygol o fod yn gyfyngedig dros ben.

Nod ymchwiliadau llifogydd yw dod â holl wybodaeth ddefnyddiol ynghyd mewn un lle, darparu dealltwriaeth o sefyllfaoedd, amlinellu'r pethau a allai fod wedi achosi'r llifogydd ac atebion hirdymor posibl i warchod pobl a'u cartrefi rhag llifogydd. Bydd argymhellion pellach yn cael eu gwneud hefyd i dynnu sylw at bosibilrwydd camau rheoli perygl llifogydd. Bydd adroddiadau'n rhoi dealltwriaeth eglur a thrwyadl o lifogydd. Yn ddelfrydol bydd yr ymchwiliadau'n rhoi atebion hirdymor ac argymhellion gweithredu a allai ddatrys y broblem; fodd bynnag trwy'r broses ymchwilio nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr awdurdodau na'r rhai sy'n gyfrifol yn gweithredu ar y rhain, oni bai fod pwerau caniatol yn cael eu defnyddio dan Ddeddf Draenio Tir.

Bydd ymchwiliad llifogydd yn golygu ymgynghori â'r awdurdodau rheoli peryglon, tîrfeddianwyr a sefydliadau preifat perthnasol dan sylw, a bydd disgwyl iddynt oll gydweithredu a rhoi sylwadau. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar fethodoleg ymchwiliadau llifogydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cael ei dangos yn Ffigur 6.2 isod.



Figur 6.2 Methodoleg ar gyfer Archwilio Llifogydd ar y cyd â Chyfoeth Naturiol Cymru

### 6.2.1.4 Cofrestr Asedau Perygl Llifogydd

Ased yng nghyd-destun rheoli perygl llifogydd yw adeiledd gwneud neu naturiol sy'n gweithredu fel amddiffynfa rhag llifogydd neu fel rhan o system ddraenio sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd. Rhai enghreifftiau fyddai sgrin sothach, cylfat, gorsaf bwmpio, muriau neu lannau sianel afon.

Mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych gadw **cofrestr asedau** o adeileddau neu nodweddion sy'n cael eu hystyried yn debygol o gael effaith sylweddol ar berygl llifogydd lleol. Bydd gwybodaeth am berchenogaeth a chyflwr yn cael ei dal ar y gofrestr a bydd ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar holl adegau rhesymol. Bydd y gofrestr ar ffurf cronfa ddata fyw, fydd yn cael ei diweddarau'n gyson yng ngoleuni llifogydd, archwiliadau llifogydd a newidiadau mewn isadeiledd. Yn y lle cyntaf bydd asedau'n cael eu cofnodi yn ôl blaenoriaeth eu lleoliad; bydd mapiau perygl llifogydd yn y dyfodol ac ardaloedd hysbys lle mae perygl llifogydd o'r Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol yn cael eu defnyddio i ddadansoddi 'arwyddocâd' pob ased perthnasol i berygl llifogydd. Bydd pa mor agored i niwed yw amgylchoedd yr ased yn cael ei ddefnyddio hefyd i benderfynu beth fyddai canlyniadau ei fethiant.

Mae gofyn hefyd i'r Cyngor gadw **cofnod asedau** at ddefnydd awdurdodau rheoli peryglon. Bydd y cofnod yn rhoi rhagor o wybodaeth am bob ased a sut i gysylltu â'r perchennog neu gynhaliwr. Bydd y gronfa ddata hon yn cael ei defnyddio i ymchwilio i hysbysiadau o faterion cysylltiedig ag asedau perthnasol i berygl llifogydd.

### 6.2.1.5 Datblygu Cynaliadwy

Mae dyletswydd ar CSDd i geisio cyfrannu at gyflawni datblygu cynaliadwy wrth arfer swyddogaethau rheoli perygl llifogydd neu erydu arfordirol ac ystyried canllawiau Gweinidogion Cymru ar y pwnc hwn. Nid yw'r canllawiau a ddarparwyd, *Datblygu Cynaliadwy: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Peryglon Adran 27 – Datblygu Cynaliadwy Tachwedd 2011*, yn pennu un dull sy'n rhaid ei ddilyn. Yn hytrach, mae'n rhoi amrywiaeth o awgrymiadau ar sut i anelu at wneud cyfraniad at gyflawni datblygu cynaliadwy wrth wneud dyletswyddau rheoli perygl llifogydd lleol dan y Ddeddf. Caiff y ffyrdd y bydd CSDd yn gweithio tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy yn y swyddogaeth FCERM ei ddisgrifio yn Adran 10.

### 6.2.1.6 Dynodi Asedau

Erbyn hyn mae cymalau perthnasol FWMA wedi dod i rym (Awst 2012), gan roi awdurdod i Gyngor Sir Ddinbych ac Adnoddau Naturiol Cymru fel 'awdurdodau dynodi'. Hynny yw, mae ganddynt y pwerau caniatol i 'ddynodi' nodweddion neu adeileddau a dybiant sy'n effeithio ar berygl llifogydd ac nad ydynt ym meddiant y LLFA nac Adnoddau Naturiol Cymru. Os cânt eu 'dynodi' ni all eu perchennogion newid, dileu na disodli'r nodweddion neu adeileddau hynny heb ganiatâd yr awdurdod rheoli peryglon sy'n dynodi. Diben dynodi asedau perthnasol i berygl llifogydd yw eu gwarchod rhag gwaith heb ei wirio a allai gynyddu perygl llifogydd yn y cylch. Nid yw dynodi nodweddion neu adeileddau'n rhywbeth fydd yn cael ei wneud yn rheolaidd ond yn unig pan fydd pryderon ynghylch yr asedau.

**Sylwch:** nid yw dynodi ased yn golygu bod dyletswydd ar neb i'w gynnal yn ei gyflwr presennol.

### 6.2.1.7 Ateb Gofynion y Rheoliadau Perygl Llifogydd

Mae Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009<sup>21</sup> (FRR) unwaith eto'n neilltuo cyfrifoldeb dros beryglon llifogydd lleol gan nodi cyfrifoldebau penodol dros wneud asesiadau. Mae gofyn i bob LLFA gynhyrchu Asesiad

<sup>21</sup> Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009

Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA). Cyhoeddwyd y PFRA cyntaf ym mis Mehefin 2011 ac mae i'w gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych:

<http://www.sirddinbych.gov.uk/en-gb/DNAP-8PCC5B>

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu yn 2017 a phob chwe blynedd wedi hynny.

### **6.2.1.8 Caniatáu Gwaith ar Gyrsiau Dŵr Cyffredin**

CSDd sy'n gyfrifol am reoleiddio cyrsiau dŵr cyffredin. Mae hyn yn cynnwys rhoi caniatâd am unrhyw newidiadau i gyrsiau dŵr cyffredin a allai beri rhwystro neu newid llif cwrs dŵr cyffredin a chamau gorfodi i gywiro gwaith anghyfreithlon ac a allai fod yn niweidiol i gwrs dŵr.

Swyddogaeth CNC oedd hon yn flaenorol ond cafodd ei throsglwyddo fel bod LLFA yn gallu gweithredu eu swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd cysylltiedig â pherygl llifogydd lleol. Mae CNC yn dal i gadw ei gyfrifoldeb o ganiatáu gwaith ar brif afonydd.

Os yw perchenogion glannau afonydd neu gyrff eraill eisiau rhoi cwrs dŵr cyffredin mewn cylfat neu osod unrhyw rwystr, mae angen caniatâd. Diben rheoleiddio cyrsiau dŵr cyffredin yw cadw trefn ar weithgareddau all gael effaith andwyol ar lifogydd. Mae'n hanfodol bod pawb sy'n bwriadu gwneud gwaith naill ai dros dro neu barhaol mewn, dros, dan neu wrth ymyl cwrs dŵr neu amddiffynfeydd rhag llifogydd (gan gynnwys amddiffynfeydd rhag y môr) yn cael unrhyw ganiatâd gofynnol cyn dechrau'r gwaith. Bydd taliad yn cael ei godi am ganiatáu ffurfiau rhwystrau sy'n cael eu nodi yn Neddf Draenio Tir. Caiff perchenogion glannau afonydd eu hannog i gysylltu â'r Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i drafod unrhyw geisiadau. Mae modd lawrlwytho'r ffurflen gais berthnasol yn:

[www.denbigshire.gov.uk/flooding](http://www.denbigshire.gov.uk/flooding)

### **6.2.1.9 Fel Corff Cymeradwyo SDC (CCS)**

Newid agwedd yw systemau draenio cynaliadwy (SDC) oddi wrth ddraenio confensiynol gyda'i amcan o gludo dŵr o ddatblygiad mor fuan ag y bo modd, yn aml yn achosi gorlwytho cyrsiau dŵr ymhellach i lawr ac achos llifogydd. Yr egwyddorion allweddol sy'n dylanwadu ar gynllunio a dylunio SDC yw:

- Cadw dŵr ffo a'i ryddhau'n araf (gwanhau);
- Gadael i'r tir sugno dŵr (ymdreiddio);
- Symud dŵr yn araf ar y wyneb (cludo);
- Hidlo llygryddion; a
- Gadael i waddodion setlo trwy reoli llif y dŵr.<sup>22</sup>

Mae SDC hefyd yn gyfle i sicrhau bod amwynder a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â rheoli cyfeintiau o ddŵr.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi swyddogaeth Corff Cymeradwyo SDC (CCS) i Gyngor Sir Ddinbych dros ei diriogaeth. Pan ddaw'r agwedd hon ar y Ddeddf i rym (i'w ddisgwyl erbyn mis Ebrill 2014)

<sup>22</sup> [http://www.ciria.com/suds/suds\\_principles.htm](http://www.ciria.com/suds/suds_principles.htm)

caiff manylion llawn sut y gweithredir hyn yn eu cytuno gyda phartneriaid ac yn cael cyhoedduswydd eang. Bydd proses gymeradwyo SDC yn cael ei ymdoddi yn y drefn gynllunio; gyda thrafodaethau'n dechrau ar y cyfle cyntaf.

Y disgwyl yw y bydd unrhyw ddatblygiad sydd angen caniatâd cynllunio angen caniatâd draenio hefyd a, phan gaiff y CCS ei sefydlu, bydd gofyn iddo wneud y canlynol:

- Asesu'r dyluniad draenio ar gyfer holl waith adeiladu sydd â goblygiadau draenio;
- Mabwysiadu holl gynlluniau SDC sy'n cysylltu mwy nag un eiddo; a
- Sicrhau bod holl gynlluniau SDC mabwysiedig yn cael eu cynnal yn briodol.

Mae un o ddarpariaeth pwysig FWMA yn cynnwys dileu'r hawl ddiodyn i gysylltu â systemau carthffosydd dŵr arwyneb; yn hytrach, mae cysylltu â rhwydwaith carthffosydd presennol yn amodol ar gymeradwyo'r system ddraenio gan y CCS.

Mae draenio'n fater cymhleth a dylid ei ystyried yng nghyfnod cyntaf y broses ddatblygu. Bydd CSDd yn cynhyrchu Canllawiau Dylunio SDC lleol yn unol â Safonau Cenedlaethol SDC, i gynghori ar y disgwyliadau ar gyfer dylunio gwaith draenio. Y disgwyl yw y bydd ymgynghori ar hwn yn 2014 ar ôl rhoi canllawiau cenedlaethol yn dilyn deddfu'r CCS.

***Sylwch: mae CSDd yn disgwyl cael rhagor o wybodaeth a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru o ran mabwysiadu SDC ac, felly, fe all y wybodaeth uchod newid.***

### 6.2.2 Cyd-uned Cynllunio at Argyfwng

Gyda dyfodiad Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 roedd gofyn ad-drefnu cynllunio cydasiantaethol yng Nghymru. Canlyniad hyn oedd creu Fforymau Lleol Cymru Gydnerth (gyda chefnogaeth amrywiol grwpiau cydgysylltu) ar sail y pedwar rhanbarth heddlu yng Nghymru.

Mae Cyd-uned Cynllunio at Argyfwng (JEPU) Cynghorau Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn gweithio'n agos gyda Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd (NWRF), a sefydlwyd ym mis Mawrth 2005. Aelodaeth NWRF yw rheolwyr strategol pob un o'r ymatebwyr Categori 1 (Awdurdodau Lleol gan gynnwys CSDd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans, Byrddau Iechyd Lleol, y Gwasanaethau Tân ac Achub a chyrff perthnasol eraill). Ei ddiben cyflawn yw sicrhau bod parodrwydd priodol i alluogi ymateb amlasiantaethol effeithiol i argyfyngau gan gynnwys llifogydd sy'n gallu cael effaith sylweddol ar gymunedau'r Gogledd.

Amcanion y Fforwm Cydnerth yw<sup>23</sup>:

- Cytuno ar agweddau at strategaeth a pholisi cysylltiedig â pharodrwydd ac ymateb Gogledd Cymru;
- Cymeradwyo'r Gofrestr Risgiau Cymunedol (CCR) a sicrhau ei bod yn sail gadarn i gynllunio;
- Sicrhau bodolaeth cynlluniau, gweithdrefnau, hyfforddiant ac ymarferion amlasiantaethol priodol sydd eu hangen i roi sylw i beryglon lleol ac ehangach, a welwyd neu a ragwelwyd, a nodi unrhyw fylchau;
- Cyfarwyddo a goruchwyllo gweithgareddau gweithgorau wrth eu sefydlu a neilltuo mesurau iddynt fel y bo'n briodol;

<sup>23</sup> Cofrestr Risgiau Cymunedol Gogledd Cymru 2012 a gynhyrwyd gan Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd, Fersiwn 10 Ionawr 2012 – Terfynol

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

- Derbyn adroddiadau o'r gweithgorau ar fygythiadau presennol, bylchau cynllunio a chynnydd ar gamau gweithredu a fesurwyd;
- Sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i weithgorau i gyflawni cyfrifoldebau statudol a seiliedig ar fesurau;
- Cydgysylltu dulliau a chyfrifoldebau unigol pob sefydliad i sicrhau eu bod yn ategu ei gilydd ac yn ymblethu â threfniadau partneriaid; ac
- Ystyried goblygiadau deddfwriaeth, arweiniadau cenedlaethol a phenderfyniadau'r Fforwm Cydnerth Rhanbarthol ar gyfer ardal Fforwm Cymru Gydnherth y Gogledd.

O ran FCERM mae swyddogaeth JEPU yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrifoldebau cynllunio at argyfwng;
- Darparu cyfundrefn Swyddog ar Ddyletswydd drwy'r adeg ar gyfer Cynghorau Sir Dinbych a Sir y Fflint;
- Paratoi cynlluniau llifogydd at raid sy'n manylu'r trefniadau ar gyfer ymateb i drychineb neu lifogydd o bwys yn Sir Ddinbych;
- Asesu peryglon Sir Ddinbych yn unol â chyfrifoldeb arweiniol a chydgyssylltu cyfraniad yr awdurdodau lleol i Gofrestr Risgiau Cymunedol;
- Datblygu Cynlluniau Argyfwng yn unol â chyfrifoldeb arweiniol;
- Datblygu trefniadau Rheoli Parhad Busnes awdurdodau lleol;
- Datblygu trefniadau ar gyfer gweld bod hysbysrwydd Parodrwydd Sifil ar gael at ddefnydd y cyhoedd gyda gwasanaethau eraill perthnasol CSDd;
- Gweithio gyda chymunedau i sicrhau eu bod yn cael hysbysrwydd a'u bod yn barod ar gyfer argyfyngau sifil fel llifogydd, ac yn gallu dod atynt eu hunain yn dilyn argyfwng, h.y. partneriaethau llifogydd;
- Cynnal cyfundrefn ar gyfer rhybuddio, hysbysu a chynghori'r cyhoedd os digwyddo argyfwng;
- Rhannu gwybodaeth gydag ymatebwyr eraill Sir Ddinbych;
- Cydweithredu gydag ymatebwyr eraill Sir Ddinbych i wella cydweithrediad ac effeithlonrwydd; a
- Rhoi cyngor a chymorth i fusnesau a chyrff a mudiadau gwirfoddol ynghylch rheoli parhad busnes yn ystod ac ar ôl argyfwng.

Mae JEPU yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r canlynol yn ystod argyfwng:

- Cydgysylltu cymorth mewn argyfwng yn eu swyddogaethau eu hunain;
- Delio â llifogydd dŵr arwyneb a dŵr codi, a llifogydd o 'afonydd heblaw prif afonydd';
- Gweithio gyda'r ymatebwyr Categori 1 a 2 eraill fel rhan o'r ymateb amlasiantaethol i lifogydd;
- Cydgysylltu cymorth mewn argyfwng o'r sector gwirfoddol;



- Cadw cyswllt ag adrannau llywodraeth ganolog a rhanbarthol;
- Cadw cyswllt â darparwyr gwasanaethau hanfodol;
- Agor Canolfannau Gorffwys;
- Rheoli'r rhwydweithiau cludiant a thraffig lleol;
- Cynnull gweithwyr cymdeithasol argyfwng hyfforddedig;
- Rhoi cymorth mewn argyfwng;
- Delio â materion iechyd amgylcheddol, fel halogiad a llygredd;
- Cydgysylltu'r broses adfer;
- Rheoli materion iechyd y cyhoedd
- Rhoi cyngor a rheoli iechyd y cyhoedd;
- Rhoi cefnogaeth a chyngor i unigolion; a hefyd
- Cynorthwyo gyda pharhad busnes. Rhan fwyfwy pwysig o'r swyddogaeth hon, gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff a mudiadau gwirfoddol, yw annog ffurfio grwpiau argyfwng lleol.

Os digwydd argyfwng llifogydd sylweddol, dylai'r Cyngor allu gwneud y canlynol:

- Cynorthwyo'r gwasanaethau brys gyda gwagio ardaloedd;
- Darparu llety dros dro, gan gynnwys canolfannau bwydo a gorffwys mewn argyfwng;
- Darparu cymorth cymdeithasol a lles i'r diamddiffyn a phobl sy'n dioddef pwysau neu fraw;
- Cynorthwyo darparu manau dal cyrrff a chorffdy dros dro mewn cysylltiad â Heddlu Gogledd Cymru a'r crwner lleol;
- Trefnu ailgartrefu dros dro neu barhaol;
- Delio â pheryglon i iechyd a materion amgylcheddol a rhoi cyngor arnynt;
- Cynorthwyo'r ymateb i faterion iechyd y cyhoedd;
- Sicrhau diogelwch priffyrdd a thraffig a materion cysylltiedig â pheirianneg adeileddol; a hefyd
- Darparu unrhyw wasanaethau eraill sydd ymhlith cyfrifoldebau arferol y Cyngor.

### **6.2.3 Fel Awdurdod Cynllunio**

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn ffiniau gweinyddol y Sir. Caiff dwy brif swyddogaeth yr Awdurdod eu hadlewyrchu yn y strwythur adrannol; Cynllunio at y Dyfodol / Strategol (cynhyrchu ac arolygu Cynllun Datblygu Lleol) a Rheoli Datblygiad.

#### **6.2.3.1 Swyddogaeth Cynllunio Strategol / Polisi Cynllunio**

Ym mis Mehefin 2013, mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cyflwyno'r fframwaith ar gyfer defnyddio a datblygu tir yn y Sir hyd at 2021. Yn gefn iddo mae nifer o Nodiadau Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (SPG) a chyfarwyddiadau datblygu safleoedd i roi cyfarwyddyd manwl ar bolisiau unigol.

Ymgynghorwyd yn rheolaidd â chyrrff statudol, fel Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (y ddau wedi ymdoddi i Gyfoeth Naturiol Cymru [CNC]), ar gynigion neilltuo tiroedd a dynodi safleoedd yn ystod proses llunio'r cynllun. Diffiniwyd sylwadau ar lifogydd, draenio tir a gwarchod natur fel nodweddion pwysig safle wrth asesu addasrwydd i'w ddatblygu.

Fe all tîm y Cynllun Datblygu Lleol hefyd gyfrannu at Reoli Perygl Llifogydd trwy gynhyrchu Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer y Sir neu gylchoedd penodol o'r Sir.

#### **6.2.3.2 Swyddogaeth Rheoli Datblygiad**

Adran Cynllunio a Rheoli Datblygiad y Cyngor sy'n prosesu a phenderfynu ceisiadau cynllunio. Wrth wneud hynny bydd angen iddi ystyried perygl llifogydd a materion draenio dŵr arwyneb er mwyn sicrhau bod cynigion datblygu'n cydymffurfio â dogfennau fel Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherylgl o Lifogydd (TAN 15). Bydd yn cadw cyswllt â CNC, Dŵr Cymru a pheirianwyr draenio ar gynigion o'r fath a bydd yn penderfynu ceisiadau gyda golwg ar eu cyfraniad.

### **6.3 Cwmnïau Dŵr a Charthion**

#### **6.4 Dŵr Cymru**

Mae Dŵr Cymru (DCWW) yn gyfrifol nid yn unig am ddarparu cyflenwad dŵr yn Sir Ddinbych, ond hefyd am wneud trefniadau priodol ar gyfer draenio dŵr aflan, trin gwastraff, carthffosydd dŵr arwyneb a charthffosydd cyfunol. Mae ganddo gyfrifoldeb sylfaenol dros lifogydd o systemau cyflenwi dŵr a charthffosydd, sy'n gallu cynnwys gorlifo carthffosydd, pibelli neu brif bibelli dŵr yn hollti neu lifogydd oherwydd methiant systemau.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar gwmnïau dŵr a charthffosiaeth



Ffigur 7.2: Terfynau Dŵr Cymru (Gogledd a De)

gan gynnwys:

- dyletswydd i weithredu'n gyson â'r Strategaeth Genedlaethol;
- dyletswydd i ystyried cynnwys y Strategaeth Leol berthnasol; a
- dyletswydd i gydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill wrth arfer ei swyddogaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;

Yn aml bydd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn dal gwybodaeth werthfawr a allai cynorthwyo'n fawr dealltwriaeth o'r perygl llifogydd sy'n wynebu cymunedau ar hyd a lled Cymru.

### 6.4.1.1 Dŵr Dyffryn Dyfrdwy



Mae Dŵr Dyffryn Dyfrdwy ccc yn cyflenwi dŵr i ryw 258,000 o gwsmeriaid yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, Caer a Gogledd-orllewin Lloegr gan gynnwys rhannau o Sir Ddinbych (gwelwch Ffigur 7.4 isod). Mae'n gyfrifol am ddarparu 23 miliwn tunnell o ddŵr y flwyddyn dros ardal o 831 cilomedr sgwâr. Fel y cyfryw, mae gan y cwmni gyfrifoldeb sylfaenol am lifogydd o'u systemau dŵr, sy'n gallu cynnwys pibelli neu brif bibelli dŵr yn hollti neu lifogydd oherwydd methiant systemau.

Mae'n ddyletswydd ar Dŵr Dyffryn Dyfrdwy i atal a lleihau colledion a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr. Mae dyletswydd arno hefyd i atal gwastraff a hybu eu cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn effeithlon.




Ffigur 7.3: Terfynau Dŵr Dyffryn Dyfrdwy

#### 6.4.2 Rheoli Perygl Llifogydd

Mae gan gwmnïau dŵr a charthion y cyfrifoldebau canlynol o ran rheoli perygl llifogydd:

- Ymateb i lifogydd sy'n cynnwys eu hasedau;
- Llunio adroddiadau o'r llifogydd;
- Cynnal cofrestr o eiddo mewn perygl llifogydd oherwydd gorlenwi hydrolog yn y rhwydwaith carthffosydd (cofrestr DG5);
- Creu mwy o le mewn carthffosydd i liniaru problemau carthffosydd yn gorlifo ar y gofrestr DG5;
- Darparu, cynnal a gweithredu systemau o garthffosydd a gweithfeydd cyhoeddus at ddiben draenio ardal yn effeithiol;
- Fe all prosesau democrataidd awdurdodau llifogydd lleol arweiniol eu harchwilio;
- Mae'n ddyletswydd arnynt i fabwysiadu carthffosydd preifat; ac
- Mae'n ymgynghorai statudol CCS (pan gaiff ei orfodi) pan fo bwriad i gysylltu'r system ddraenio â'r garthffos gyhoeddus.



Ffigur 7.4 Cyfrifoldebau pibelli carthion

Ar 1<sup>af</sup> Hydref 2012 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros garthffosydd preifat a draeniau ochrol dros nos i ymgwymerwyr carthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, dan adran 42 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu bod carthffosydd sy'n gwasanaethu mwy nag un eiddo a phibelli oddi allan i derfyn eiddo (er enghraifft ar y briffordd) erbyn hyn yn gyfrifoldeb Dŵr Cymru i'w trwsio a'u cynnal. Mae unrhyw bibelli o fewn terfyn yr eiddo sydd ond yn gwasanaethu'r eiddo hwnnw'n aros yn gyfrifoldeb perchennog yr eiddo.

## 6.5 Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Priffyrdd

Mae Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych yn gyfrifol am rwydwaith ffyrdd heblaw cefnffyrdd yn Sir Ddinbych. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gefnffyrdd yng Nghymru; caiff y rhain eu cynnal Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (NMWTRA) yn Sir Ddinbych ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am y rwydwaith priffyrdd i gyd heblaw cefnffyrdd yr A5, yr A55 a'r A494. Cyfanswm hyd ffyrdd y Sir yw 1,475km, sy'n rhannu fel a ganlyn:

- Cefnffyrdd 72 cilomedr
- Ffyrdd pennaf dosbarth A 140 cilomedr

- Ffyrdd eraill dosbarth B ac C 655 cilomedr
- Ffyrdd diddosbarth 608 cilomedr

Mae'r Cyngor wedi diffinio rhwydwaith priffyrdd strategol sy'n cynnwys cefnffyrdd yr A5, yr A55 a'r A494 a'r ffyrdd canlynol y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt:

- yr A525 sy'n rhedeg rhwng gogledd a de drwy'r Sir gan gysylltu'r Rhyl gyda'r A55, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun ac ymlaen i Wrecsam a thu hwnt oddi allan i'r Sir;
- yr A548 sy'n rhedeg ar hyd yr arfordir, rhwng Pensarn ym Mwrdeistref Sirol Conwy (lle mae'n cysylltu â'r A55), drwy'r Rhyl a Phrestatyn at ffin Sir y Fflint ac yna dros Bont Sir y Fflint;
- yr A547 sy'n rhedeg rhwng Abergele ym Mwrdeistref Sirol Conwy (lle mae'n cysylltu â'r A55), drwy Ruddlan, y Ddiserth a Gallt Melyd i Brestatyn;
- yr A5151 sy'n cysylltu'r A525 yn Rhuddlan, gyda'r Ddiserth a'r A55 ger Treffynnon yn Sir y Fflint.
- yr A541 sy'n cysylltu'r A525 yn Nhrefnant â'r Wyddgrug yn Sir y Fflint;
- yr A539 sy'n cysylltu Llangollen â'r A483 a Wrecsam.

Mae holl Awdurdodau Priffyrdd yn Awdurdodau Rheoli Perygl yn ôl FWMA a rhaid iddynt gadw at i'r holl gyfrifoldebau a osodwyd ar awdurdodau rheoli perygl; dyletswydd i gydweithredu gydag awdurdodau rheoli perygl eraill ac awdurdod i dderbyn swyddogaethau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol gan awdurdod rheoli perygl arall pan fydd y ddwy ochr yn gytûn.

Yn ogystal â'u cyfrifoldeb fel awdurdodau rheoli perygl, mae gan awdurdodau priffyrdd ragor o gyfrifoldebau hefyd sy'n cael eu manylu dan y penawdau canlynol:

### **6.5.1 Cyfrifoldeb i Gynnal y Priffyrdd**

Dan Ddeddf Priffyrdd, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Priffyrdd i gynnal y briffordd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod systemau draenio priffyrdd yn glir a bod rhwystrau ar y briffordd yn cael eu clirio, pan fo hynny'n ymarferol o fewn rheswm. Fel rhan o'r ddyletswydd hon, bydd ffyrdd yn cael eu harchwilio a'u cynnal yn rheolaidd.

### **6.5.2 Mabwysiadu SDC**

Ar hyn o bryd mae gan Awdurdodau Priffyrdd y pŵer i fabwysiadu SDC sy'n gwasanaethu'r briffordd trwy Adran 38 o Ddeddf Priffyrdd ond nid oes unrhyw ymrwymiad arnynt i wneud hynny. Dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, bydd gofyn i Awdurdodau Priffyrdd fabwysiadu unrhyw SDC a gymeradwywyd gan y Corff Cymeradwyo SDC sydd o fewn terfynau'r briffordd.

### **6.5.3 Pwerau i wneud gwaith**

Gall yr Awdurdod Priffyrdd wneud gwaith sy'n cael ei ystyried yn angenrheidiol i warchod y briffordd rhag llifogydd. Gall y gwaith hwn fod ar y briffordd neu ar dir a gafwyd gan yr awdurdod priffyrdd wrth arfer pwerau priffyrdd a chaffael i'r diben hwnnw. Fe all Awdurdodau Priffyrdd ddargyfeirio rhannau o gwrs dŵr neu wneud unrhyw waith arall ar unrhyw fath o gwrs dŵr os yw'n angenrheidiol i adeiladu, gwella neu addasu'r briffordd neu er mwyn creu mynedfa newydd o briffordd i unrhyw eiddo.

### 6.5.4 Ymateb i Llifogydd mewn Argyfwng

Os bydd argyfwng neu ddigwyddiad mawr bydd Awdurdod Priffyrdd Sir Ddinbych yn ceisio darparu'r canlynol:

- Dull o gludo pobl trwy ei gysylltiadau â gweithredwyr bysiau, coetsis a thacsis lleol a'r fflyd fewnol i gynorthwyo gyda gwagio ardaloedd a chynorthwyo goroeswyr dianaf ble bu digwyddiad mawr i deithio adref neu i le diogel;
- Cymorth gyda rheoli'r rhwydwaith cludiant i adfer llif traffig oddi wrth ardal y digwyddiad neu os bydd raid gwagio ardal. Mae hyn yn cynnwys darparu cyfarpar fel rhwystrau, conau ac arwyddion a sefydlu a nodi gwriad llwybrau (gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Gontractwyr Gwaith ar y cyd â'r Heddlu) a newid rheolaeth goleuadau traffig i wella llif traffig;
- Defnyddio cyfleusterau Canolfan Rheoli Traffig Sir Ddinbych a chysylltiadau sefydledig gyda'r cyfryngau er mwyn hysbysu staff a'r cyhoedd ar hyd a lled y Sir ynghylch materion cysylltiedig â theithio, ynghyd â systemau canfod i alluogi rheoli traffig ar y rhwydwaith ffyrdd; a
- Dull o archwilio, trwsio neu glirio'r rhwydwaith priffyrdd trwy ddarparu staff, deunyddiau a chyfarpar trwy gontractwyr.





### 6.4.6 Pwerau a Chyfrifoldebau Dinasyddion Sir Ddinbych (Busnesau, Tirfeddianwyr ac Aelwydydd Lleol)

#### Perchenogion Eiddo a Thrigolion

Cyfrifoldeb deiliaid tai a busnesau yw gwarchod eu heiddo rhag llifogydd.

Tra gall sefydliadau neu berchenogion eiddo fod yn atebol, dan rai amgylchiadau, oherwydd esgeuluso eu cyfrifoldebau eu hunain bydd llawer o achlysuron pan fydd llifogydd yn digwydd er bod pawb wedi cyflawni eu cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae'n bwysig bod deiliaid tai, â'u cartrefi mewn perygl llifogydd, yn gweithredu i sicrhau gwarchod eu heiddo. Mae nifer o fesurau y bydd modd eu cymryd i wneud eich eiddo'n fwy gwrthsafol (atal dŵr rhag cael mynediad) a chydnerth (yn fwy parod i ddod ato'i hun) i lifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gweld a yw eich eiddo mewn perygl llifogydd o afon, yr arfordirol neu ffynonellau lleol. Dylai holl aelwydydd ym Mharthau Llifogydd C1 ac C2 (ardaloedd sydd mewn perygl llifogydd o'r arfordir neu o brif afonydd) fod wedi cael eu hysbysu o hyn ac, oni bai eu bod wedi dewis peidio, byddant yn derbyn rhybuddion rhag llifogydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru pan fo perygl mawr llifogydd afonol neu arfordirol. Gwelwch y Map Llifogydd yn [www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk);
- Sicrhau y gwnaed paratodau ar gyfer llifogydd. Mae'r rhain yn cynnwys cofrestru i dderbyn Rhybuddion Gwasanaeth Uniongyrchol Floodline Cyfoeth Naturiol Cymru os oes perygl llifogydd o afonydd, cadw 'pecyn parod' o eitemau hanfodol yn barod a bod â chynllun ar gyfer diffodd cyflenwadau trydan, nwy a dŵr;
- Cymryd mesurau gwrthsafol i sicrhau bod eich tŷ wedi'i warchod rhag llifogydd, naill ai trwy fesurau parhaol fel selwyr yn y mur neu fesurau dros dro fel sachau tywod neu warchodwyr. Gwelwch gyfeiriadur Tudalennau Glas annibynnol y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol: <http://www.bluepages.org.uk>;
- Gall effaith gyfunol pan fydd llawer o bobl yn palmantu eu gerddi blaen gynyddu maint y dŵr ffo sy'n ychwanegu at berygl llifogydd. Gwelwch y daflen 'Canllawiau ar roi arwyneb hydraidd dros erddi blaen': <http://www.communities.gov.uk/publications/planningandbuilding/pavingfrontgardens>;
- Cymryd camau i sicrhau bod tŷ'n dod ato'i hyn ar ôl llifogydd fel nad oes gormod o ddifrod os byddant yn digwydd;
- Ble bynnag y bo modd, bod ag yswiriant llifogydd;
- Os yw carthffosydd dŵr arwyneb ac aflan ar wahân yn gwasanaethu eich eiddo, mae cyfrifoldeb arnoch i ailosod unrhyw bibelli all fod wedi cael eu cysylltu'n anghywir. Er enghraifft, dylai dŵr budr o ddodrefn ymolchi, taclau golchi a'r toiled fynd i'r garthffos aflan i'w drin, neu fe all lygru cyrsiau dŵr. Dylai cwteri a chafnau sy'n casglu dŵr glaw gysylltu â'r garthffos dŵr arwyneb – os cafodd y rhain eu cysylltu'n anghywir â'r garthffos aflan gall llifogydd ddigwydd o'r garthffos aflan. Gwelwch y daflen 'A gysylltwyd eich cartref yn gywir': <http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/pollution/water/31424.aspx>;
- Os ydych yn berchen tir ar lan cwrs dŵr yna rydych berchennog glannau afon ac mae cyfrifoldeb arnoch i drosglwyddo llif heb rwystr na llygredd, gan gynnwys cynnal glannau'r sianel ac unrhyw blanhigion fel eu bod yn aros yn glir o falurion; a

- Hysbysu llifogydd i'r Cyngor i gynorthwyo adeiladu tystiolaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi gwybodaeth am beth i'w wneud i baratoi cartref ar gyfer argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys sut i wneud cynllun llifogydd fydd yn helpu i chi benderfynu pa gamau ymarferol i'w cymryd cyn ac ar ôl llifogydd, fel a ganlyn:

<http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/31624.aspx>

Elusen genedlaethol unsydd i gynorthwyo a chynrychioli cymunedau ac unigolion sydd mewn perygl llifogydd yw'r Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, fel a ganlyn: <http://nationalfloodforum.org.uk/>

Mae gan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol amryw swyddogaethau:

- Helpu pobl baratoi ar gyfer llifogydd er mwyn eu hatal neu liniaru eu heffeithiau;
- Helpu pobl adfer eu bywydau unwaith y byddant wedi dioddef llifogydd; ac
- Ymgyrchu ar ran cymunedau lle mae perygl llifogydd a gweithio gyda'r llywodraeth ac asiantaethau i sicrhau eu bod yn datblygu safbwynt cymunedol.

### 6.4.7 Perchenogaeth Glannau

Mae tirfeddianwyr, deiliaid tai a busnesau sydd ag eiddo ar lannau afon, nant neu ffos yn debygol o fod yn berchenogion y glannau gyda chyfrifoldebau. Mae perchennog glannau afon yn debygol o feddu'r tir hyd at ganol y cwrs dŵr a bydd y Gofrestrfa Tir yn gallu cadarnhau hynny.

Mae gan berchenogion glannau hawl i warchod eu heiddo rhag llifogydd ac erydu ond, yn y rhan fwyaf o achosion bydd angen iddynt drafod sut i wneud hyn gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae ganddynt gyfrifoldeb hefyd dros gynnal gwely a glannau'r cwrs dŵr a sicrhau nad oes dim yn rhwystro, dargyfeirio na llygru llif y cwrs dŵr. Mae manylion llawn i'w cael yn nogfen Asiantaeth yr Amgylchedd '*Byw ar yr Ymyl: Arweiniad i'ch hawliau a chyfrifoldebau perchennogaeth min afon*' yn:

<http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/31626.aspx>

### 6.4.8 Darparwyr Gwasanaethau ac Isadeiledd

Yn Sir Ddinbych mae'r rhan fwyaf o'r asedau amddiffyn yn gyfrifoldeb CSDd, Network Rail neu berchenogion tir preifat. Mae gan ddarparwyr gwasanaethau ac isadeiledd fel Network Rail, cwmnïau ynni a chwmnïau telathrebu ran hanfodol i'w chwarae wrth reoli perygl llifogydd oherwydd bod eu hasedau'n gallu bod yn ystyriaeth bwysig wrth gynllunio ar gyfer llifogydd.

Ar ben hynny gallant fod ag asedau fel cylfatiau, y mae angen rhannu gwybodaeth amdanynt gydag awdurdodau rheoli perygl llifogydd. Maent eisoes yn cynnal cynlluniau ar ddatblygu a chynnal y gwasanaethau a ddarparant at y dyfodol ac mae'n bwysig eu bod yn cynnwys materion rheoli perygl llifogydd yn y broses gynllunio hon. Bydd hyn yn sicrhau bod eu hasedau a systemau'n gydnerth o ran perygl llifogydd ac arfordirol a bod modd cynnal y safon gwasanaeth fynol os bydd digwyddiad.

### 6.4.9 Ymgymerydd Cronfeydd Dŵr

Dinasyddion sy'n berchenogion neu'n gweithredu cronfa ddŵr sydd â'r cyfrifoldeb eithaf dros ddiogelwch a chynhaliaeth y gronfa ddŵr. Dan FWMA, rhaid i holl ymgymerydd gyda chronfeydd dŵr dros 10,000m<sup>3</sup> gofrestru eu cronfeydd dŵr gyda'r CNC a rhaid i holl ymgymerydd hysbysu unrhyw llifogydd. Mae perchennog y gronfa ddŵr yn gyfrifol am gynhyrchu cynlluniau argyfwng ar y safle sy'n manylu sut fydd perchennog y gronfa'n ymateb i bosiblwydd neu fethiant y gronfa ddŵr mewn gwirionedd. Rhaid i holl

ymgymerwyr baratoi cynllun llifogydd cronfa ddŵr. Mae'n arfer da i holl gronfeydd dŵr fod â chynlluniau ar y safle a chaiff holl berchenogion cronfeydd dŵr eu hannog i baratoi un.

### 6.5 Cyrff Eraill

Mae llawer o gyrff eraill sy'n chwarae rhan bwysig wrth reoli perygl llifogydd. Erbyn hyn mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth wedi ymuno ag Asiantaeth yr Amgylchedd i ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru, a Cadw yw cynghorwr y Llywodraeth ar etifeddiaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig.

Mae gan y Swyddfa Feteorolegol, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (Glandŵr Cymru) (Dyfrffyrdd Prydain gynt), darparwyr cludiant a gwasanaethau bob un medrusrwydd a/neu isadeiledd pwysig all effeithio ar reoli perygl llifogydd.

Mae llawer o sefydliadau anllywodraethol hefyd sy'n cyfrannu at reoli perygl llifogydd, gan gynnwys:

- Cymdeithas Yswirwyr Prydeinig;
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB);
- Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Lleol;
- Coed Cadw;
- Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio;
- Ymgynghorwyr a chontractwyr peirianyddol;
- Fforwm Llifogydd Cenedlaethol;
- Y Groes Goch;
- Byddin yr Iachawdwriaeth;
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad;
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr;
- Canolfan Adfer Afonydd; a
- Network Rail.

## 7 Amcanion a Mesurau Lleol

Mae'r canlynol yn dangos amcanion sylfaenol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar hyd a lled Sir Ddinbych. Bydd mesurau'n cael eu cynnig i gyflawni'r amcanion hyn a bydd ymchwil yn cael ei gwneud i'r ffynonellau arian all fod ar gael i weithredu'r mesurau.

Lluniwyd yr amcanion i gyd-fynd â pholisi ehangach y Llywodraeth gydag amserlen ymarferol ar gyfer eu cyflawni, a allai gynnwys eu hamseru dros amryw gylchoedd strategaeth rheoli perygl llifogydd. Mae'n bwysig bod y broses, mesurau a chamau gweithredu i gyflawni'r amcanion yn ymarferol ac yn cael cefnogaeth holl adrannau a phartneriaid a rhanddeiliaid fel ei gilydd. Dylai fod cysylltiadau dangosadwy rhwng amcanion a'u cyfraniad at roi sylw i flaenoriaethau lleol, mewn ardaloedd a allai fod yn agored i lifogydd.

### 7.1 Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych

Bydd yr amcanion yn pennu gweledigaeth y Cyngor a'i bartneriaid o sut mae'n bwriadu rheoli perygl llifogydd lleol.

Dylai amcanion y Strategaeth Leol hefyd ystyried Cynllun Corfforaethol Sir Ddinbych sy'n dangos blaenoriaethau allweddol y Cyngor yn ystod y pum mlynedd nesaf (2012 – 2017). Mae'r Cynllun Corfforaethol wedi cynhyrchu amcanion a gweithgareddau gwella, a neilltuwyd i'r Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol eu gweithredu.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar strategaethau lleol yn datgan y dylid datblygu amcanion strategol lefel uchel cysylltiedig â lleihau canlyniadau andwyol i iechyd dynol, yr amgylchedd, etifeddiaeth ddiwylliannol a gweithgarwch economaidd a allai ddeillio o lifogydd. Trwy fabwysiadu'r dull hwn, bydd yr amcanion yn cyd-fynd â'r rhai gofynnol dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 ac yn helpu sicrhau bod yr agwedd gyffredin hon yn cael ei chynnal ar hyd a lled Cymru.

Mae hefyd yn awgrymu bod yr amcanion manylach yn rhoi cyfle i LLFA ddal a chofnodi amcanion hirdymor a byrdymor gan gynnwys a chofio'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes fel cynnal a chadw rheolaidd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi awgrymu y dylai'r LLFA ystyried amcanion dan bob un o'r tri phennawd allweddol: cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae amcanion CSDd ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn Sir Ddinbych yn cyd-fynd â'r amcanion cenedlaethol ac maent yn cael eu rhestru drosodd:

### **Amcanion Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Sir Ddinbych:**

- Lleihau canlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- Tynnu sylw pobl at berygl llifogydd ac erydu arfordirol a'u cael i ymwneud â'r ymateb iddynt;
- Ymateb yn effeithiol a chyson i lifogydd ac erydu arfordirol; a
- Rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y cymunedau sydd yn y perygl mwyaf.

### **7.2 Canlyniadau'n Deillio o Amcanion Cyngor Sir Ddinbych:**

1. Deall perygl llifogydd lleol yn well;
2. Sicrhau bod cymunedau lleol yn deall eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â rheoli perygl llifogydd lleol;
3. Gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Perygl a rhanddeiliaid eraill;
4. Rheoli perygl llifogydd cysylltiedig â chynigion datblygu newydd yn weithredol;
5. Annog cynnal asedau amddiffyn rhag llifogydd a draenio preifat yn rhagweithiol a chyfrifol;
6. Archwilio cyfleoedd i leihau goferiad dŵr arwyneb o'r dalgylchoedd uchaf a dal llifogydd mewn gorlifdiroedd;
7. Nodi prosiectau rheoli perygl llifogydd fforddiadwy a chynaliadwy; a
8. Sicrhau bod gwybodaeth FRM lleol yn cyd-fynd â threfnau cynllunio'r Cyngor at argyfwng.

Mae CSDd wedi gwneud asesiad ar ffurf matrices cydnawsedd i sicrhau bod yr amcanion a chanlyniadau dethol hyn yn cyd-fynd ag amcanion y Strategaeth Genedlaethol, canllawiau Strategaethau Lleol a phenawdau allweddol CNC. Dengys y matrices hefyd pa amcanion sy'n amcanion hirdymor a byrdymor ac mae i'w weld yn Nhabl 8.1 isod:

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Tudalen 142

| Rhif y Canlyniad | Canlyniad LFRMS<br>Cyngor Sir Ddinbych  | Pedwar Amcan Trosfwaol y Strategaeth Genedlaethol |  |                                     |                              | Penawdau Allweddol CNC |              |            | Tymor Hir (H)<br>neu<br>Dymor Byr (B) |
|------------------|---|---|--|-------------------------------------|------------------------------|------------------------|--------------|------------|---------------------------------------|
|                  |   | Lleihau<br>canlyniadau                            | Tynnu sylw<br>pobl a'u cael<br>i gyfranogi | Ymateb yn<br>effeithiol a<br>chyson | Blaenoriaethu<br>buddsoddiad | Amgylcheddol           | Cymdeithasol | Economaidd |                                       |
| 1                | Gwella dealltwriaeth  | ✓   | ✓  |                                     |                              | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 2                | Sicrhau bod cymunedau lleol yn<br>deall eu cyfrifoldebau                                | ✓   | ✓  |                                     |                              | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 3                | Gweithio mewn partneriaeth  | ✓   | ✓  | ✓                                   | ✓                            | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 4                | Rheoli perygl llifogydd cysylltiedig<br>â chynigion datblygu newydd                     | ✓   | ✓  | ✓                                   | ✓                            | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 5                | Annog cynnal amddiffynfeydd<br>preifat rhag llifogydd                                   | ✓   | ✓  |                                     | ✓                            | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 6                | Archwilio cyfleoedd i leihau<br>goferiad dŵr arwyneb                                    | ✓   | ✓  | ✓                                   | ✓                            | ✓                      | ✓            | ✓          | B                                     |
| 7                | Nodi prosiectau rheoli perygl<br>llifogydd fforddiadwy a<br>chynaliadwy                 | ✓   |  |                                     | ✓                            | ✓                      | ✓            | ✓          | H                                     |
| 8                | Sicrhau bod gwybodaeth leol yn<br>cyd-fynd â threfnau cynllunio'r<br>Cyngor at argyfwng | ✓   | ✓  |                                     |                              | ✓                      | ✓            |            | B                                     |

Tabl 7.1: Matrics i ddangos y cysylltiadau rhwng amcanion Strategaeth Leol CSDd, amcanion

Canlyniad byrdymor: 0 - 20 mlynedd

Canlyniad hirdymor: 20 - 100 mlynedd

### 7.3 Mesurau Posibl

Mae modd diffinio mesur fel gweithgaredd fydd yn cael ei wneud i reoli perygl a chyflawni'r amcanion a gytunwyd. Mae canllawiau Strategaethau Lleol yn datgan y dylid ystyried amrywiaeth eang o fesurau yn y tymor byr (0-20 mlynedd), canolig (20-50 mlynedd) a hir (50-100 mlynedd). Dylai'r rhain gynnwys gweithgareddau adeileddol a gweithgareddau eraill, gydag enghreifftiau ohonynt yn Nhabl 8.2 isod:

| Mesurau Adeileddol  | Mesurau Eraill   |
|---|--|
| <p>Muriau llifogydd;<br/>                     Argloddiau llifogydd;<br/>                     Sgriniau sothach;<br/>                     Rhwystrau llifogydd tynadwy;<br/>                     Nodweddion dal llifogydd.</p> | <p>Systemau rhybuddio rhag llifogydd;<br/>                     Gweithdai ymwybyddiaeth a pharodrwydd y cyhoedd;<br/>                     Ymgysylltu â'r gymuned;<br/>                     Cynlluniau Rheoli Dŵr Arwyneb.</p> |

Tabl 8.2: Enghreifftiau o weithgareddau adeileddol a gweithgareddau eraill

Caiff mesurau fydd yn cyflawni buddiannau lluosog, fel buddiannau ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac amwynder yn cael eu hybu a dylid eu hyrwyddo ble bynnag y bo modd.

Mae canllawiau'r Strategaeth Leol hefyd yn pennu y dylai holl LLFA ystyried mesurau dan y themâu lefel uchel canlynol:

- Cynllunio ac addasu datblygiad (yn cwmpasu datblygiadau / tirweddau newydd ac addasiadau i rai presennol);
- Rhagweld, rhybuddio ac ymateb i lifogydd;
- Rheoli tir, diwylliant a'r amgylchedd;
- Rheoli a chynnal asedau;
- Astudiaethau, asesiadau a chynlluniau;
- Ymwybyddiaeth ac ymgysylltu lefel uchel (i gynyddu cydnerthedd unigol a chymunedol); ac
- Arolygu (materion perygl llifogydd lleol).

Pan fo hynny'n ymarferol a phan fydd adnoddau ar gael byddai, CSDd yn hoffi cyflawni'r mesurau canlynol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn Sir Ddinbych yn amodol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru.

**Deall perygl llifogydd lleol yn well;**

| Mesur 1.1 Nodi asedau draenio a llifogydd a datblygu system rheoli asedau   |   |
|---|---|
| <p>Mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych gadw cofrestri asedau (at ddefnydd y cyhoedd) a chofnodion asedau (at ddefnydd awdurdodau rheoli perygl) ar gyfer adeileddau a nodweddion sy'n cael eu hystyried fod ganddynt effaith sylweddol ar berygl llifogydd.</p> <p>Bydd CSDd yn ceisio creu ei chronfa ddata asedau ei hun o adeileddau sy'n cael eu hystyried yn bwysig i berygl llifogydd. Pan fo'r asedau hyn yn eiddo CSDd, bydd cynlluniau rheoli asedau'n cael eu datblygu ar gyfer eu harchwilio a'u cynnal (os nad ydynt yn bodoli eisoes).</p> <p>Mae cynlluniau CSDd yn ymroi i gofnodi asedau perthnasol i berygl llifogydd, gan ddefnyddio trefniadau Cydsynio Cyrsiau Dŵr Cyffredin, archwilio llifogydd, Proses Ceisiadau Cynllunio ac, yn y dyfodol, ei sefyllfa fel Corff Cymeradwyo SDC i ymestyn ei reolaeth dros gofnodion asedau trwy ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Gofyniad statudol   |
| <b>Cyllid</b>   | Mae angen buddsoddiad ar gyfer meddalwedd ychwanegol  |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Deall llifau dŵr arwyneb yn well yn systemau draenio'r Cyngor ac eraill yn deillio o lai o ddryswch ynghylch perchenogaeth asedau.</p> <p>Trwy'r gwelliant hwn, bydd y Cyngor yn gallu gwneud cynlluniau perygl llifogydd lleol mwy deallus.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Dylai pethau cyflwynadwy fod yn gyflawn erbyn 2015 gyda gweithredu cymesur erbyn 2017 (pennwyd gan Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru).   |

| Mesur 1.2 Dynodi nodweddion rheoli perygl llifogydd  |   |
|--|---|
| <p>Gwnaeth Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr CSDd yn 'Awdurdod Dynodi' gyda'r pŵer i ddynodi adeiledd (nodwedd wneud neu naturiol o'r amgylchedd mewn perchenogaeth breifat). Os bydd CSDd yn nodi y gallai adeiledd neu nodwedd effeithio ar berygl llifogydd lleol, ni all neb wedyn wneud unrhyw waith ar y nodwedd neu adeiledd dynodedig heb yn gyntaf gael caniatâd CSDd.</p> |   |
| <b>Statws</b>  | Pŵer caniatool  |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Osgoi'r perygl y bydd rhywun yn difrodi neu'n dileu adeiledd neu nodwedd ar dir preifat y mae dibyniaeth arno i reoli perygl llifogydd.</p> <p>Sicrhau bod cofnodion adeileddau / nodweddion arwyddocaol i berygl llifogydd yn cael eu cofnodi a'u harolygu'n ffurfiol.</p> <p>Bydd adeileddau neu nodweddion dynodedig yn cael eu cofrestru yn y Gofrestr Pridiannau Tir Lleol.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd   |



### Mesur 1.3 Cofnodi a mapio llifogydd

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dynodi Cyngor Sir Ddinbych fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA), gyda dyletswydd i asesu'r perygl llifogydd yn y Sir. Er mwyn creu darlun manwl gywir o berygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych mae angen casglu cofnodion cywir a defnyddiol o lifogydd sy'n digwydd ymhob rhan o'r Sir.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Dyletswydd FWMA   |
| <b>Cyllid</b>     | Posibilrwydd y bydd angen buddsoddi mewn meddalwedd mapio.  |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd y mesur yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych.<br>Bydd safon uwch o ddata llifogydd ar gael y bydd modd eu defnyddio mewn astudiaethau ac asesiadau dilynol. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd   |

### Mesur 1.4 Cynnal archwiliadau llifogydd

Bydd CSDd yn cofnodi ac ymchwilio llifogydd sylweddol ac yna'n cyhoeddi'r manylion yn unol ag Adran 19 o FWMA. Rhaid i'r ymchwiliad nodi pa awdurdodau rheoli perygl sydd â swyddogaethau rheoli perygl llifogydd perthnasol ac a ydynt wedi arfer y swyddogaethau hynny'n briodol mewn ymateb i'r digwyddiad.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Gofyniad statudol   |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd y mesur yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych.<br>Bydd safon uwch o ddata llifogydd ar gael y bydd modd eu defnyddio mewn astudiaethau ac asesiadau dilynol. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd   |

**Mesur 1.5 Datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer ardaloedd lle mae cryn berygl llifogydd**

Mae Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) yn gofyn bod Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn paratoi a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd erbyn mis Rhagfyr 2015 pan fo berygl llifogydd lleol yn sylweddol fel y nodwyd yn yr Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA). Bydd Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn ceisio asesu, mapio a datblygu cynlluniau gweithredu i reoli perygl llifogydd.

Y gofyniad statudol yw dim ond cynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer yr ardal lle mae perygl llifogydd a nodwyd fel rhan o'r PFRA. Fodd bynnag, nid oedd yr asesiad PFRA yn cynnwys rhai ardaloedd lle'r oedd perygl mawr oherwydd y cyfyngiadau cenedlaethol. Teimlad CSDd yw y dylid cynnwys holl ardaloedd lle mae cryn berygl llifogydd yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ac, felly, mae'n bwriadu paratoi'r cynllun ar gyfer ei diriogaeth weinyddol.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau<br>(Mae'n ofyniad statudol ar y LLFA lle nodwyd 'Ardaloedd Perygl Llifogydd' o fewn ffin y Sir dan FRR 2009)   |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd y mesur yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych.<br><br>Bydd safon uwch o ddata llifogydd ar gael y bydd modd eu defnyddio mewn astudiaethau ac asesiadau dilynol. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd   |

**Mesur 1.6 Datblygu Cynghrair Dysgu Gweithredu rhanbarthol mewn partneriaeth â LLFA cyfagos, awdurdodau rheoli perygl llifogydd ac arbenigwyr eraill yn y sectorau preifat a chyhoeddus i rannu gwybodaeth am ddulliau rheoli perygl llifogydd**

Bydd CSDd yn ymdrechu i gydweithredu gydag awdurdodau rheoli perygl eraill a rhanddeiliaid ar swyddogaethau newydd a phrosiectau a all fod yn y dyfodol sy'n gynhyrchion y LFRMS i sefydlu a hwyluso arferion gorau, cysondeb dehongli a chydweithio.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Dim goblygiad   |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd y mesur yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych.<br><br>Mae gweithio ar y cyd yn osgoi ailadrodd ymdrechion a buddsoddiad ymhlith RMA.<br><br>Mae'n galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl rhanbarthol a'r camau sydd eu hangen i'w reoli. |
| <b>Amserlenni</b> | Cyfredol  |

**Sicrhau bod cymunedau lleol yn deall eu cyfrifoldebau mewn cysylltiad â rheoli perygl llifogydd lleol**

| Mesur 2.1 Cyhoeddi strategaeth eglur a'i chyfathrebu   |  |
|--|--|
| <p>Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA), mae gofyn i Gyngor Sir Ddinbych (CSDd) baratoi Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Diben y Strategaeth Leol yw rhoi sylw i berygl llifogydd all ddeillio o ffynonellau lleol o fewn terfynau tiriogaeth yr Awdurdod. Rhan bwysig o'r Strategaeth Leol fydd sicrhau bod ein cymunedau'n ymwybodol o ba berygl sy'n bodoli, yn ymwybodol o beth yw cyfrifoldebau'r Cyngor ac Awdurdodau eraill Rheoli Perygl o ran perygl llifogydd a'r pethau y gall cymunedau wneud drostynt eu hunain.</p> |  |
| <b>Statws</b>  | Gofyniad statudol  |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol  |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Bydd y strategaeth yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych trwy gyflawni'r amcanion a gweithredu'r mesurau.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Perygl.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Drafft cyntaf 2013, wedi hynny'n barhaol gydag adolygiadau rheolaidd   |

| Mesur 2.2 Datblygu strategaeth gyfathrebu i wella gwybodaeth rhanddeiliaid  |   |
|---|---|
| <p>Mae modd cyfleu perygl llifogydd a chynyddu ymwybyddiaeth yn y byrdymor. Bydd hyn yn golygu bod rhanddeiliaid yn fwy yn ymwybodol o'r perygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych, yr hyn a wna'r Cyngor i leihau'r perygl hwn ac annog gweithredu'n fwy rhagweithiol ac ar y cyd wrth reoli perygl llifogydd.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Mwy o ddealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd   |

| <b>Mesur 2.3 Datblygu tudalen rheoli perygl llifogydd unswydd ar wefan y Cyngor</b>   |   |
|---|---|
| <p>Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) i rybuddio a hysbysu ei drigolion ynghylch y perygl a goblygiadau'r perygl hwnnw cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw ddigwyddiad. Mae gwefan y Cyngor yn dal y wybodaeth hon a dolenni i ragor o ffynonellau gwybodaeth mewn cysylltiad â llifogydd.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Dyletswydd dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) estynedig gydag arferion gorau   |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad<br>Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol  |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Mwy o ddealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

| <b>Mesur 2.4 Cyhoeddi a dosbarthu gwybodaeth sy'n egluro cyfrifoldebau, perygl llifogydd lleol, gwarchod eiddo a chydnerthedd</b>   |  |
|---|--|
| <p>Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) i rybuddio a hysbysu ei drigolion ynghylch y perygl a goblygiadau'r perygl hwnnw cyn, yn ystod ac ar ôl unrhyw ddigwyddiad.</p> <p>Bydd y mesur hwn yn ceisio annog perchenogion eiddo i osod mesurau unigol i warchod eu cartrefi rhag llifogydd. Bydd y mesur hefyd yn ceisio tynnu sylw at y technegau y byddai modd eu defnyddio wrth atgyweirio eiddo sy'n dioddef llifogydd mynych er mwyn lleihau difrod yn y dyfodol. Bydd cynyddu gallu eiddo i wrthsefyll llifogydd yn lleihau difrod oherwydd unrhyw ddŵr sy'n mynd iddo.</p> |  |
| <b>Statws</b>   | Dyletswydd dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) estynedig gydag arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad<br>Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

| Mesur 2.5 Cael cymunedau lleol i ymwneud ag arweiniadau a chynlluniau lleol  |  |
|--|--|
| <p>Mae'n sylfaenol bod cymunedau'n ymwneud â llunio gwasanaethau effeithiol a chynorthwyo cael canlyniadau cadarnhaol i Sir Ddinbych. Mae'n bwysig nid yn unig yn gymdeithasol, ond yn economaidd; trwy gynnwys cymunedau bydd trigolion yn dod yn gyfranogwyr gweithredol wrth gyfrannu at y broses benderfynu, gallwn feithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd, cydweithio i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon a chost-effeithiol a chael mwy o effaith trwy ddefnyddio adnoddau'n well.</p> |  |
| <b>Statws</b>  | Arferion gorau   |
| <b>Cyllid</b>  | Cyllid Prosiect – posibilrwydd cyllid allanol  |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Bydd CSDd yn elwa ar sgiliau, galluedd, gwybodaeth arbenigol ac adnoddau unigolion a grwpiau mewn cymuned. Mae hyn yn cynnwys adnoddau ffisegol ond yn enwedig adnoddau pobl.</p> <p>Mae'n bwysig cefnogi a datblygu dealltwriaeth, hyder a sgiliau cymunedau.</p> <p>Bydd yn meithrin cysylltiadau newydd a gwell gyda chymunedau, gan annog iddynt wneud penderfyniadau deallus, lleihau dibyniaeth, galluogi iddynt wneud penderfyniadau eu hunain pan fo hynny'n briodol a defnyddio eu cyfranogiad fel arall i ysbrydoli cynllunio a sicrhau bod gwell penderfyniadau'n cael eu gwneud ar ran cymunedau.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

**Mesur 2.6 Hyrwyddo a Chefnogi Cynlluniau Llifogydd Cymunedol**

Bydd cwblhau cynllun llifogydd cymunedol yn helpu aelodau'r gymuned a grwpiau gynllunio sut y gallant weithio gyda'i gilydd i ymateb yn gyflym pan fydd llifogydd yn digwydd. Dylai'r cynllun llifogydd gynnwys yr holl wybodaeth y byddwch ei hangen cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd. Mae gwybodaeth fanwl ynghylch sut i ddatblygu cynllun llifogydd cymunedol ar gael oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r asiantaeth arweiniol ar ddatblygu cynllunio cymunedol ar gyfer llifogydd yng Nghymru ac mae Sir Ddinbych wedi gweithio'n agos gyda'r asiantaeth ar ddatblygu cynlluniau ar gyfer cymunedau dynodedig yn y Sir. Seiliwyd y cymunedau dethol ar asesiad o berygl llifogydd o brif afonydd; fodd bynnag, pan fydd cynllunio'n dechrau bydd yn ystyried pob math o lifogydd. Nod y cynlluniau llifogydd cymunedol yw datblygu cymunedau cydnerth, ymwybodol a threfnus pan fyddant yn wynebu llifogydd yn eu hardaloedd.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion Gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad   |
| <b>Buddiannau</b> | <p>Y bobl gyntaf i ymateb i unrhyw lifogydd yw'r cymunedau eu hunain. Bydd ymateb strwythuredig parod yn gwella cyflymder ac ansawdd a'r gobaith yw y bydd yn lleihau'r perygl ac effaith.</p> <p>Mae buddiannau lluosog yn deillio o gydweithio fel cymuned neu grŵp yn y maes. Gall wella cyfathrebu cyn, yn ystod ac ar ôl llifogydd, gan sicrhau bod y bobl iawn yn gynwysedig ar yr adeg iawn. Mae pobl leol yn ymwybodol o'u perygl a phwy sy'n ddiamddiffyn yn eu cymunedau'n well nag unrhyw asiantaeth ymatebol a byddant yn y lle gorau i ymateb a chynorthwyo. Byddant hefyd yn gallu rhoi gwybodaeth i asiantaethau os byddant yn mynychu'r digwyddiad.</p> |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Mesur 2.7 Hyrwyddo a chefnogi cydnerthedd seiliedig ar eiddo**

Bydd y mesur hwn yn ceisio hybu a thynnu sylw at y technegau y byddai modd eu defnyddio wrth atgyweirio eiddo sy'n dioddef llifogydd mynych er mwyn lleihau difrod yn y dyfodol. Bydd cynyddu'r gallu i wrthsefyll llifogydd yn lleihau difrod oherwydd unrhyw ddŵr sy'n mynd i'r eiddo.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad<br>Cyllid Prosiect – posibilrwydd cyllid allanol  |
| <b>Buddiannau</b> | Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.<br>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Mesur 2.8 Ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd**

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i hysbysu ei drigolion ynghylch perygl a goblygiadau llifogydd. Rhan bwysig o'r Strategaeth Leol fydd sicrhau bod ein cymunedau'n ymwybodol o ba berygl sy'n bodoli, yn ymwybodol o beth yw chyfrifoldebau'r Cyngor ac Awdurdodau eraill Rheoli Perygl o ran perygl llifogydd a'r pethau y gall cymunedau wneud drostynt eu hunain. Bydd ymweld ag ysgolion yn helpu tynnu sylw at berygl llifogydd yn yr ystafell ddosbarth a chynnal gweithdai lle gallai plant ddysgu am beryglon llifogydd, a chael gwybodaeth ymarferol ynghylch sut i baratoi pecyn llifogydd. Yna gall plant drosglwyddo gwybodaeth i'w rhieni. Fe all CSDd hefyd weithio gyda phenaethiaid yr ysgolion i sicrhau bod cynllun ysgol ar gyfer llifogydd yn gwarchod holl staff a disgyblion.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b> | Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.<br>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Mesur 2.9 Achlysur blynyddol tynnu sylw at lifogydd a/neu sioe deithiol tynnu sylw at lifogydd**

Trwy gynyddu ymwybyddiaeth y gymuned a chyfathrebu'n effeithiol gyda chymunedau lleol bydd CSDd yn gallu gosod disgwyliadau rhesymol a chanlyniadau cyraeddadwy ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol. Mae CSDd yn bwriadu mynd ati i hysbysu'r rhai sydd mewn perygl o lifogydd lleol a'u cynghori ynghylch pa gamau i'w cymryd.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth bresennol / Swyddogaeth newydd – Posibilrwydd goblygiad cyllidol  |
| <b>Buddiannau</b> | <p>Mae'r Llywodraeth yn credu bod cyhoedd gwybodus yn gallu ymateb yn well i argyfwng a lleihau effaith yr argyfwng ar y gymuned. Bydd hysbysu'r cyhoedd gystal ag y gallwn yn meithrin eu hymddiried. Bydd hefyd yn helpu lleihau amhariad a gwella / esmwytho'r ymateb i unrhyw lifogydd.</p> <p>Mae poblogaeth ymwybodol yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a threfnu mesurau lliniaru cyn i'r sefyllfa godi.</p> <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.</p> |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Mesur 2.10 Hyrwyddo a Chefnogi PentrePeryglon**

Canolfan gweithgaredd addysgol dan do unigryw yw PentrePeryglon yn Nhalacre. Dyluniwyd PentrePeryglon i ysbrydoli, hysbysu ac ymgysylltu â grwpiau. Mae'n ffordd ragorol o ddysgu sgiliau byw hanfodol i blant a'r gymuned gan gynnwys paratoi ar gyfer llifogydd a delio â hwy.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b> | <p>Mae poblogaeth ymwybodol yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a threfnu mesurau lliniaru cyn i'r sefyllfa godi.</p> <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid.</p> |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |



**Mesur 2.11 Mynd ati i ymwneud â'r sector llifogydd preifat i ddatblygu technegau arloesol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth**

Trwy gynyddu ymwybyddiaeth y gymuned a chyfathrebu'n effeithiol gyda chymunedau lleol bydd CSDd yn gallu gosod disgwyliadau rhesymol a chanlyniadau cyraeddadwy ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol. Trwy gydweithredu gyda'r sector preifat, gall CSDd gynnig technegau newydd a gwell i gynyddu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd. Mae'r sector preifat yn enwog am ei arloesi, ei effeithlonrwydd a'i allu a byddai CSDd yn hoffi gweithio gyda'r sector i greu syniadau arloesol ar gyfer y Cyngor a'i drigolion.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd CSDd yn elwa ar sgiliau, galluoedd, medrusrwydd ac adnoddau'r sector llifogydd preifat.<br><br>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod.<br><br>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a rhanddeiliaid**

| Mesur 3.1 Gweithio'n agos gydag Adnoddau Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i ddatblygu atebion cost-<br>effeithiol i faterion llifogydd  |   |
|---|---|
| Bydd CSDd yn ymdrechu i gydweithredu ag awdurdodau rheoli perygl eraill ar swyddogaethau newydd a phrosiectau a all fod yn gynhyrchion y LFRMS yn y dyfodol. Sefydlwyd Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Gogledd Cymru i hyrwyddo arferion gorau, cysondeb dehongli a chydweithio. |   |
| <b>Statws</b>   | Arferion gorau dan FWMA   |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad   |
| <b>Buddiannau</b>   | Bydd CSDd yn elwa ar sgiliau, galluedd, medrusrwydd ac adnoddau'r RMA eraill.<br>Mae gweithio ar y cyd yn osgoi ailadrodd ymdrechion a buddsoddiad ymhlith RMA.<br>Mae'n galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl rhanbarthol a'r camau sydd eu hangen i'w rheoli.<br>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid. |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |
|   |   |

**Rheoli perygl llifogydd cysylltiedig â chynigion datblygu newydd yn weithredol**

| <b>Mesur 4.1 Datblygu a chymhwyso polisi lleol cadarn ar ddraenio safleoedd datblygu newydd</b>   |   |
|---|---|
| <p>Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn bod gan ddatblygiadau newydd ac ailddatblygiadau yng Nghymru a Lloegr gynlluniau draenio ar gyfer dŵr ffo sy'n gymeradwy i'r CCS pan fyddai goblygiadau draenio i'r gwaith adeiladu.</p> <p>Mae'r mesur hwn ar gyfer rheoli draenio ar ddatblygiadau newydd, er mwyn sicrhau osgoi, neu leihau, effeithiau andwyol unrhyw berygl amgylcheddol cysylltiedig â llifogydd ar ddefnydd tir y dyfodol.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Gofyniad statudol a dyletswydd i hyrwyddo a rheoli Draenio Cynaliadwy   |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol / Swyddogaeth newydd – Posibilrwydd goblygiad cyllidol  |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Mae datblygwyr yn elwa ar arweiniad eglur.</p> <p>Arafu dŵr ffo fydd yn lleihau llifogydd ymhellach i lawr.</p> <p>Gwella gwerth amwynderol, amgylcheddol ac esthetig safleoedd.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

| <b>Mesur 4.2 Datblygu proses gyda'r Adran Gynllunio i greu cyngor a chyfarwyddyd eglur i ddatblygwyr ar FRM a Draenio. Annog datblygwyr i fabwysiadu agwedd 'arferion gorau' at ddraenio safle</b>  |   |
|---|---|
| <p>Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gofyn bod gan ddatblygiadau newydd ac ailddatblygiadau yng Nghymru a Lloegr gynlluniau draenio ar gyfer dŵr ffo sy'n gymeradwy i'r CCS pan fyddai goblygiadau draenio i'r gwaith adeiladu.</p> <p>Mae'r mesur hwn ar gyfer rheoli draenio ar ddatblygiadau newydd, er mwyn sicrhau osgoi, neu leihau, effeithiau andwyol unrhyw berygl amgylcheddol cysylltiedig â llifogydd ar ddefnydd tir y dyfodol.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Gofyniad statudol a dyletswydd i hyrwyddo a rheoli Draenio Cynaliadwy   |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol / Swyddogaeth newydd – Posibilrwydd goblygiad cyllidol  |
| <b>Buddiannau</b>   | <p>Mae datblygwyr yn elwa ar arweiniad eglur.</p> <p>Arafu dŵr ffo fydd yn lleihau llifogydd ymhellach i lawr.</p> <p>Gwella gwerth amwynderol, amgylcheddol ac esthetig safleoedd.</p> |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Annog cynnal asedau amddiffyn rhag llifogydd a draenio preifat yn gyfrifol a rhagweithiol**

| Mesur 5.1 Nodi'r asedau amddiffyn rhag llifogydd a draenio preifat sydd yn y perygl mwyaf  |   |
|--|---|
| <p>Mae gofyn i CSDd gadw cofrestrï asedau (at ddefnydd y cyhoedd) a chofnodion asedau (at ddefnydd awdurdodau rheoli perygl) ar gyfer adeileddau a nodweddion sy'n cael eu hystyried i fod ag effaith sylweddol ar berygl llifogydd. Nid oes unrhyw ddiffiniad ffurfiol o bryd y bydd ased yn cael 'effaith sylweddol' ond bydd yn cael ei benderfynu'n bennaf ar hanes llifogydd y safle a pha mor agored i niwed yw unrhyw isadeiledd fydd yn debygol o gael ei effeithio oherwydd methiant o'r ased.</p> <p>Mae CSDd yn bwriadu bod yn rhagweithiol wrth gofnodi asedau perthnasol i berygl llifogydd, gan ddefnyddio trefniadau Cydsynio Cyrsiau Dŵr Cyffredin, archwilio llifogydd, Proses Ceisiadau Cynllunio ac, yn y dyfodol, ei swyddogaeth fel CCS i ymestyn ei gofnod asedau.</p> |   |
| <b>Statws</b>  | Gofyniad statudol   |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth newydd – Goblygiad Cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Bydd llai o ddryswch ynghylch perchenogaeth asedau perthnasol i berygl llifogydd.</p> <p>Bydd cyfundrefnau cynnal a chadw'n gallu ystyried asedau sy'n bwysig i reoli perygl llifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae perygl mawr.</p> <p>Bydd Sir Ddinbych yn gallu penderfynu ble mae holl asedau, gan ganiatáu gwybod pwy yw'r awdurdod cyfrifol yn gyflymach pan fydd llifogydd.</p> <p>Byddai Sir Ddinbych yn gallu cynhyrchu / gwella eu hamserlen cynnal asedau eu hunain yn ogystal ag rhoi cyfarwyddyd i berchenogion glannau afonydd ar sut ddylent gynnal eu hasedau.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

| Mesur 5.2 Datblygu cyngor technegol er gyfer perchenogion i'w llywio wrth baratoi cynlluniau cynnal a chadw lleol  |   |
|--|---|
| <p>Mae'r mesur hwn ar gyfer sicrhau osgoi, neu leihau, effeithiau andwyol unrhyw berygl amgylcheddol cysylltiedig â llifogydd o gyrsiau dŵr preifat.</p> |   |
| <b>Statws</b>  | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad   |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Mae tirfeddianwyr yn elwa ar gyfarwyddyd a chyngor eglur.</p> <p>Bydd llai o ddryswch ynghylch perchenogaeth asedau perthnasol i berygl llifogydd.</p> <p>Bydd cynlluniau cynnal a chadw'n gallu ystyried asedau sy'n bwysig i reoli perygl llifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae perygl mawr .</p> <p>Sicrhau bod archwiliadau a chynnal a chadw o safon briodol yn digwydd ar hyd a lled y sir.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Ymchwilio i gyfleoedd i leihau goferiad dŵr arwyneb o'r dalgylchoedd uchaf a dal llifogydd mewn gorlifdiroedd**

| <b>Mesur 6.1 Datblygu cofrestr perchenogaeth tir ar gyfer Sir Ddinbych a thiriogaethau awdurdodau cyfagos sy'n rhannu dalgylchoedd</b>  |  |
|---|--|
| Bydd y mesur hwn yn lleihau dryswch ynghylch perchenogaeth tir ac asedau perthnasol i berygl llifogydd; bydd yn tynnu sylw at berchenogion glannau afonydd ac Awdurdodau Rheoli Perygl gyda chyfrifoldebau dan Ddeddf Draenio Tir 1991 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 fydd, yn ei dro, yn cynyddu cynnal a chadw ac yn lleihau perygl llifogydd. |  |
| <b>Statws</b>   | Arferion gorau   |
| <b>Cyllid</b>   | Swyddogaeth bresennol / Swyddogaeth newydd – Posibilrwydd goblygiad cyllidol   |
| <b>Buddiannau</b>   | Bydd llai o ddryswch ynghylch perchenogaeth asedau perthnasol i berygl llifogydd.<br>Bydd cyfundrefnau cynnal a chadw'n gallu ystyried asedau sy'n bwysig i reoli perygl llifogydd, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae perygl mawr.<br>Bydd Sir Ddinbych yn gallu penderfynu ble mae holl asedau, gan ganiatáu gwybod pwy yw'r perchennog glannau afon / awdurdod cyfrifol yn gyflymach pan fydd llifogydd.<br>Mwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol.<br>Gwell dealltwriaeth o swyddogaethau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid. |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

| <b>Mesur 6.2 Datblygu cynigion i gael thirfeddianwyr sylweddol i ddefnyddio technegau a chynlluniau rheoli tir sy'n helpu lleihau cyflymder goferiad dŵr arwyneb</b>   |  |
|--|--|
| Fe all fod lle i leihau goferiad dŵr arwyneb trwy weithredu rhai technegau rheoli tir, boed hynny'n unig at ddiben rheoli perygl llifogydd neu fel sgil-gynhyrchion cynlluniau rheoli tir eraill.<br>Mae CSDd yn bwriadu gwneud asesiad pellach o ymarferoldeb gweithredu mesurau o'r fath fel dull o leihau perygl llifogydd yn Sir Ddinbych a gweithio gyda thirfeddianwyr i'w gweithredu. |  |
| <b>Statws</b>  | Arferion gorau   |
| <b>Cyllid</b>  | Cyllid Prosiect – Posibilrwydd cyllid allanol  |
| <b>Buddiannau</b>  | Gwell dealltwriaeth o ble gellid defnyddio technegau rheoli tir yn Sir Ddinbych.<br>Byddai gweithredu technegau rheoli tir yn cynnig ateb 'cynaliadwy' i reoli perygl llifogydd, yn enwedig o'i gymharu â mesurau adeileddol.<br>Posibilrwydd buddiannau amgylcheddol / amwynderol ehangach trwy ddefnyddio technegau rheoli tir.<br>Posibilrwydd ymwneud mwy â pherchenogion tir a rhanddeiliaid eraill wrth reoli perygl llifogydd lleol a gallu cydweithredu ag awdurdodau lleol cyfagos. |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

**Nodi prosiectau rheoli perygl llifogydd sy'n fforddiadwy a chynaliadwy**

| <b>Mesur 7.1 Adolygu rhaglen cynlluniau rheoli perygl llifogydd y Cyngor</b>  |   |
|---|---|
| <p>Mae'r mesur hwn yn blaenoriaethu cynlluniau ar sail perygl llifogydd er mwyn gwneud y gorau o gyllid ac adnoddau. Yna bydd ymarferoldeb technegol ac economaidd prosiectau o'r fath yn cael ei asesu trwy'r broses Cloriannu Prosiectau a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>   | Existing Function – No im Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad plication |
| <b>Buddiannau</b>   | Cael cyfalaf i weithredu cynlluniau perygl llifogydd                      |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

| <b>Mesur 7.2 Defnyddio Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i nodi mesurau pellach ar gyfer rheoli a lleihau perygl llifogydd</b>   |   |
|---|---|
| <p>Mae Rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) yn gofyn bod Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn paratoi a chyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd erbyn mis Rhagfyr 2015 pan fo perygl llifogydd lleol yn sylweddol fel y nodwyd yn yr Aseiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol (PFRA). Bydd Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd yn ceisio asesu, mapio a datblygu cynlluniau gweithredu i reoli perygl llifogydd.</p> <p>Yn ei hanfod bydd y cynllun rheoli perygl llifogydd yn cyflwyno argymhellion CSDd ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn ei ranbarth gweinyddol. Dylid pwysleisio y bydd y cynllun yn ystyried agwedd gyfannol at reoli perygl llifogydd ac na fydd yn dibynnu'n unig ar atebion adeileddol traddodiadol i berygl llifogydd. Yn wir, yn unol ag amcanion y LFRMS hwn, mae CSDd yn bwriadu dod o hyd i gyfleoedd i ddefnyddio technegau rheoli tir arloesol, yn ogystal â nodi synergedd gyda chynlluniau a strategaethau sy'n anelu at ymgorffori prosesau naturiol rheoli perygl llifogydd sy'n hyrwyddo gwarchod natur neu gyfoethogi tirweddau.</p> |   |
| <b>Statws</b>   | Gofyniad statudol   |
| <b>Cyllid</b>   | Cyllid Prosiect – Posibilrwydd cyllid allanol   |
| <b>Buddiannau</b>   | Bydd cynhyrchu Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn canolbwyntio a chyfeirio'r gwaith ar reoli perygl llifogydd o fewn CSDd yn y dyfodol. |
| <b>Amserlenni</b>   | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |

**Mesur 7.3 Annog a hyrwyddo cyfraniad cymunedol a phreifat tuag at gostau cynlluniau llifogydd**

O ystyried y pwysau presennol ar arian cyhoeddus, nid yw'r arian fydd ar gael i reoli perygl llifogydd fyth yn debygol o fod yn ddigonol i ddelio â holl berygl llifogydd presennol a'r perygl mwy a ddaw yn y dyfodol yn sgil datblygiad pellach a hinsawdd sy'n newid. Fel y cyfryw, bydd gofyn ategu rheoli perygl llifogydd trwy weld pawb yn cydweithio, a'r rhai sydd mewn perygl llifogydd yn cymryd cyfrifoldeb i warchod a helpu eu hunain.

Bydd y mesur hwn yn cynyddu faint o gynlluniau y gall CSDd eu blaenoriaethu a'u gweithredu yn y Sir.

|                   |  |
|-------------------|--|
| <b>Statws</b>     | Dyletswydd dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) yn cael ei hymestyn gydag arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Cyllid Prosiect – Posibilrwydd cyllid allanol  |
| <b>Buddiannau</b> | Bydd yn meithrin cysylltiadau newydd a gwell gyda chymunedau, gan annog cymunedau i wneud penderfyniadau deallus, lleihau dibyniaeth, fel bod cymunedau'n gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain pan fo hynny'n briodol.<br><br>Bydd CSDd yn elwa ar adnoddau cymuned a chynyddu faint o gynlluniau rheoli llifogydd y mae modd eu gweithredu. |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

**Mesur 7.4 Dal i hyrwyddo cynlluniau rheoli perygl llifogydd a allai fod â hawl i gymorth grant Llywodraeth Cymru**

O ystyried y pwysau presennol ar arian cyhoeddus, nid yw'r arian fydd ar gael i reoli perygl llifogydd fyth yn debygol o fod yn ddigonol i ddelio â holl berygl llifogydd presennol a'r perygl mwy a ddaw yn y dyfodol yn sgil datblygiad pellach a hinsawdd sy'n newid. Fel y cyfryw, bydd gofyn ategu rheoli perygl llifogydd gyda mwy o gyllid allanol.

|                   |   |
|-------------------|---|
| <b>Statws</b>     | Arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>     | Cyllid Prosiect – Posibilrwydd cyllid allanol           |
| <b>Buddiannau</b> | Mwy o arian ar gyfer cynlluniau rheoli perygl llifogydd |
| <b>Amserlenni</b> | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol                      |

**Sicrhau bod gwybodaeth leol FRM yn cyd-fynd â threfnau cynllunio'r Cyngor at argyfwng**

| <b>Mesur 8.1 Mewnosod y LFRMS mewn cynlluniau ymateb i lifogydd ac adfer ar eu hôl a defnyddio gwybodaeth sy'n datblygu am berygl llifogydd i "diwnio" gweithdrefnau argyfwng</b>  |  |
|--|--|
| <p>Ble bynnag y bo modd dylai cynllunio at argyfwng anelu at atal argyfyngau rhag digwydd a, phan fyddant yn digwydd, dylai cynllunio da leihau, rheoli neu liniaru effeithiau'r argyfwng. Mae'n broses drefnus a pharhaol a ddylai ddatblygu wrth ddysgu gwersi ac wrth i amgylchiadau newid.</p> |  |
| <b>Statws</b>  | Dyletswydd dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) yn cael ei hystyngiadau gydag arferion gorau  |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad  |
| <b>Buddiannau</b>  | Bydd ymateb strwythuredig parod yn gwella'i gyflymder a'i ansawdd a'r gobaith yw y bydd yn lleihau perygl ac effaith llifogydd. Mae gwybod beth i'w wneud a phwy sydd i'w wneud o flaen llaw yn gwella'r ymateb. |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol   |

| <b>Mesur 8.2 Dal i ddatblygu Cynllun Llifogydd Amlasiantaethol Cyngor Sir Ddinbych</b>   |   |
|--|---|
| <p>Dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004) mae Awdurdodau Lleol a chyrrff eraill yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau argyfwng i hwyluso lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng.</p> <p>Yn hynny o beth, bydd CSDd yn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio'r Asesiadau Perygl sy'n cael eu darparu dan y Rheoliadau Perygl Llifogydd i asesu'r perygl llifogydd i'r Sir o holl ffynonellau;</li> <li>• Ystyried cynlluniau atal llifogydd;</li> <li>• Trefnu hyfforddi ac ymarfer ar y cyd yn ôl yr angen;</li> <li>• Ystyried swyddogaethau a chyfrifoldebau holl gyrff sydd â swyddogaeth wrth reoli ac ymateb i lifogydd;</li> <li>• Adolygu llifogydd, dysgu gwersi a rhannu gwybodaeth;</li> <li>• Adolygu cynlluniau ymateb i lifogydd;</li> <li>• Tynnu sylw'r cyhoedd at lifogydd.</li> </ul> |   |
| <b>Statws</b>  | Gofyniad statudol   |
| <b>Cyllid</b>  | Swyddogaeth bresennol – Dim goblygiad   |
| <b>Buddiannau</b>  | <p>Bydd y mesur yn galluogi cael gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn Sir Ddinbych.</p> <p>Mae bod yn fwy ymwybodol o berygl llifogydd lleol yn golygu bod y trigolion yn gallu deall a pharatoi ar gyfer effaith llifogydd a chymryd camau cydnerth a gwrthsafol cyn i'r llifogydd ddod. Gwell ymateb yn ystod llifogydd.</p> |
| <b>Amserlenni</b>  | Byrdymor 0 – 20 mlynedd a pharhaol  |



#### 7.4 **Matrics Cydnawsedd**

Mae CSDd wedi gwneud asesiad ar ffurf matrics cydnawsedd i sicrhau bod y mesurau posibl hyn yn cyd-fynd â chanllawiau Strategaethau Lleol a themâu lefel uchel. Mae'r matrics, sydd hefyd yn nodi pa fesurau sy'n adeileddol ac fel arall ac a ydynt yn rhai tymor hir, canolig neu fyr, i'w gael yn Nhabl 8.3 ar y dudalen ganlynol.

##### **Allwedd**

- ✓ = Mesur sy'n cefnogi'r thema
- = Mesur nad yw'n berthnasol i'r thema

Mesur byrdymor: 0 – 20 mlynedd  
Mesur tymor canolig: 20 – 50 mlynedd  
Mesur hirdymor: 50 – 100 mlynedd

Cyfredol – Mesurau sydd eisoes ar y gweill gan CSDd ac a fydd yn parhau  
I Ddod – Mesurau y mae gofyn i CSDd eu gwneud dan FWMA  
Uchelgeisiol – Mesurau nad ydynt yn ofynnol ond sy'n cael eu hystyried fel rhai buddiol i'w gweithredu

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Tudalen 162

| Cyfeir-rif y Mesur | Mesurau LFRMS   | Themâu Lefel Uchel                |  |  |                            |   |   |         | Hirdymor (H)<br>Canolig (C)<br>Byrdymor (B) | Adeileddol (A)<br>Eraill (E) | Statws -<br>Cyfredol (C)<br>I Ddod (D)<br>Uchelgeisiol (U) |
|--------------------|---|-----------------------------------|--|--|----------------------------|---|---|---------|---|------------------------------|--|
|                    |   | Cynllunio ac addasu<br>datblygiad | Rhagweld,<br>rhybuddio ac<br>ymateb i lifogydd | Rheoli tîr, diwylliant<br>a'r amgylchedd | Rheoli a chynnal<br>asedau | Astudiaethau,<br>asesiad a<br>chynlluniau | Ymwybyddiaeth ac<br>ymgysylltu lefel<br>uchel | Arolygu |   |                              |  |
| 1.1                | Nodi asedau draenio a llifogydd a datblygu system rheoli asedau   | -                                 | -  | -  | ✓                          | ✓   | -   | ✓       | B   | E                            | C  |
| 1.2                | Dynodi nodweddion rheoli perygl llifogydd   | -                                 | -  | -  | ✓                          | -   | ✓   | ✓       | B   | E                            | D  |
| 1.3                | Cofnodi a mapio llifogydd   | -                                 | -  | -  | ✓                          | -   | ✓   | ✓       | B   | E                            | C  |
| 1.4                | Cynnal archwiliadau llifogydd   | -                                 | ✓  | ✓  | ✓                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E / A                        | C  |
| 1.5                | Datblygu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd ar gyfer ardaloedd lle mae cryn berygl llifogydd                            | ✓                                 | -  | ✓  | -                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E                            | U  |
| 1.6                | Datblygu Cynghrair Dysgu Gweithredu rhanbarthol   | -                                 | -  | -  | -                          | -   | ✓   | -       | H   | E                            | U  |
| 2.1                | Cyhoeddi Strategaeth eglur a'i chyfathrebu  | -                                 | -  | -  | -                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E                            | C  |
| 2.2                | Datblygu strategaeth gyfathrebu i wella gwybodaeth rhanddeiliaid  | -                                 | -  | -  | -                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E                            | D  |
| 2.3                | Datblygu tudalen rheoli perygl llifogydd unswydd ar wefan y Cyngor  | -                                 | -  | -  | -                          | -   | ✓   | -       | B   | E                            | C  |
| 2.4                | Cyhoeddi a dosbarthu hysbysrwydd sy'n egluro cyfrifoldebau, perygl llifogydd lleol, gwarchod / cydnerthedd eiddo ac ati | -                                 | -  | -  | -                          | -   | ✓   | -       | B   | E                            | D  |
| 2.5                | Cynnwys cymunedau lleol mewn arweiniadau a chynlluniau lleol  | ✓                                 | ✓  | ✓  | ✓                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E / A                        | D / C  |
| 2.6                | Hyrwyddo a chefnogi Cynlluniau Llifogydd Cymunedol  | -                                 | ✓  | -  | -                          | ✓   | ✓   | ✓       | B   | E / A                        | C  |
| 2.7                | Hyrwyddo a chefnogi cydnerthedd seiliedig ar eiddo  | ✓                                 | ✓  | -  | -                          | -   | ✓   | -       | B   | E                            | D  |

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

Tudalen 163

| Cyfeir-rif y Mesur | Mesurau LFRMS   | Themâu Lefel Uchel             |  |                                       |                         |                                     |   |         | Hirdymor (H)<br>Canolog (C)<br>Byrdymor (B) | Adeileddol (A)<br>Eraill (E) | Statws -<br>Cyfredol (C)<br>I Ddod (D)<br>Uchelgeisiol (U) |
|--------------------|---|--------------------------------|--|---------------------------------------|-------------------------|-------------------------------------|---|---------|---|------------------------------|--|
|                    |   | Cynllunio ac addasu datblygiad | Rhagweld, rhybuddio ac ymateb i lifogydd | Rheoli tir, diwylliant a'r amgylchedd | Rheoli a chynnal asedau | Astudiaethau, asesiad a chynlluniau | Yrmybyddiaeth ac ymgysylltu lefel uchel | Arolygu |   |                              |  |
| 2.8                | Ymweld ag ysgolion mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd                              | -                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | D  |
| 2.9                | Achlysur blynyddol a/neu sioe deithiol tynnu sylw at lifogydd                           | -                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | D  |
| 2.10               | Hyrwyddo a chefnogi PentrePeryglon  | -                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | U  |
| 2.11               | Ymwneud yn weithredol â'r sector llifogydd preifat                                      | -                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | C  |
| 3.1                | Gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Dŵr Cymru                        | ✓                              | ✓  | ✓                                     | ✓                       | ✓                                   | ✓                                       | ✓       | B   | E                            | C  |
| 4.1                | Datblygu polisi lleol ar ddraenio safleoedd datblygu newydd                             | ✓                              | -  | ✓                                     | -                       | ✓                                   | -                                       | -       | B   | E / A                        | U  |
| 4.2                | Gyda'r Adran Gynllunio, creu cyngor a chyfarwyddyd eglur i ddatblygwyr ar FRM a Draenio | ✓                              | -  | ✓                                     | ✓                       | ✓                                   | ✓                                       | -       | B   | E / A                        | U  |
| 5.1                | Nodi asedau amddiffyn rhag llifogydd a draenio preifat sydd fwyaf o berygl              | -                              | -  | -                                     | ✓                       | ✓                                   | ✓                                       | -       | B   | E / A                        | C  |
| 5.2                | Datblygu cyngor technegol ar gynlluniau cynnal a chadw lleol ar gyfer perchenogion      | -                              | -  | -                                     | ✓                       | ✓                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | U  |
| 6.1                | Datblygu cofrestr perchenogaeth tir yn Sir Ddinbych                                     | ✓                              | -  | ✓                                     | ✓                       | ✓                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | C  |
| 6.2                | Defnyddio technegau ac arweiniadau rheoli tir   | ✓                              | -  | ✓                                     | ✓                       | ✓                                   | -                                       | -       | B   | E                            | U  |
| 7.1                | Adolygu rhaglen cynlluniau rheoli perygl llifogydd y Cyngor                             | -                              | -  | -                                     | -                       | ✓                                   | -                                       | -       | B   | E                            | D  |
| 7.2                | Nodi mesurau pellach ar gyfer rheoli a lleihau perygl llifogydd                         | -                              | -  | -                                     | -                       | ✓                                   | -                                       | -       | B   | E                            | U  |
| 7.3                | Hybu cyfraniad cymunedol tuag at gynlluniau llifogydd                                   | ✓                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | U  |
| 7.4                | Hyrwyddo cynlluniau rheoli perygl llifogydd ar gyfer cymhorth grant Llywodraeth Cymru   | -                              | -  | -                                     | -                       | -                                   | ✓                                       | -       | B   | E                            | C  |

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

| Cyfeir-rif y Mesur | Mesurau LFRMS   | Themâu Lefel Uchel                |  |  |                            |   |   |         | Hirdymor (H)<br>Canolig (C)<br>Byrdymor (B) | Adeileddol (A)<br>Eraill (E) | Statws -<br>Cyfredol (C)<br>I Ddod (D)<br>Uchelgeisiol (U) |
|--------------------|---|-----------------------------------|--|--|----------------------------|---|---|---------|---|------------------------------|--|
|                    |   | Cynllunio ac addasu<br>datblygiad | Rhagweld,<br>rhybuddio ac<br>ymateb i lifogydd | Rheoli tir, diwylliant<br>a'r amgylchedd | Rheoli a chynnal<br>asedau | Astudiaethau,<br>asesiad a<br>chynlluniau | Yrmybyddiaeth ac<br>ymgysylltu lefel<br>uchel | Arolygu |   |                              |  |
| 8.1                | Mewnosod y LFRMS mewn cynlluniau ymateb i lifogydd ac adfer ar eu hôl | -                                 | ✓  | -  | -                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E                            | U  |
| 8.2                | Dal i ddatblygu Cynllun Llifogydd Amlasiantaethol y Cyngor            | -                                 | ✓  | -  | -                          | ✓   | ✓   | -       | B   | E / A                        | C  |

Tabl 7.3: Matrics i ddangos y cysylltiadau rhwng mesurau Strategaeth Leol CSDd a Chanllawiau Strategaethau Lleol, a themâu lefel uchel

- ✓ = Mae'r mesur yn cynnal y thema
- = Nid yw'r mesur yn berthnasol i'r thema

Mesur Byrdymor: 0 – 20 mlynedd  
 Mesur Tymor Canolig: 20 – 50 mlynedd  
 Mesur Hirdymor: 50 – 100 mlynedd


Cyfredol – Mesurau sydd eisoes yn cael eu gweithredu gan CSDd ac a fydd yn parhau  
 I Ddod – Mesurau y mae gofyn i CSDd eu gwneud dan FWMA  
 Uchelgeisiol – Mesurau nad ydynt yn ofynnol ond a fyddai'n fuddiol eu gweithredu

### 7.5 Mabwysiadu Technegau Rheoli Perygl Llifogydd yn Naturiol

Mae EA wedi cynhyrchu'r adroddiad cenedlaethol cyntaf ar sut all prosesau naturiol gynorthwyo rheoli perygl llifogydd yng Nghymru a Lloegr; 'Gweithio mwy gyda phrosesau naturiol wrth reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, Ionawr 2012' sydd yn ymateb i argymhelliad Adolygiad Pitt 27<sup>24</sup>. Isod mae diffiniad o 'weithio gyda phrosesau naturiol' a ddaeth o'r adroddiad hwn:

*'Mae gweithio gyda phrosesau naturiol yn golygu gweithredu i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol trwy warchod, adfer ac efelychu swyddogaeth reoleiddio naturiol dalgylchoedd, afonydd, gorlifdiroedd ac arfordiroedd. Er enghraifft, gallai hyn olygu defnyddio tir amaeth i ddal llifddwr dros dro, adfer golchdiroedd a gwlypdiroedd i gadw llifddwr draw o ardaloedd lle mae perygl mawr neu ganiatáu i glogwyni erydu er mwyn darparu gwaddod ymhellach ar hyd y drifft.'*

Yng nghyd-destun FCERM, mae gweithio gyda phrosesau naturiol yn aml yn golygu arafu llif dŵr (e.e. trwy ailsefydlu gorlifdiroedd sy'n dal llifddyfroedd) neu gyflymu llif dŵr (e.e. trwy ddileu rhwystrau annaturiol), i atal llifddyfroedd rhag peri niwed. Mae technegau o'r fath yn gwarchod, yn adfer neu'n efelychu prosesau naturiol sy'n rheoleiddio llifogydd ac erydu ac sy'n gallu dod â buddiannau eraill i'r ecosystem, wrth wneud hynny, fel bioamrywiaeth, storio carbon, a gwella ansawdd dŵr. Bydd prosesau naturiol yn gweithredu ar draws continwmm sy'n rhedeg o beirianeg liniarol i gynefino llawn (gwelwch Ffigur 8.1 isod).



Figur 8.1: Model cysyniadol Cyfoeth Naturiol Cymru o weithio gyda phrosesau naturiol.

Bydd Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC) yn lleihau perygl llifogydd mewn safle datblygu ac mewn mannau eraill yn y dalgylch trwy efelychu prosesau draenio naturiol. Mae amrywiadau niferus yn cynnwys basnau atal (sych), pyllau cadw (gwlyb), pantiau gwelltog, palmentydd hydraidd, ffosydd cerrig a thoeau 'gwyrd' sy'n cadw dŵr o fewn ôl troed adeilad ei hun. Mae'r ymyriadau hyn yn arafu a llyncu dŵr arwyneb a gallant greu cynefinoedd gwerthfawr i fywyd gwylt ar yr un pryd â lleihau perygl llifogydd i ddatblygiadau.

<sup>24</sup> "Dylai DEFRA, Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England weithio gyda phartneriaid i sefydlu rhaglen trwy Gynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylch a Chynlluniau Rheoli Traethlin i gyflawni gweithio mwy gyda phrosesau naturiol"

### Pontbren – system ffermio fwy cynaliadwy

Lluniwyd prosiect Pontbren yn 1997 gan grŵp o deuluoedd cyfagos oedd yn ffermio 1000 hectar yn ucheldiroedd canolbarth Cymru, o fewn dalgylch Nant Pontbren. Nododd y grŵp nifer o newidiadau y gallent eu gwneud yn unigol ac ar y cyd i wella ymarferoldeb eu ffermydd trwy leihau costau, ychwanegu gwerth at gynnyrch a gwella marchnata. Trwy weithio gyda phartneriaid yn cynnwys Coed Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a Llywodraeth Cymru maent wedi datblygu system ffermio fwy cynaliadwy.

Trwy gynyddu cyfran bridiau brodorol o ddefaid caled bu modd i'r ffermydd leihau costau cartrefu dros y gaeaf a phrynu llai o borthiant. Fodd bynnag, i wyna'n llwyddiannus ar y bryniau agored hyn, roedd angen cael cysgod da. Rhan bwysig o'r prosiect, felly, oedd gwarchod coetiroedd brodorol presennol, plannu coetir newydd fel lleiniau cysgodi ac adfer gwrychoedd. Daeth i'r amlwg yn fuan bod y plannu newydd hefyd yn lleihau goferiad llifogydd yn sylweddol. Mae bywyd gwyllt hefyd wedi elwa ar reoli'r cynefinoedd a rhwydwaith o dramwyfeydd cynefin, gyda rhywogaethau fel y gnoCELL werdd a'r dylluan wen yn dychwelyd i'r cylch.

Y gobaith yw y caiff prosiectau cyffelyb gyda buddiannau lluosog yn cael eu datblygu ymhellach a'u hybu i berchenogion tir dalgylchoedd Sir Ddinbych a Chonwy, er mwyn cynorthwyo lleihau dŵr ffo yn nalgylchoedd uchaf Afonydd Clwyd ac Elwy.

## 8 Cyllido a Chyflawni

### 8.5 Gofynion Cyllid

Mae rhai o'r mesurau a amlinellwyd yn yr adran flaenorol wedi bod yn weithgareddau craidd y Cyngor ers nifer o flynyddoedd ac mae prosesau'n gweithredu i gyflawni'r mesurau hynny. Fodd bynnag, mae mesurau eraill yn berthnasol i'r cyfrifoldebau newydd a neilltuwyd yn ddiweddar, y rhan fwyaf ohonynt yn gofyn casgliad newydd o sgiliau, profiad, prosesau a meddalwedd all gymryd peth amser i'w datblygu neu gaffael.

Mae'n bwysig bod y Strategaeth Leol yn nodi o ble daw'r cymorth ariannol i gaffael yr adnoddau hyn er mwyn gweithredu'r mesurau sydd yn y strategaeth. Bydd rhai mesurau'n cael eu cyflawni gydag adnoddau presennol y Cyngor ond bydd eraill yn gofyn cymorth cyllid allanol. Rhaid i Gyngor Sir Ddinbych nodi pa ffynonellau arian sydd ar gael iddo ar hyn o bryd a pha gamau fydd angen eu cymryd i sicrhau bod cymorth ariannol arall yn gyraeddadwy.

Ar hyn o bryd, daw mwyafrif y cymorth ariannol ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol o Lywodraeth Cymru ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw (RSG). Er mwyn gweithredu'r Strategaeth hon a'r holl ddyletswyddau statudol a grybwyllwyd, mae'n hanfodol bod dyraniad cyllid Llywodraeth Cymru i CSDd yn dangos neilltuad ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd. Bydd y dyletswyddau statudol a amlinellwyd yn flaenorol yn gofyn cymorth ariannol parhaol o Grant Cynnal Refeniw Cyngor Sir Ddinbych o 2013 ymlaen i sicrhau bod digon o adnoddau i weithredu'r strategaeth a hefyd:

- Mesurau arfaethedig y Strategaeth;
- Casglu data ar gyfer adolygu'r PFRA yn 2016 a phob 6 blynedd wedi hynny;
- Cynnal a diweddarau'r gofrestr asedau;
- Dynodi adeileddau a nodweddion sy'n effeithio ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol;
- Parhau a gwella archwilio llifogydd;
- Dal i ganiatáu gwaith mewn cyrsiau dŵr cyffredin;
- Pan fydd FWMA yn gweithredu'n llawn; gwirio, archwilio, cymeradwyo, mabwysiadu a chynnal cynlluniau SDC fel rhan o'r swyddogaeth CCS;
- Gweithredu, arolygu, adolygu a diweddarau'r Strategaeth Leol bob 6 blynedd; a hefyd
- Gweithgareddau ymwybyddiaeth y gymuned cysylltiedig â dyletswyddau'r Strategaeth Leol.

### 8.6 Ffynonellau Arian Presennol

Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir Ddinbych yn derbyn cymorth ariannol Llywodraeth Cymru mewn dwy ffordd:

- Grant heb ei glustnodi (y gall yr awdurdodau ei ddefnyddio at unrhyw ddiben a ddewisant wrth gyflenwi'r gwasanaethau sydd o fewn eu cyfrifoldeb); swm blynyddol ac anrhagweladwy sy'n cael ei ddarparu trwy'r Grant Cynnal Refeniw (RSG); a

- Grant a glustnodwyd (nad oes modd defnyddio ond at y dibenion penodol y rhoddwyd); Cymorth Grant Atal Llifogydd (FDGiA) sy'n cael ei ddarparu trwy gynnig am Grantiau Lliniaru Llifogydd (FAG), fesul cynllun, dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Ar hyn o bryd cyfradd FAG (arian sy'n cael ei gyfrannu gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer cynlluniau afonol yw 85% ac ar gyfer cynlluniau arfordirol yw 65%. Cyngor Sir Ddinbych sy'n cyfrannu'r gweddill at y cynllun.

| Ffynhonnell y Cyllid                        | Disgrifiad  | Cyllideb arwyddol yn 2012/2013 | Gweinyddir gan      | I dalu am  |
|---|---|--------------------------------|---------------------|--|
| <b>FCERM Grant Cynnal Refeniw (RSG)</b>     | Ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014 ymlaen bydd cymorth ariannol pob LLFA yn cael ei ddarparu trwy system Grant Cynnal Refeniw (RSG).  | £90+ Mil                       | Cyngor Sir Ddinbych | Dyletswyddau LLFA dan FWMA. Cynnal cyrsiau dŵr cyffredin ac asedau cysylltiedig. Cynnal a chadw mesurau lliniaru erydu arfordirol. |
| <b>Cymorth Grant Atal Llifogydd (FDGiA)</b> | Cymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Grantiau Lliniaru Llifogydd (FAG) fesul cynllun - diwygiwyd yn ddiweddar i hybu agwedd o bartneriaeth i gael y cyllid cyfatebol mwyaf, gweithio tuag at gyflawni amcanion penodedig gyda gofyniad i ddangos gostyngiad mewn perygl llifogydd i eiddo.   | Anhysbys                       | Llywodraeth Cymru   | Prosiectau cyfalaf FRM canolig i fawr. Astudiaethau, strategaethau a phrosiectau FRM a rheoli erydu arfordirol.                    |
| <b>Cyfraniadau Preifat</b>                  | Gwirfoddol o'r sector preifat a chymunedau lleol. Gallai cymorth ariannol gan fuddiolwyr prosiectau wneud cyfraniadau o gyllid cenedlaethol yn ymarferol. Gallai cyfraniadau fod yn ariannol neu fel arall, e.e. tir, llafur gwirfoddol   | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Holl brosiectau  |
| <b>Buddsoddiad Cwmnïau Dŵr</b>              | Buddsoddiad yn drwm dan reolaeth y Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) ond mae cyfleoedd i gyfrannu at brosiectau ardal gyfan sy'n cynorthwyo rhoi sylw i broblemau carthffosydd rhy fach  | Anhysbys                       | Dŵr Cymru           | Prosiectau sy'n cynorthwyo tynnu dŵr arwyneb o garthffosydd cyfunol  |
| <b>Incwm CCS</b>                            | Y disgwyl yw y bydd Sir Ddinbych yn derbyn taliadau ceisio ac archwilio gan ddatblygwyr am gymeradwyo ac archwilio SDC cysylltiedig â datblygiadau newydd. Ar hyn o bryd nid yw cyllido cynhaliaeth hirdymor SDC yn eglur; er bod amrywiaeth o atebion ar gael gan gynnwys bod datblygwyr yn talu symiau ar gyfer hynny. Bydd cyllido cynnal a chadw hirdymor yn ffurfio rhan o'r ymgynghori â Llywodraeth Cymru. | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Caniatâd draenio datblygiad a materion FRM   |



| Ffynhonnell y Cyllid  | Disgrifiad   | Cyllideb arwyddol yn 2012/2013 | Gweinyddir gan      | I dalu am  |
|---|--|--------------------------------|---------------------|--|
| <b>Cyllid Partneriaeth Cydnerthedd Llifogydd a'r Arfordir</b> | Mae rhywfaint o gyllid a glustnodwyd ar gyfer prosiectau cyfalaf mawr yn gofyn cyfraniadau i fesurau cydnerthedd.  | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Mesurau sy'n rhoi sylw i berygl llifogydd i gymunedau a busnesau         |
| <b>Cyllid Cydgyfeirio Ewropeaidd 2007 - 2013</b>              | Mae'r rhaglen Gydygyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnwys cymorth ariannol dwy wahanol Gronfa Strwythurol Ewropeaidd: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).  | £2 filiwn                      | Cyngor Sir Ddinbych | Prosiectau cyfalaf FRM canolig i fawr                                    |
| <b>Codi Arian Lleol</b>                                       | Daw peirianwaith cyllido pwysig trwy godi arian lleol o'r cymunedau a busnesau lleol sy'n elwa ar y cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd arfaethedig.   | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Mesurau sy'n rhoi sylw i berygl llifogydd i gymunedau a busnesau         |
| <b>Perchenogion glannau afonydd</b>                           | Fel arfer, cyfrifoldeb perchenogion glannau afonydd yw cynnal a thrwsio asedau a bydd cynyddu ymwybyddiaeth yn cynorthwyo sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal; fodd bynnag, fe all asedau hanesyddol gyda pherchenogaeth ansicr fod angen cymorth i dalu am atgyweiriadau neu gyfnewid ar ddiwedd oes. | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Mesurau sy'n rhoi sylw i berygl llifogydd i berchenogion glannau afonydd |

Tabl 9.1: Ffynonellau arian cyfredol CSDd ar gyfer FCERM

### 8.7 Ffynonellau Arian Eraill Posibl at y Dyfodol

| Ffynhonnell y Cyllid   | Disgrifiad   | Cyllideb arwyddol yn 2012/2013 | Gweinyddir gan     | I dalu am   |
|--|--|--------------------------------|--------------------|---|
| <b>Cronfa Cymunedau'r Arfordir (Cronfa Loteri Fawr ar ran y llywodraeth)</b> | Mae'r gronfa ar gael i Awdurdodau Lleol ar gyfer rheoli ac addasu i berygl llifogydd ac erydu arfordirol a rheoli perygl llygredd cysylltiedig â'r arfordir, pan fo hyn yn cynorthwyo datblygu economaidd lleol. Agorodd y Gronfa ar gyfer cynigion ym mis Mawrth 2012 ond ei bwriad yw bod yn gronfa dreigl gyda chylchoedd | £1.45 miliwn ar gael i Gymru   | Cronfa Loteri Fawr | Prosiectau sy'n cynorthwyo galluogi cymunedau'r arfordir wella sut maent yn defnyddio'u hasedau (ffisegol, naturiol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol) i hyrwyddo twf economaidd a swyddi cynaliadwy |

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

| Ffynhonnell y Cyllid   | Disgrifiad   | Cyllideb arwyddol yn 2012/2013 | Gweinyddir gan      | I dalu am   |
|--|--|--------------------------------|---------------------|---|
|  | cynnig blynyddol. Y disgwyl yw y bydd o leiaf dwy flynedd o gyllido eto'n dechrau yn 2013 a 2014. Bydd Cronfa Cymunedau'r Arfordir yn agor eto ar gyfer cynigion yn gynnar yn 2013.  |                                |                     |   |
| <b>Cyfraniadau Adran 106 (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref)</b> | Y disgwyl yw y bydd Sir Ddinbych yn cael cyfraniadau gan ddatblygwyr cysylltiedig â safleoedd datblygu penodol lle mae gofyn gwelliannau i isadeiledd draenio oddi ar y safle er mwyn gwneud cynigion y datblygwyr yn dderbyniol, e.e. isadeiledd gwyrdd gyda buddiannau lluosog lle bydd cyfleoedd i grwpiau cymunedol rheoli rhai ardaloedd.   | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Safleoedd datblygu mwy                                |
| <b>Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL)</b>                      | Ardoll leol sy'n cael ei chodi gan yr Awdurdod Cynllunio ar ddatblygwyr. Mae'n caniatáu i awdurdodau lleol godi arian o ddatblygiad newydd yn y cylch er mwyn talu am effaith y datblygiad ar isadeiledd lleol. Seiliwyd yr ardoll ar y cysyniad bod holl ddatblygu bron yn cael rhywfaint o effaith ar isadeiledd a gwasanaethau ac, felly, ei bod yn deg y dylai datblygu gyfrannu tuag at gost cynnal neu wella isadeiledd lleol. Nid yw Cyngor Sir Ddinbych eto wedi gweithredu cynllun CIL. Byddai rheoli llifogydd / gwelliannau draenio'n gorfod cystadlu am CIL yn erbyn blaenoriaethau eraill y Cyngor. | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Holl fesurau sy'n cael eu hamlinellu yn y Strategaeth |
| <b>Atodiadau Ardrethi Busnes</b>                             | Cytundeb busnesau lleol i gynyddu ardrethi at ddibenion penodedig.   | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Mesurau sy'n rhoi sylw i perygl llifogydd i fusnesau  |
| <b>Cynlluniau cydweithredol gyda RMA eraill</b>              | Mae cyfle i gael cynlluniau cydweithredol gyda RMA eraill, er nad oes gan yr Awdurdod Dŵr lawer o le i neilltuo cyllid i gynlluniau oddi allan i'w raglen gyfalaf sydd fel arfer yn cael ei phennu amryw flynyddoedd ymlaen llaw; fodd bynnag, gall trafodaethau a chyfranogiad cynnar elwa pawb a'r   | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych | Mesurau allweddol yn y Strategaeth                    |

## Strategaeth Leol Sir Ddinbych ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd

| Ffynhonnell y Cyllid                                | Disgrifiad   | Cyllideb arwyddol yn 2012/2013 | Gweinyddir gan                       | I dalu am  |
|---|--|--------------------------------|--------------------------------------|--|
|   | Gymuned.   |                                |                                      |  |
| <b>Rhaglenni Interreg 2013 - 2020</b>               | <p>Rhaglen Interreg Cymru Iwerddon Interreg Gogledd-orllewin Ewrop Interreg Ardal Iwerydd</p> <p>Gweithio fel partneriaid gyda siroedd eraill ar gynlluniau sy'n golygu ymchwilio, arolygu, cynyddu ymwybyddiaeth, datblygu offer a strategaethau ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol.</p>  | Anhysbys                       | Adran Ewropeaidd Cyngor Sir Ddinbych | Prosiectau seiliedig ar referniw                   |
| <b>Rhaglen Rhywbeth i Bawb yw Dysgu 2013 – 2020</b> | <p>Polisi Amgylcheddol a Llywodraethu Rhywbeth i Bawb yw Dysgu. Pontio'r bwllch rhwng canlyniadau ymchwil a datblygiad a gweithredu helaeth. Hysbysrwydd, cyfathrebu ac ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth.</p>   | Anhysbys                       | Adran Ewropeaidd Cyngor Sir Ddinbych | Cynlluniau sy'n ceisio symud o Y&D i weithrediad   |
| <b>Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2013 - 2020</b>  | Cronfeydd Strwythurol – yn debygol o fod ynghylch addasu i newid yn yr hinsawdd, atal a rheoli perygl.   | Anhysbys                       | Adran Ewropeaidd Cyngor Sir Ddinbych | Posiblirwydd prosiectau cyfalaf canolog i fawr     |
| <b>DEFRA</b>  | <p>Mae DEFRA yn darparu cyllid arall i helpu rhai perchenogion unigol dalu am gost gosod mesurau gwrthsefyll llifogydd i eiddo unigol mewn ardaloedd sy'n dioddef llifogydd yn aml ac nad ydynt yn elwa ar amddiffynfeydd cymunedol. Mae'r cymorth ariannol yn cael ei weinyddu drwy'r awdurdodau lleol, ac yn cael ei ad-dalu gan EA. Mae DEFRA hefyd yn talu am waith i ddeall a rheoli'r perygl o lifogydd dŵr arwyneb, tir a dŵr codi.</p> | Anhysbys                       | Cyngor Sir Ddinbych                  | Gosod mesurau gwrthsefyll llifogydd i eiddo unigol |

Tabl 9.2: Ffynonellau cyllid posibl CSDd at y dyfodol ar gyfer FCERM

## 9 Cyfraniad at Amcanion Amgylcheddol Ehangach

Prif ddiben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r strategaeth ar weithredu mesurau rheoli perygl llifogydd ar hyd a lled Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae cyfle i gael buddiannau sylweddol wrth wneud hynny, o ran uchelgeisiau'r sir a'r wlad gyfan yng nghyd-destun ehangach cynaliadwyedd a gwelliant amgylcheddol a chymdeithasol. Y nod yw creu gwell amgylcheddau i drigolion a busnesau, yn ogystal â gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd lleol ar gyfer bywyd gwyllt.

Bydd cyflawni buddiannau lluosog yn gofyn gweithio gyda phartneriaid i nodi blaenoriaethau a chyfleoedd lleol. Pan fo hynny'n briodol, ac yn unol ag egwyddorion y Strategaeth Genedlaethol, byddai modd gofyn am gyfraniadau sy'n cynorthwyo cyflawni'r gwelliannau ychwanegol hyn gan y partneriaid hynny sy'n elwa. Fe all mwy o gymorth ariannol y llywodraeth hefyd fod ar gael pan gaiff buddiannau ehangach eu cyflawni fel rhan o'r Strategaeth Leol.

Isod mae'r amcanion a mesurau amgylcheddol y bydd y Strategaeth Leol yn cyfrannu atynt trwy reoli perygl llifogydd lleol yn effeithiol, rhai ohonynt yn cynnwys amcanion y Strategaeth Leol ac amcanion amgylcheddol cenedlaethol:

- Lleihau'r effaith a chanlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
- Sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n briodol yng ngoleuni materion llifogydd a'r effaith y gall cynllunio at y dyfodol ei chael ar reoli perygl llifogydd a datblygiadau hirdymor.
- Gwella a/neu gynnal cynhwysedd systemau draenio presennol trwy dargedu cynnal a chadw.
- Sefydlu Corff Cymeradwyo SDC (CCS).
- Bydd CCS Sir Ddinbych yn manteisio ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar annog, mabwysiadu a chynnal SDC. Mae SDC yn gyfle i sicrhau bod amwynder a bioamrywiaeth yn cael eu hystyried yr un mor bwysig â rheoli llifau dŵr.
- Bod ag agwedd gynaliadwy at reoli perygl llifogydd gan gydbwysu buddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Ymhlith targedau'r Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr (dan Erthygl 4.1) sy'n berthnasol i'r strategaeth hon ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol mae:
  - Sicrhau nad oes dim dirywiad mewn dŵr arwyneb na dŵr codi a diogelu holl gyrff dŵr (gan gynnwys dyfroedd arfordirol);
  - Cyflawni statws ecolegol 'da' erbyn 2015 ar gyfer dŵr arwyneb a dŵr codi;
  - Lleihau llygredd a sylweddau peryglus mewn dŵr arwyneb a dŵr codi;
  - Gwrthdroi unrhyw dueddiadau cynyddol o lygryddion mewn dŵr codi; a hefyd
  - Cyrraedd safonau ac amcanion a bennwyd ar gyfer ardaloedd gwarchoddedig.
- Mabwysiadu agwedd gyfannol at atebion draenio.
- Cyfoethogi bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd o fewn unrhyw gynlluniau cyfalaf yn y dyfodol. Mae modd defnyddio'r cynlluniau hyn hefyd mewn cylchoedd trefol i ddarparu llecynnau glas amwynderol.

- Addasu i newid yn yr hinsawdd trwy fesurau rheoli perygl llifogydd lleol, er mwyn cynnwys cydnerthedd cymunedol a gweithredol.
- Gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn Sir Ddinbych. Mae dyletswydd ar holl awdurdodau rheoli perygl llifogydd (dan Adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo gwarchod a gwella SoDdGA.
- Sicrhau nad yw cynefin yn cael ei golli neu ddiraddio trwy waith rheoli perygl llifogydd i gydymffurfio â'r Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth (BAP). Fel awdurdod llifogydd, mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ddinbych (dan Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006) i warchod bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych.
- Sicrhau bod canlyniadau amgylcheddol gweithredu'r LFRMS yn cael eu hystyried gyferbyn â buddiannau technegol, economaidd a chymdeithasol.
- Aseswyd y strategaeth yn drwyadl gyferbyn â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) a Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

### 9.5 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) yw'r darn mwyaf sylweddol o ddeddfwriaeth ddŵr y CE hyd yma ac fe'i lluniwyd i wella a chyd-drefnu sut gaiff cyrff dŵr eu rheoli drwy Ewrop gyfan. Daeth i rym ar 22 Rhagfyr 2000 a throswyd i gyfraith y DU yn 2003 trwy Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003. Rhaid i Aelod-wladwriaethau geisio cyrraedd statws cemegol ac ecolegol da mewn dyfroedd mewndirol ac arfordirol erbyn 2015. Lluniwyd i wneud y canlynol:

- Atal dirywiad yn statws dosbarthiad ecosystemau dyfrol, eu gwarchod a gwella cyflwr ecolegol dyfroedd.
- Ceisio cyflawni statws da o leiaf ar gyfer holl ddyfroedd. Lle nad oes modd gwneud hyn, dylid cyflawni statws da erbyn 2021 neu 2027.
- Hyrwyddo defnyddio dŵr yn gynaliadwy fel adnodd naturiol.
- Gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr.
- Yn raddol, lleihau neu ddi-ddymu gollyngiadau o lygryddion unigol neu grwpiau o lygryddion sy'n peri bygythiad sylweddol i'r amgylchedd dyfrol.
- Yn raddol, llygru llai ar ddŵr codi ac atal neu gyfyngu ar fynediad llygryddion.
- Cyfrannu at liniaru effeithiau llifogydd a sychderau.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu ffyrdd newydd a gwell o warchod a gwella afonydd, llynnoedd, dŵr codi, dyfroedd trosiannol (lle bydd dŵr croyw a dŵr y môr yn cymysgu) a dyfroedd arfordirol. Er mwyn cyflawni hyn, cynhyrchodd Cyfoeth Naturiol Cymru dri o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd yng Nghymru yn 2009, yn pennu mesurau i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr. Mae'r rhain yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hadolygu yn 2015, 2021 a 2027, i sicrhau nad yw statws y cyrff dŵr yn dirywio o'r safonau a bennwyd yn 2009 fel rhan o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

gwreiddiol. Mae'n bwysig nad yw mesurau rheoli perygl llifogydd lleol yn peri dirywiad cyrff dŵr a dylent ystyried cyfleoedd i wella cyrff dŵr ar y cyd â rheoli perygl llifogydd lleol.

### 9.6 Datblygu Cynaliadwy

#### 9.6.7 Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i fod â 'Chynllun ar gyfer Datblygu Cynaliadwy', yn dangos sut fydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Lansiwyd y cynllun presennol, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned<sup>25</sup> ym mis Mai 2009 ac mae'n diffinio datblygu cynaliadwy fel:

*"Gwella ffyniant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan gyflawni gwell ansawdd bywyd i'n cenhedlaeth ein hun a chenedlaethau a ddaw mewn ffyrdd sy'n:*

1. *Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac yn*
2. *Gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau – gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol."*

Dywed 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' pe bai pob gwlad yn y byd yn defnyddio gymaint o adnoddau â'n gwlad fach ni, byddai arnom angen gwerth tair planed o goed, o gnydau, o olew ac ati i oroesi, ac mae hyn yn cynyddu. Mae'n amlwg na allwn ni ddim dal ati fel hyn ac, er ein bod yn gwneud cynnydd yn Sir Ddinbych, mae mwy i'w wneud eto.

#### 9.6.8 Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Perygl

Yn ôl gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i esbonio sut ddyliid cymhwyso datblygu cynaliadwy i reoli perygl llifogydd; 'Datblygu Cynaliadwy: Canllawiau i Awdurdodau Rheoli Perygl Adran 27 – Datblygu Cynaliadwy'.

Dywed y canllawiau bod datblygu cynaliadwy'n berthnasol dros ben i Reoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ac yn gofyn agwedd sy'n cyflawni pedwar amcan:

- Gwneud y gorau o ffyniant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor pobl a chymunedau yng Nghymru, wrth fyw o fewn terfynau amgylcheddol;
- Gwarchod parhad darparu gwasanaethau ecosystem o'n hamgylchedd naturiol;
- Osgoi rhoi cenhedlaeth heddiw a'r dyfodol mewn perygl cynyddol; a hefyd
- Gwella gallu cymunedau, yr economi a'r amgylchedd naturiol, hanesyddol a chymdeithasol i wrthsefyll perygl heddiw a'r dyfodol.

<sup>25</sup> Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned. Cynllun Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Mai 2009, <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?lang=en>

## 10 Adolygu'r Strategaeth

Bydd y Strategaeth yn rhoi'r fframwaith i Gyngor Sir Ddinbych gyflawni ei gyfrifoldebau ac uchelgeisiau rheoli perygl llifogydd. Bydd Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn adolygu'r strategaeth yn rheolaidd gyda chymorth adrannau eraill er mwyn cadw golwg ar weithredu'r mesurau. Bydd yr adrannau dan sylw'n cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Cynllunio at Argyfwng, Cynllunio, y Gyfraith, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a'r Wasg.

Mae'n "ddogfen fyw" fydd yn datblygu wrth i wybodaeth newydd, medrusrwydd ac adnoddau ddylanwadu ar gyflawni'r mesurau sy'n cael eu hamlinellu yn y Strategaeth. Bydd newidiadau sylweddol hefyd yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda'r drefn gynllunio'n newid a'r gofynion am ddraenio cynaliadwy; o ran darparu yswiriant llifogydd; o ran cyllido a dylunio cynlluniau atal llifogydd; a'n gwybodaeth gynyddol am ble mae'r perygl llifogydd mwyaf yn y Sir. Bydd CSDd yn ystyried y newidiadau hyn a'r goblygiadau o ran y Strategaeth ac yn gwneud addasiadau cyfredol bob blwyddyn i'r Strategaeth yn ôl yr angen.

Datblygwyd y Strategaeth i gyflawni cynllun gwella tymor byr i ganolig er mwyn sefydlu sail dystiolaeth a gwybodaeth gadarn i ddatblygu rhaglen fuddsoddi tymor hwy mewn mesurau FRM ar hyd a lled y rhanbarth. Y disgwyl yw y bydd y Strategaeth yn canolbwyntio mwy ar gyflawni rhaglen gyfalaf fforddiadwy o waith FRM gyda chyllid ar ei chyfer yn y tymor hwy.

Y bwriad yw y dylai fod adolygiad ffurfiol o'r Strategaeth Leol yn 2017 yn dilyn adolygu'r Strategaeth Genedlaethol yn 2016, ac i gyd-ddigwydd ag adolygu'r asesiad perygl llifogydd rhagarweiniol yn ôl gofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009. Yna dylai'r Strategaeth ddal i gael eu hadolygu bob chwe blynedd ar y cyd ag adolygu'r PFRA, oni bai fod amgylchiadau'n gofyn adolygiad amlach.

| Cyfnodau Rheoli Perygl Llifogydd  | Dyddiad  |
|---|--|
| Cwblhau'r Cynllun Gweithredu Blynyddol cyntaf ar gyfer y strategaeth                              | Hydref 2014 a phob blwyddyn wedi hynny   |
| Cyhoeddi Mapiau Perygl Oherwydd Llifogydd a Lle mae Perygl Llifogydd                              | Rhagfyr 2013 a phob chwe blynedd wedi hynny (pan fo hynny'n briodol)                   |
| Cyhoeddi Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a chwblhau cylch cyntaf y Rheoliadau Perygl Llifogydd | 22 <sup>ain</sup> Rhagfyr 2015 a phob chwe blynedd wedi hynny (pan fo hynny'n briodol) |
| Cyhoeddi ail Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd gan Lywodraeth Cymru                | 2016   |
| Adolygu a diweddarau Asesiad Perygl Llifogydd Sir Ddinbych (PFRA)                                 | Gwanwyn 2017 a phob chwe blynedd wedi hynny  |
| Cwblhau adolygiad ffurfiol cyntaf o LFRMS Sir Ddinbych  | Gwanwyn / haf 2017 a phob chwe blynedd wedi hynny (neu pan fo hynny'n briodol)         |

Table 11.1: Amserlen CSDd ar gyfer adolygu'r LFRMS

## Atodiad A

### Awdurdodau Rheoli Perygl yn Sir Ddinbych

| <b>Dŵr Dyffryn Dyfrdwy</b> |  |
|----------------------------|--|
| Cyfeiriad                  | Packsaddle<br>Ffordd Wrecsam<br>Rhostyllen<br>Wrecsam<br>LL14 4EH          |
| Ffôn                       | Llinell Ollwng 0800 298 7112 / Argyfwng 01978 846946                       |
| Gwefan                     | <a href="mailto:contact@deevalleygroup.com">contact@deevalleygroup.com</a> |

| <b>Dŵr Cymru</b> |  |
|------------------|--|
| Cyfeiriad        | Pentwyn Road<br>Nelson<br>Treharris<br>CF46 6LY            |
| Ffôn             | 01443 452300   |
| Gwefan           | <a href="http://www.dwrcymru.co.uk">www.dwrcymru.co.uk</a> |

| <b>Cyfoeth Naturiol Cymru</b> |  |
|-------------------------------|--|
| Cyfeiriad                     | Pencadlys<br>Tŷ Cambria<br>29 Heol Casnewydd<br>Caerdydd<br>CF24 0TP                               |
|                               | Swyddfa'r Gogledd<br>Ffordd Penlan<br>Parc Menai<br>Bangor<br>Gwynedd<br>LL57 4DE                  |
| Ffôn                          | 08708 506 506  |
| e-bost                        | <a href="mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk">enquiries@naturalresourceswales.gov.uk</a> |
| Gwefan                        | <a href="http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk">www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk</a>               |
| <b>Rhif Llinell Llifogydd</b> | 0845 988 1188 (gwasanaeth 24 awr)<br><b>Type Talk:</b> 0845 602 6340                               |

| <b>Cyngor Sir Ddinbych</b> |   |
|----------------------------|---|
| Cyfeiriad                  | Cyngor Sir Ddinbych<br>Neuadd y Sir<br>Ffordd Wynnstay<br>Rhuthun |



|        |  |
|--------|--|
|        | LL15 1YN   |
| Ffôn   | 01824 706101   |
| Fax    | 01824 706180   |
| Gwefan | <a href="http://www.sirddinbych.gov.uk">www.sirddinbych.gov.uk</a> |

|                          |  |
|--------------------------|--|
| <b>Llywodraeth Cymru</b> |  |
| Cyfeiriad                | Mannau Cynaliadwy<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathay's<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ  |
| Ffôn                     | (Cymraeg) 0300 0604400 neu 0845 010 4400<br>(Saesneg) 0300 0603300 neu 0845 010 3300<br>(Ymholiadau Rhyngwladol) (+44) 1443 845500 |
| e-bost                   | <a href="mailto:FloodCoastalRisk@cymru.gsi.gov.uk">FloodCoastalRisk@cymru.gsi.gov.uk</a>   |
| Gwefan                   | <a href="http://www.cymru.gov.uk">www.cymru.gov.uk</a>   |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **1. St Asaph**

The investigation carried out by Natural Resources Wales (NRW) following the floods found that the current defences in St Asaph provide protection against a 1 in 30 chance event north of the A55 (adjacent to Roe Parc) and 1 in 75 chance event south of the A55. This was below the standard of protection considered appropriate. Natural Resources Wales has identified short term measures, some of which have been completed, and is also considering long term options to reduce the risk of flooding to a more acceptable level.

- Short Term Measures

- The flood embankment at Roe Parc has been raised to provide a minimum standard of protection of 1 in 75 until a long term solution can be delivered.
- Modifications to Spring Gardens Bridge, involving the installation demountable barriers and alterations to mesh fence above the bridge deck (work completed October 2013).
- Some tree clearance work between the New Inn public house and the confluence of the Clwyd and Elwy has been completed. Further work is due to start in August 2014.

- Long Term Plans

- NRW has commenced work to plan and design long term options as part of a process that could take at least three years. NRW now expects to carry a project appraisal study in August 2014 for submission to the Welsh Government (WG) for approval. Design work is anticipated to be carried out in 2015 with construction expected in 2016, subject to WG funding.
- Project options under assessment are the permanent raising of flood defence bunds throughout St Asaph, removal / raising of Spring Gardens bridge, setting back flood defence bunds downstream of St Asaph and upstream storage. The assessment process will identify which option is the most cost effective. The preferred solution may be a combination of different options.

## **2. Rhuddlan, including Sarn Lane**

The proposed long term measures to reduce flood risk at St Asaph should also reduce the risk to properties in and around Rhuddlan.

## **3. Lower Denbigh Road**

NRW has extended its flood warning service to include isolated properties in Lower Denbigh Road. The service went live in October 2013. All but two properties have Individual Property Protection (IPP) installed. However, these properties have been surveyed and are awaiting IPP.

#### **4. Brookhouse, Denbigh**

The Council has installed non-return valves to 4 surface water drains in the vicinity of the A525 underpass to prevent water from the River Ystrad entering the drains and flooding properties. A flood modelling study is expected to be completed in July 2014. An assessment will be undertaken to look at possible options for reducing risk. The majority of properties at risk already have Individual Property Protection (IPP) installed.

#### **5. Gellifor**

A hydrological study of the river catchment has been carried out. This has identified that 14 properties, including 2 businesses, are at risk from a 1 in 100 year flood. The Council will now approach the Welsh Government regarding funding to carry out a project appraisal study to identify the most cost effective solution to reduce risk.

#### **6. Glasdir, Ruthin**

- The Council received Flood Defence Consent from Natural Resources Wales on 27<sup>th</sup> February 2014 to carry out work to raise and extend the existing flood bund, including the installation of pre-cast concrete wall units.
- Work started on site on 2<sup>nd</sup> June 2014 (commencement was delayed because of wet ground conditions) and is anticipated to take 3 months to complete.
- Glasdir Community Flood Plan completed in October 2013. The plan will be reviewed by Natural Resources Wales, the Council and the Glasdir residents every 12 months.

#### **7. Park Place, Mwrog St., Maes Ffynnon, Ruthin**

- NRW has carried out work to repair a flood bund in the vicinity of Cae Ddol (the bund had been eroded prior to the flood as a consequence of human activity).
- Non-return valves have been installed to gully connections on the A494 at Mwrog Street to prevent flood water from the River Clwyd entering the highway.
- Maintenance work has been carried out by NRW to the masonry wall Adjacent to the River Clwyd at Maes Ffynnon.

#### **8. River Management Partnership**

During discussions with Natural Resources Wales (NRW), it became apparent that NRW was already developing proposals for a project to investigate the benefits of an 'ecosystems approach' to catchment management. These proposals have subsequently evolved to become a pilot study focusing on the River Clwyd catchment, entitled 'Land and Water Management within the Clwyd Catchment'. As the Lead Local Flood Authority, the Council is a key stakeholder in the study. Other stakeholders include representatives of landowners and the farming community and

Report to Cabinet 29th July 2014

Denbighshire's Local Flood Risk Management Strategy

Appendix 2: Update on the Recommendations of the Investigation Reports into the November 2012 Floods

Dwr Cymru Welsh Water. Natural Resources Wales hopes that the pilot study will form the basis of a nationally adopted approach to catchment management. At this stage it isn't clear whether the outcomes from the pilot will contribute towards the establishment of a River Management Partnership. However, to avoid duplication of effort, it would be prudent for the Council to continue to work with Natural Resources Wales for the time being.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## **1.1 Background to the Flood Event**

On 5<sup>th</sup> December 2013, a high astronomical tide combined with storm surge (low atmospheric pressure) resulted in elevated sea levels. Strong (severe gale force 9 at times) onshore (northerly) winds created large waves which overtopped Denbighshire's coastal defences. The most significant overtopping occurred between Splash Point and Rhyl Golf course, leading to the flooding of 140 properties. Whilst the rate of overtopping was less at West Rhyl, serious flooding was only averted by the strategic deployment of sandbags at the junction of West Parade and numerous side roads in the area. The Nova Centre in Prestatyn suffered minor internal flooding.

As well as flooding of property, there was significant damage to the coastal infrastructure, in particular, between West Rhyl and Rhyl Golf Course. The sand dune system at Barkby Beach and Gronant Dunes suffered significant damage due to wave action, with lateral losses of up to 8 metres, ie. there is up to 8 metres less sand dune than there was before the storm. The Prestatyn defences performed very well (there was very little flooding)

## **1.2 Investigation of the Flood Event**

On 10<sup>th</sup> December 2013, the Minister for Natural Resources and Food, Alun Davies AM, addressed the Senedd and explained that he had asked Natural Resources Wales to coordinate the investigation into the 5<sup>th</sup> December 2013 coastal flood event, which affected the whole of the North Wales Coastline and covered four local authorities. The Minister said that he felt one comprehensive report was better than four separate reports.

The investigation was subsequently referred to as the Wales Coastal Flooding Review and was expanded in scope to cover the whole of Wales, following flooding in South and West Wales as a consequence of the January 2014 storms. The review was carried out in two phases. Phase 1, which made an assessment of impact of the storms, was published on 31<sup>st</sup> January 2014. Phase 2 of the Review, which concluded the investigation and made 47 recommendations, was published on 30<sup>th</sup> April 2014. The documents can be found by using the following links:

<http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-warnings/recent-flooding-incidents/wales-coastal-flooding-report/?lang=en>

<http://naturalresourceswales.gov.uk/alerts/flood-warnings/recent-flooding-incidents/wales-coastal-flooding-review-phase-2-report/?lang=en>

In addition, the Council has carried out its own assessment of the flooding of the A548 Coast Road, Garford Road and surrounding areas. The report, which is referenced in the Natural Resources Wales Review, can be found by using the following link:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/news/may-2014/Garford-Road-flooding-report.aspx>

### 1.3 Summary of the Findings of the Investigation

#### 1.3.1 Why did the flooding happen?

The coastal defences were overtopped by very large waves, driven onshore by gale force winds which occurred at the same time as high astronomical tides combined with an atmospheric storm surge. The secondary defences were breached at Garford Road, but would have been overtopped anyway due to the volume of water coming over the main sea wall.

#### 1.3.2 How likely is it for that scale of flooding to happen again?

Unfortunately, Natural Resources Wales and its consultants have been unable to determine the severity of the 5<sup>th</sup> December 2013 event. This is largely due to the complexity of the assessment of the joint probability of several extreme conditions (high astronomical tide, tidal storm surge, gale force winds from a northerly direction and large wave heights) all occurring at the same time. To quote from the Review:

*'Return periods for the coincident sea levels and wave heights seen in December 2013 and January 2014 have been calculated using the DEFRA 'desk study' approach (FD2308). These are very large and extremely sensitive to the level of dependence assumed. Such extreme values mean that we have little confidence in the reported numbers and can only conclude, qualitatively, that the combination of wave and sea level seen in December 2013 and January 2014 made them significantly rarer than their still water level return period alone.'*

The Natural Resources Wales Review recommends that further analytical work needs to be carried out to determine the severity of the December 2013 and January 2014 storms and to update the guidance used for the assessment of the standard of protection provided by the coastal defences.

#### 1.3.3 What improvement actions are needed to ensure that flood risk in the County is appropriately managed in future?

The Natural Resources Wales Review makes 47 recommendations in total (at the time of writing, the recommendations have yet to receive Ministerial approval). **Recommendation 24** is directly relevant to Denbighshire County Council:

***Options to seek improvements to the standard of protection at the Garford Road area of Rhyl should be identified and evaluated. This should include detailed hydraulic analysis of the capacity and performance of the storage lagoon. This should include an assessment of the stairwell and slipway openings and the interaction with the adjacent golf course area.***

In response to this recommendation, the Council has carried out the following actions:



- A topographical survey of Rhyl Golf Course has been carried out to determine the capacity of the course to temporarily store water which overtops the defences, before releasing it back out to sea at low tide. The initial feasibility assessment is favourable. However, discussions with Rhyl Golf Club will be required before detailed proposals can be finalised.
- Specialist consultants have been appointed to assist with the hydraulic analysis of the lagoon and the golf course. The consultants will also look at options to reduce the risk of overtopping of the primary coastal defences between Splash Point and the Golf Course.

#### **1.4 Welsh Government Grant Aid to Carry Out Emergency Repairs**

In February 2014, the Council was made aware that the Welsh Government was considering making grant available from its 2013-14 budget for repairs to coastal defences around Wales damaged by the December 2013 and January 2014 storms. Subsequently, the Council submitted a grant application for work to be carried out by the end of March 2014, amounting to £701,000. Separate funding of £254,324 was claimed as Tourism Infrastructure Grant to carry out repairs the promenade and other non-coastal defence features.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Report to Cabinet 29th July 2014  
Denbighshire's Local Flood Risk Management Strategy  
Appendix 4: Future Flood Risk Management & Coastal Defence Schemes

Tudalen 187

| <b>Name of Scheme</b>                               | <b>Number of Properties at Risk</b>      | <b>Stage of Preparation</b>   | <b>Estimated Cost</b> |
|---|--|---|-----------------------|
| Dyserth Flood Risk Management Scheme                | 72 properties, including 6 businesses    | Project Appraisal Report submitted to the Welsh Government for approval.  | £1.2M                 |
| Glascoed (St Asaph) Flood Risk Management Scheme    | 23 properties, including 3 businesses    | Project Appraisal Report submitted to the Welsh Government for approval.  | £554k                 |
| Llanbedr Dyffryn Clwyd Flood Risk Management Scheme | 10 properties, including 2 businesses    | Project Appraisal Report submitted to the Welsh Government for approval.  | £842k                 |
| Pwll Glas Flood Risk Management Scheme              | 16 properties, including 1 business      | Project Appraisal Report submitted to the Welsh Government for approval.  | £372k                 |
| Gellifor Flood Risk Management Scheme               | 14 properties, including 2 businesses    | Hydrological study carried out.   | £300 - £500k          |
| Splash Point Coastal Defence Scheme                 | More than 2000 houses and 300 businesses | Early stage discussions with internal and external stakeholders. Appointment of specialist consultants anticipated by end of July 2014. | £5M+                  |
| Barkby Beach Dune Replenishment and Enhancement     | More than 3000 houses and 400 businesses | Early stage discussions with internal and external stakeholders.  | £3M+                  |

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Report to Cabinet 29th July 2014  
Denbighshire's Local Flood Risk Management Strategy  
Appendix 5: Flood Risk Definitions

| Term                            | Meaning / Definition  |
|---------------------------------|---|
| Catchment                       | An area that serves a river with rainwater; that is, every part of land where the rainfall drains to a single watercourse is in the same catchment.   |
| Climate Change                  | The change in average conditions of the atmosphere near the Earth's surface over a long period.   |
| Coastal Erosion                 | The wearing away of coastline, usually by wind and/or wave action.  |
